Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

RHUDDLAN
EISTEDDVOD
1850.

~~50.969.~~

28915 e. 98

# EISTEDDFOD FRENHINOL RHUDDLAN,

1850. CYFROL I.

## Y CYFANSODDIADAU BUDDUGOL

AR

Y TESTUN CADEIRIOL

SEF

# YR ADGYFODIAD.

## Y BRYDDEST,

GAN Y PARCH. EVAN EVANS, O INCE;

## YR AWDL,

GAN Y PARCH. WILLIAM WILLIAMS, LLANRWST.

A·BIBLIOTHECA

---

LLUNDAIN:

SIMPKIN, MARSHALL, AND CO.: H. HUGHES,
ST. MARTIN'S-LE-GRAND:
CAERLLEON: DUCKER, MINSHULL, AND EDWARDS; A'R HOLL
LYFRWERTHWYR YN NGOGLEDD A DEHEUDIR
CYMRU.

1853.

TO

# THE RIGHT HON. LORD MOSTYN,

IN ACKNOWLEDGMENT OF

THE DEVOTED AND EFFICENT MANNER IN WHICH

HIS LORDSHIP PRESIDED OVER ALL THE PUBLIC PROCEEDINGS

OF THE

RHUDDLAN ROYAL EISTEDDFOD,

THE FIRST VOLUME

OF

THE PRIZE COMPOSITIONS,

COMPRISING THE CHAIR POEM,

AND

THAT TO WHICH THE SECOND PRIZE WAS AWARDED,

IS MOST RESPECTFULLY AND GRATEFULLY

DEDICATED

BY

THE COMMITTEE.

# THE ADJUDICATION

## UPON THE COMPOSITIONS ON THE CHAIR SUBJECT, NAMELY,

## "THE RESURRECTION."

---

IN this instance the prize offered was, a gold medal and a premium of £25 to the best, and a premium £5 to the second best poem on the above subject. The judges were the Venerable Archdeacon WILLIAMS: the Rev. J. JONES (*Tegid*); and WILLIAM JONES, Esq. (*Gwrgant*). The latter read the adjudication, which was as follows:—

In performing the important duty of adjudicating on the chair prize, we, the judges, beg to assert that we have been actuated by no other feeling than an honest desire to do justice. We have held the balance between the parties with steady hands, firm minds, and, we hope, correct judgment. The committee laid down rules which made it utterly impossible for us to know who any of the authors are. They have not been permitted to transcribe their own productions for fear that their handwriting might lead to their discovery. The goddess of justice with us, was therefore, of necessity, blindfolded, holding her balance with perfect indifference as to the result. We could have no partiality, except for the sublime and the beautiful. We know not one of the authors. Twenty-eight compositions were received on this subject. Some so inferior that we have not deemed it necessary to waste criticism upon them. A much larger number ranking above mediocrity: and seven or eight of exquisite beauty,—poems that would adorn the literature of any age. It is not necessary that we should here read our (written)

remarks on every poem. That would be tedious and uninteresting. They have all gone through the fiery ordeal of criticism, and out of that fire has come one as pure as gold. It is as beautiful as any thing in the Welsh language. The author one moment takes his flight over boundless space. Into the heaven of heavens he has presumed an earthly guest, his Pegasus designing withal to travel along this little globe of ours, its ways and byeways, his wings ever ready to soar above. As the poem contains nearly three thousand lines, it would be out of character to read it. If the author be present he may perhaps select some portions to read. It is difficult to select any passages for illustration, where all is beautiful. There is mind in every line. Almost every sentence contains a climax. Every paragraph is a volume of living imagery, and the whole poem is a body of divinity. The style is simple, yet classical and elegant. There is no hunting after obsolete or new fangled words. No coining except with standard gold, and that in the author's own mint. Such being our opinion of this poem, we do hereby,

Yn ngwyneb haul a llygad goleuni

declare the author to be well entitled to receive the bardic crown on this occasion, and to sit in the chair of the Royal Rhuddlan Eisteddfod.

*Yr Adgyfodiad.*—The second best on this subject, in our opinion, is an Awdl of about 870 lines. The author takes a comprehensive view of his subject. He begins with a description of sin and its consequences—

Dwyn i henaint ein heinioes,
A gwanâu wna egin oes.

[Death with the universality of its dominion,
The resurrection—illustrate from nature.]

Onid oes mewn llindysyn—a'i feroes,
Wrth farw'n ei blisgyn;
A chodi mor wych wed'yn,
Eglurhâd goleu ar hyn?

After describing many instances of the decay and revival of nature with its seasons, the author says—

Wedi am hir dymhorau,—in' aros
Yn nhir cysgod angau;
Daw o'r dyfnfedd, culfedd cau,
Yn wanwyn arnom ninnau.

He describes the holiness of the blessed—

Ni welir unrhyw waeledd
Yn ei ddull a'i newydd wedd.

After thus taking a general survey of his subject, the author returns to describe the scenes of life—man in all his changes—

Ond y gwrid yn ei deg rudd.

Christ's appearance in the flesh, suffering, death, burial, and resurrection.

Er hyny llwyr goronwyd—y llafur,
Llefai Ef—" Gorphenwyd ;"
A llais eglur, y lle siglwyd,
Gwna'r floedd gyffro'n y nefoedd, ac uffern anafwyd.

We will not follow the poet throughout his work. We could have wished that so beautiful a production had been without blemish. Such is not the case. There are several metrical errors to be met in it, such as

" Y glana', 'r hardda'i wrid."
" Ar ei war, modrwy i'w wraidd."
" Gwawria 'r dedwydd filflwyddiant,"
" A'r byd yn wynfyd a wnant."
" Wedi i'r saint ri' y ser—lwyr esgyn."
" Ffynon ac afon yfir."

and some others; but these are mere specks on the bright sun. They are seen, but do not diminish its lustre. We think the author of this poem entitled to the second prize.

## SYLWADAU RHAGFLAENOL.

Y mae 'r Awdwr, gyda phob dyledus barch a gostyngeiddrwydd, yn dymuno hyspysu i'r Beirniaid—

I. Ddarfod iddo gymmeryd y rhyddid a ganiatêir yn ol y Rheolau Caethion, i ddefnyddio y fath eiriau a *galw*, *enw*, *marw*, &c. &c. yn unsill neu lïaws-sill, fel y tybiai yn angenrheidiol.

II. Hefyd yn yr un modd mewn perthynas i'r fath eiriau a *hagr*, *gwobr*, *cwbl*, *teml*, *pobl*, &c. &c.; ac felly mewn geiriau llïaws-sill o gyffelyb ddull, megis *arogl*, *esampl*, *pelydr*, *oddiwrth*, *oddiar*, &c. &c.

III. Ei fod hefyd wedi cymmeryd y rhyddid o ddodi *u* ac *y* i gyferbynnu yn y brif-odl, o herwydd eu bod yn berffaith gydseiniol, megis yn y geiriau *gwrthun* ac *esgyn*; *hynny* a *dyrchafu*, &c. &c.

IV. Ei fod ambell waith wedi dilyn trefn rhai o'r prif awdwyr Seisnig o osod llinellau mewn dull o driban cydodlawg.

V. Hefyd ei fod wedi ymdrechu i gadw at amgylchiadau cyssylltiedig â'r ADGYFODIAD, a gadael allan yr hyn a dybiai yn perthyn yn fwy prïodol i ddosparth a gweithrediadau y FARN.

VI. Y mae yr awdwr wedi ymdrechu, drwy holl ystod y Ganiad, i ymdrin â phwngc mawr ei destun yn y fath fodd ag i'w ddwyn i fod yn wrthddrych dylanwad ar ddyn, fel creadur cyfrifol, mewn sefyllfa o brawf, a chyda golwg ar ei dynghedfen dragywyddol. Am hynny efe a'i cyfansoddodd yn y dull mwyaf ymarferol ac agos at ddeall y darllennydd cyffredin ag a allai, yn gydweddol â dillyndra iaith ac ymadrodd.

YNYSWR.

# YR ADGYFODIAD.

---

Adgyfodiad y Meirw !—O y fath destun !
Wrth feddwl ei olrhain, mae 'm henaid mewn dychryn !
Prif sylfaen—canol-bwynt, a diben hynodol,
A chongl-faen clöedig ein Crefydd sancteiddiol.
Mae arswyd i'm llenwi rhag im', mewn anwybod,
Dywyllu'r fath Gyngor, a dwyn arno gysgod.

O Awdur doethineb, a Rhoddwr pob doniau,
A Thâd yr ysprydoedd, a'u rhyfedd gynheddfau,
Dod imi gyfraniad o'th Yspryd yn helaeth,
I'm dysgu a'm harwain drwy'r bwysig anturiaeth.
Ucheldaith yw hon, goruwch natur a'i hegni
I allu, ei hunan, ei theilwng gyflawni.
O dod imi nerth i ymysgwyd yn hollol
Oddiwrth bethau'r cnawd, a theganau amserol,
Ac estyn ymlaen, uwch eu dwndwr a'u twrw,
Nes cyrraedd hyd at Adgyfodiad y Meirw.
Fel gwialen mab Amram mae hwn, ymhob cyfran,
Yn llyngcu pob testun yn llwyr iddo 'i hunan.

Ar hwn mae pob dalen o'r burlan Ysgrythyr
Yn hollol ddibynnu am iawnder ei hystyr;
Heb hwn ni fai "pregeth" ei holl Apostolion,
Na "ffydd" eu gwrandaw-wyr, ond ofer freuddwydion.
Efe ydyw heulwen ffurfafen ein crefydd,
'N goleuo a chynnal pob rhan wrth ei gilydd.
At hwn mae pinaglau ein temlau 'n cyfeirio
Am bwys eu gwasanaeth, a'r achos am dano.
Heb un ADGYFODIAD, chwaith Crist ni chyfodwyd;
Oddiwrth ein pechodau nyninnau ni olchwyd:
Yna y cyfrgollwyd y rhai a hunasant
A'u hyder yn Iesu am fythol ogoniant;
A roddwyd i orphwys mewn gobaith disyflyd
Y caffent, ryw ddydd, adgyfodiad i fywyd.
Mor dywyll heb hwn fyddai ardal y beddrod,
Mor ddidraidd y llenni sydd drosti yn gysgod;
Mor drwm fyddai gweled ein hoffus gyfeillion
A'n hanwyl berth'nasau 'n myn'd dan eu dyblygion.
O pwy all ymgynnal o dan yr ymsyniaeth
O'u bythol ddileu oddiar ddalen bodolaeth?
A thrymmach yw meddwl mai dyna 'r oer dynged
Sy 'n haros ein hunain, na wyddom po gynted.
Wedi 'r holl hiraeth mawr ar ol anfarwoldeb,
A dyhêu am gyrhaeddyd gradd uwch mewn bodoldeb,
Mor erch, wedi 'r cyfan, ein dwyn i ddiddymdra,
Un wedd a'r anifail a wnaed i'w ddifetha,
Heb unrhyw derfyngylch tu hwnt i'r oer weryd
I ennyn ein gobaith, na maethu 'n hawyddfryd.

Hwt! ymaith i'r fagddu, annuwiol grybwyllion,
Pa 'm meiddiwch ymrithio yngwyneb haul hinon?

Ffowch hwnt i lochesau bythnosol a fferllyd
Y diras wrthgredwyr a'u ciwed wenwynllyd;
A minnau, ond hynny, a rodiaf yn hyrwydd
Wrth wawl Ysprydoliaeth, heb betrus na thramgwydd.
Fendigaid Efengyl! prif darddle 'n cyssuron,
Pwy byth a all draethu dy werth i blant dynion,
Am ddwyn iddynt fywyd ac anllygredigaeth
I berffaith oleuni, drwy 'th ddwyfol ddysgeidiaeth?
Drwy ystod fy ymdaith a'm hynt anturiaethol,
Tydi fo'm prif angor, a'm seren ogleddol;
Fy llyw a fy llywydd, fy nghompawd a'm harlen,
Fy mhobpeth ymhobpeth o'r dechreu i'r diben;
Ymhob rhyw amgylchiad boed im', heb amheuaeth,
Gael dilyn dy addysg, a gwrando 'th athrawiaeth.

Ond d'wed im' yn gyntaf o b'le daeth marwolaeth?
Pwy roddodd i Angeu 'r fath ëang lywodraeth?
Pwy 'i gwnaeth ar holl anian yn gyfryw ormesdeyrn,
Fel y gwelir pob peth o dan ei draed heiyrn?
Holl adar y coedydd, a physgod y moroedd,
A'r holl anifeiliaid ar fil o fynyddoedd:—
Pob peth sydd ar fywyd, drwy'r byd, yn feddiannol,
Ai tyfol, ai milaidd, ai ynte rhesymmol;
O'r blodyn distadlaf, drwy 'r deyrnas lysieuaidd,
I fynu at ddyn, a'i wynebpryd angylaidd.
Pa beth a fu 'r achos o'r fath alanasdra
I hagru teg wyneb cre'digaeth Jehofah?

Esponia im' eilwaith pa ham, wedi hynny,
Y gorfydd ar Angeu roi 'i yspail i fynu,

Ac adfer pob llwchyn o sylwedd dyniadol
I dreulio ail einioes mewn buchedd dragwyddol?
Wrth weled dynolryw yn döau ar döau,
Mewn cysson olyniad, drwy'r holl genhedlaethau,
Fel dail yn yr hydref, i'r ddaear yn disgyn,
I'w gwneuthur yn un â phriddellau y dyffryn;
Neu donnau y môr ar y traeth yn ymgolli,
Er dilyn eu gilydd yn llïaws aneiri';
Pa ham yn y diwedd y gorfydd ar Angau
Adferu 'i gaffaeliaid o'i gelyd gaeth rwymau?
Rhoi i fynu 'i deyrnwialen a'i ormes frenhiniaeth,
A suddo ei hunan i lwyr drangcedigaeth?

Digwyddodd, yn oed y gre'digaeth resymmol,
Ddau gyfnod o bwys a chanlyniad anhraethol;
Pan roddwyd dynolryw mewn clorian i'w profi
Dan ddau Gynnrychiolwyr—dau Adda o'u henwi—
Y *cyntaf* o'r ddaear a wnaed yn ddaearol,
Yr *ail* ddyn yr Arglwydd o'r ne'n Dduw tragwyddol:
Y cyntaf yn Eden a luniwyd yn ddedwydd,
O berffaith gynheddfau ar ddelw 'i Greawdydd;
Ar bob cymmwysderau yn gyflawn feddiannol,
I'w fwynhâu a'i was'naethu Ef yn dragwyddol;
A'i feddwl yn oleu, a'i 'wyllys yn hywedd,
A'i wyrfaidd serchiadau yn hollol ddilygredd;
Ar lun ei Wneuthurwr, yngwisg godidowgrwydd,
Gwybodaeth, cyfiawnder, a pherffaith sancteiddrwydd;
A'i gorph fel ei enaid mewn pob rhagoroldeb,
Heb lygredd na llesgedd, nac unrhyw anhwyldeb;
Yn tynnu pob chwythad mewn awyr anfarwol,
I iraidd flodeuo mewn i'engctid tragwyddol.

Efe oedd is-lywydd y deg grëedigaeth,
Drwy 'i holl ddosparthiadau efe ydoedd bennaeth.
Darperid pob peth tuag at ei gyfreidiau
Yngwinllan Paradwys, a'i holl amrywiaethau;
Ffrwyth prennau yr ardd a roed at ei wasanaeth,
Ond un, o'r holl gyfan, waharddwyd i'w archwaeth:
Ei holl-ddoeth Greawdydd—i brofi 'i ufudd-dod,
A'i ddwyn i un pwynt—a'i gosododd dan ammod,
Mai 'r dydd y bwytäai o hono, 'r dydd hwnnw,
Efe a'i hiliogaeth gan *farw* gaent *farw*.
Y dydd hwnnw ddaeth—y gorchymmyn a dorrwyd,
Y ffrwyth gwaharddedig, och fyth! a fwytäwyd.
Fel hyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth
Drwy bechod, ar bob dyn, ymhob rhyw genhedlaeth;
Y farn o un camwedd a ddaeth i gondemniad
Ar Adda a'i hil, drwy naturiol genhedliad.
Eu prawf a âi drosodd—nid oedd iddynt mwyach
Ond disgwyl dïaledd Cyfiawnder heb eiriach,
Un wedd a'r angylion, y rhai pan bechasant,
A daflwyd i uffern o uchder gogoniant,
I'w cadw mewn rhwymau cadwynau tragwyddol,
I farn y dydd mawr, dan dywyllwch byth-nosol.

Ond pa'm yr arafodd olwynion ei gerbyd?
Pa ham y gohirir cyflawniad y ddedfryd?
Pa ham na ddilynai ar sodlau 'r troseddiad
Y gosp fygythiedig, heb gythrym o oediad?
Pa fodd yr ysgarwyd—pa ham y mae cyfwng,
Rhwng dybryd euogrwydd a'r dïal oedd deilwng?
O yspaid anhafal yn hynt y byd moesol!!
Na fu ei chyffelyb: ni fydd yn dragwyddol.

Amser tywyllwch, a phryder, a dychryn,
Ac ingol betrusder, o'i ddechreu i'w derfyn;
Fath adeg! a barodd ddistawrwydd a syndod
"Megis dros hanner awr" drwy gorau'r nef uchod:
Y Seraph a beidiodd a'i hyfryd felus-gaingc,
A'r Cerub sy'n gŵyro o'i danbaid uchel-faingc;
Engyl, Archengyl, drwy 'u holl ddisglaer rengau,
Ogwyddant â'u pwys ar eu mudion delynau,
Mewn syndod anhraethol uwch ben yr olygfa,
Mor ddïeithr a chwith yn llywodraeth Jehofah.
Holl egni 'u galluoedd llymdreiddgar a gorfflwch
A roddent ar waith i ddirnadu'r dirgelwch.
Hwy glywsent gyhoeddi y ddedfryd ddïalw
Yn ol, mai y dydd "y bwtâent y caent farw."
Hwy eisoes a gawsent un engraifft hynodol
O lymder Cyfiawnder, a'i lid annyhuddol,
Pan hyrddiwyd o ystlys gorseddfaingc y Mawredd
Fyrddiynau o engyl i ddistryw diddiwedd,
Heb d'rawiad amrentyn o gyfrwng nac oediad
Rhwng pechod a chosp, yn ei chyflawn weinyddiad.
Ond wele yn awr ddau greadur cyfrifol
Yn anfad droseddu, ac etto 'n arbedol;
Estyn gohiriad i droseddwyr mor 'sgeler!!
Oni wna Barnydd yr holl ddaear gyfiawnder?
Pa ham na fai bolltau ei lid yn ymsaethu
O'r orsedd wen danllyd ar gythrym i'w tarfu?
Pa ham na bai fŵg ei fawr angerdd i'w weled,
A brochus daranau ei sòriant i'w clywed?
Pa ham na bai 'r ddaear yn troi yn ddisgynddôr
I'w gollwng ar unwaith tu hwnt i'r gagendor?

Yno i gyd-ddioddef â'r gwrthgas angylion
A hyrddiwyd ar unwaith i'r dïwaelod eigion?
A ydyw cyfiawnder hanfodol y Duwdod
Yn d'od yn fwy rhydd a goddefol at bechod?
A yw ei sancteiddrwydd a'i gyfraith oruchel
Yn newid eu natur yn erbyn gwrthryfel?
Mae nefoedd, a daear, ac uffern yn synnu;
Paid engyl â'u cân, ac ellyllon â'u cablu!

Draw yn neheulaw yr Hwn sydd ar yr Orsedd
Mae Llyfr saith-seliedig, rhyfeddol ei nodwedd;
Ac arno y sylla cerubiaid, seraphiaid,
Archengyl, ac engyl, yn astud a dibaid;
Can's ynddo, lled-dybiant, fod yn gynnwysedig,
Rhwng Trindod yn Undod, ryw Drefn ddirgeledig;
Rhyw Ddyfais anfeidrol o ddwyfol ganfodiad,
Uwch law un creadur ei llunio na'i dirnad;
Dwfn Gyngor tragwyddol, heb uchder na dyfnder,
Na hydred na lledred i brofi 'i ehangder:
A oes neb a ddichon agoryd y seliau,
Drwy 'r nefoedd a'r ddaear a'r isel ddyfnderau?
Ond ofer i'w chwilio drwy 'r holl greëdigaeth
Am neb i gyflawni 'r fath bwysig anturiaeth.
Holl gôrau y nef, drwy eu rhengau eiryaidd,
Mewn gwewyr a hidlant eu dagrau angylaidd,
Am na cheffid rhywun yn deilwng ddïammau
I agor y Llyfr ac i ddattod ei seliau.
Pan oedd eu disgwyliad ar droi yn anobaith,
A'r olaf belydryn ar gilio byth ymaith;
Yna 'r Ail Berson yn yr ogoned Drindod
A ddywedai 'n wirfoddol, "Wele fi 'n dyfod,"

‘ Yn nechreu y Llyfr y ’sgrifenwyd am danaf ;’
Darfydded eich wylo, myfi a’i hagoraf :
Dattodaf ei seliau dïogel a chryfion,
A dygaf i’r goleu ei ddyfnion ddirgelion.
Par’towch eich telynau i dannau newyddion,
A chordiau chwanegol i’ch cyngan bereiddlon.
Ond doe datganasoch fy *Ngallu* tragwyddol
Yn crëu pob peth, a’m *Doethineb* anfeidrol,
Fy nigllon *Gyfiawnder* yn dïal euogrwydd,
Fy niball *Wirionedd*, a’m perffaith *Sancteiddrwydd*.
Yr awron cyweiriwch eich tannau newyddion,
TRUGAREDD I’R EUOG, A’R BARNWR YN GYFION.
Y Cyngor tragwyddol, a threfn fawr y cymmod
I gadw’r pechadur, tra ’n dïal ei bechod,
Yn awr a ddilennid i fodau llesmeiriol,
Gan orllwyth gorfoledd a syndod aruthrol.
Eu heuraid delynau mewn hwyl a gymmerent,
A’u tannau newyddion yn beraidd a d’rawent,
O gylch yr orsedd-faingc, yn gôr heb niferoedd,
“ Myrddiynau o fyrddiynau, miloedd o filoedd,”
Y safent, gan byngcio eu melus newydd-gân,
A’r holl ëangderau a lanwent â’u cyngan ;
O Ddyfais tu hwnt i amgyffred angylion,
TRUGAREDD I’R EUOG, A’R BARNWR YN GYFION.
Cawn etto ddynolryw â ni yn gymdeithion,
Drwy gyfryngdod y Mab fe ’n gwneir yn gyfeillion.
Cawn fod iddynt etto ’n ysprydion gwas’naethgar,
I’w gwylio a’u cadw, tra ’n byw ar y ddaear ;
A chludo ysprydoedd anwylion ein Harglwydd
I’r nefol baradwys, o gyrraedd pob aflwydd.

Ac os yw eu cyrph hwy yn farwol drwy bechod,
Ni a wyliwn eu llŵch tra 'n huno 'n y beddrod,
Nes dyfod i ben yr or'chwyliaeth gyfryngol,
Ac adferyd pob peth i'w elfen brïodol.
Pan ddelo yr amser (mor fawr ei ganlyniad)
Ar ail-brawf dynolryw i roddi terfyniad,
Ni a seiniwn yr udgorn, o'r pridd i'w dadebru,
A'u dwyn ger y frawdle oruchel i'w barnu;
Ni a gasglwn ynghŷd ei etholedigion
I'w rhoi ar ddeheulaw y Barnwr doeth cyfion;
Nyni a'u gosgorddiwn i'r nefol frenhinllys,
Fel hardd brïodasferch i'w phrïod yn weddus,
I gadw un neithior dragwyddol a hoenlon,
Gan fysgu ein hodlau â'u ceingciau pereiddlon,
Mai teilwng yw 'r Oen a fu farw, i dderbyn
Pob mawl a gogoniant i oesoedd diderfyn.
O henffych well dymmor, prysured y bore,
Y daw yr holl deulu, heb un yn ol, adre.
Hêd, amser, mor chwim ag ar edyn meddylfryd,
A gwawria, foreuddydd tragwyddol difachlud.
Felly yr eglurwyd bwriadau 'r Jehofah
I'r lluoedd angylaidd; ac hefyd i Adda,
Mewn grasol addewid a phrydlawn gyhoeddiad,
Ac ef yn ymguddio rhag ofn y canlyniad.

Fel hyn mae 'r angylion yn disgwyl a chwennych
Adgyfodiad y meirw, fel eu prif wrthddrych.
Ond pell uwch law hynny, y mae 'r Adgyfodiad
I'r Drindod fendigaid yn wrthddrych dymuniad;
Fel tymmor diweddglo 'r weinyddiaeth gyfryngol,
A diwedd prawf dyn, a'i dynghedfen dragwyddol.

I'r TAD a gynlluniai 'r gyfundrefn oruchel,
Drwy 'i holl ddosparthiadau, ai cyhoedd ai dirgel;
Y dydd hwn yw 'r cyfnod pan ddygir i'r golau
Uniondeb ei ffyrdd yn ei holl ymddygiadau;
Pan welir pob olwyn o'r peiriant arfaethol
Wedi dirwyn i fynu 'r diben bwriadol,
A chwbl gydweithio, drwy 'u holl droion dyrys,
I gyflawni ei gyngor doeth a'i ewyllys;
Pan fydd Duw oll yn oll, a'i waith yn orphennol,
Yn gorphwys i gadw un Sabboth tragwyddol.

Dydd mawr a fydd hwn i'r CYFRYNGWR bendigaid,
Y pryd y caiff weled o lafur ei enaid;
Pan ddêl yngogoniant ei Dâd, a'r angylion,
A myrddiwn o saint, ei goneddus osgorddion;
Pan wisgir ei goron gyfryngol â thlysau,
Ffrwyth gwerthfawr ei angeu, heb berlyn yn eisiau.
Hir ydyw 'r ysgariaeth sydd wedi hanfodi
Cydrhwng y Prïodfab a'i anwyl Ddyweddi;
Ei marwol weddillion, er iddo eu prynu,
A'i werthfawr waed, etto 'n y bedd sydd yn llygru;
Ac er bod ei lygad bob amser yn gwylio
Y fan gyssegredig lle maent hwy yn huno,
Ac er bod am danynt ddir rwymau'r Cyfammod,
A'u pennau 'n ddïogel yn nwylaw y Prïod;
Etto hir yw y nôs, a maith yw yr ennyd
Sy'n cadw 'r Prïodfab oddiwrth ei anwylyd.
O tyred, a brysia, fy chwaer a'm dyweddi,
O 'th drymgwsg hirnosol, mae 'n bryd it' gyfodi,
Mae 'th *enw* ar gledr fy nwylaw 'n gerfiedig,
Ac ar fy nwyfronneg mewn argraph seliedig:

Ond tyred, f'anwylyd, mae'n amser im' bellach,
Gael gweled dy *wedd*, a mwynhâu dy *gyfeillach*.
Ar ol im' dy garu â chariad tragwyddol,
A'th fod imi'n wrthddrych hyfrydwch gwastadol,
Cyn gosod sylfeini y byd a'i amgylchoedd,
Na'r haul i oleuo'n ffurfafen y nefoedd;
A hynny pan oeddit mewn cyflwr gresynol,
Yn wrthun ac aflan gan lygredd ffïeiddiol.
A ddarfu im' adael fy ngorsedd oruchaf,
A disgyn i'r ddaear, a'i pharthau iselaf;
Cymmeryd dy natur ynglŷn â'i gwendidau,
A dwyn yn fy nghorph, ar y pren, dy bechodau;
A'u bwrw i ddyfnder môr angof tragwyddol,
Drwy rinwedd fy ngwaed, a fy angeu dyhuddol;
Wedi im'esgyn ar dy ran i ogoniant,
I ddadleu dy achos, a pharotôi'th drigiant:
Pa ham, wedi'r cyfan, mae'm chwaer a'm dyweddi
I ddyfod, o'stafell ei gwely yn oedi?
O cyfod, f' anwylyd, ymdrwsia y'ngwychder
Dy wisg brïodasol, fy mherffaith gyfiawnder;
Prysured yr amser pan glywer yn gydgerdd,
Drwy'r nefoedd a'r ddaear, ein pêr brïodasgerdd.

Y dydd hwn y gorphennir y Deml Ysprydol,
Adeilad ddigymmar yr Yspryd sancteiddiol;
Pan welir pob maen yn ei le wedi'i osod,
Yn berffaith dryloyw o'r sylfaen ac uchod;
Pan gaiff y maen pennaf ei ddwyn mewn gorfoledd,
Gan waeddi "Rhâd, rhâd iddo," wele y diwedd.

Os mawr y llawenydd a nodai orpheniad
Adeilad mab Dafydd ar ŵyl ei chyssegriad;
Os doeth uwch law pawb oedd ei henwog gynllunydd,
A chywrain a chelfydd ei harchadeiladydd,
Yn dwyn ei defnyddiau diffurf i lunieidd-dra,
Y prennau o'r goedwig, a'r cerrig o'r gloddfa,
Gan wneud yn wych-lyfnion eu ceingciau ysgythrog,
A llwyr wastadhâu eu holl wrymiau clogyrnog,
A'u gwneud mor gyfaddas, drwy ddidor faith orchwyl,
I'w lle, fel na chlywid sŵn bwyell na morthwyl;
Os hyfryd i'r rhai'n ydoedd gwel'd yr olygfa,
Ar ŵyl y cyssegriad ar Fynydd Morïah,
Wrth ganfod eu gwaith, dros gynnifer o flwyddi,
A llwyddiant diball wedi cael ei goroni;
Pa faint fydd hyfrydwch yr Yspryd tragwyddol
Wrth weled perffeithiad ei Sïon ysprydol,
Yn eglwys heb arni frycheuyn na chrychni,
Mor ddisglaer a'r haul yn ei nawn-ddydd oleuni?

O Yspryd sancteiddiol, anfeidrol dy ddoniau,
Yn dwyn y fath waith o'r fath afrwydd ddefnyddiau!
Yn gwneud y fath orwych adeilad ysprydol
O halawg adfeilion y codwm dinystriol!
Pa le caed y fraich ddigon hir i gyrhaeddyd
I eigion dyfnderoedd y gloddfa ddychrynllyd;
A dwyn o'i gwaelodion echryslon i fynu
Ei geirwon ddefnyddiau i'w trin ac i'w naddu,
A'u hollol gymhwyso, drwy bob goruchwyliaeth
Fel meini teleidion i'r deg adeiladaeth?

Fel hyn y perffeithir y Deml fawreddus,
Saernïaeth ddigymmar yr Ysbryd diddanus;
Mawr ddydd ei chyssegriad—yn berffaith ddilysiant—
Yr amser y gwelir Ef yn ei ogoniant.
Ni ddiffydd ei thân cyssegredig yn rhagor,
Ni losgir tân dïeithr byth ar ei hallor;
Byth mwy ni ymedy 'r gogoniant o'i chanol,
Na'i disglaer Secinah o'i le yn dragwyddol.
Byth mwy ni yspeilir yr un o'i holl ddodrefn,
Ni ddaw yr un gelyn i'w bwrw i anhrefn;
Ni rwystrir byth mwy ei hunfrydol addoliad
Drwy unrhyw ymbleidiaeth, na rhwyg, nac ymraniad.
Byth mwyach ni sengir ei phurlan gynteddau
Gan rith o addolwyr, a'u ffïaidd aberthau;
Ni lygrir, ond hynny, ei hawyr dymherus
Ag arogl-darth atgas un offrwm anafus;
Ni cheir yr un ffôl mwy ymhlith ei morwynion,
Ni welir un bradwr ymysg ei disgyblion,
Nac un heb y wisg o'r holl wahoddedigion:
Yr un o'r preswylwyr ni ddywed "Claf ydwyf;"
Pob un a lanhâwyd oddiwrth ei wahan-glwyf.
Er dyfned y dolur—er gwaethed ei effaith,
Fe 'i golchwyd, fe 'i purwyd, iachäwyd e 'n berffaith.
'Nol tynnu y babell ddaearol yn yfflon,
Heb garreg ar garreg ymhlith ei hadfeilion,
A'i rhoi yn y bedd i'w chyffeithio am ennyd,
Hi ail-adeiladwyd yn lân ddifrycheulyd;
Yn gymmwys anneddle i'r enaid anfarwol,
Mewn didor gyfundeb a gwynfyd tragwyddol.

Fel y crybwyllwyd, mae'r angylion yn disgwyl
Yn ddyfalbarhâus am ddyfodiad yr egwyl
Y'u herchir i fwrw 'u crymanau trylachar
I mewn, can's addfedodd cynhauaf y ddaear ;
Pan welir hwy 'n disgyn o entrych yr awyr
Yn rhengau disgleirwych o danllyd fedelwyr,
I gasglu y gwenith i'r nefol ysgubor,
Fel ysgafn o ŷd pan addfedo i'w thymmor.
Mor fwyn a soniarus eu hanthem gynhauaf,
Wrth ddwyn tuag adref yr ysgub ddiweddaf.
Os peraidd oedd cydgan y côr annifeiri
'N ol gwylio 'r gre'digaeth naturiol yn codi
O dryblith cruglwythawg a dudew dywyllwch,
I berffaith lunieidd-dra a mirain brydferthwch,
Ar foreu y Sabboth, 'r ol gwaith y chwe diwrnod,
Pan welsant ei chonglfaen prif wedi 'i osod ;
Mwy filoedd o weithiau a fydd eu crechweniaeth
Wrth ganfod gorpheniad yr ail grëedigaeth.
O'r blaen hwy a welsent effeithiau 'r gair BYDDED
Yn creu ac yn trefnu gwrthddrychau afrifed,
O frenin y dydd, yn ei danbaid fawrhydi,
I lawr i'r abwydyn distadla 'n bodoli ;
A'r Iôn o'i orseddle, drwy 'i hollalluowgrwydd,
Yn dwyn yr holl gread i fod a llunieiddrwydd,
A galw ar unwaith fil miliwn o fydoedd
I'w rhodau prïodol, drwy 'r maith ëangderoedd.
Ond pan yr arfaethodd gyfodi 'r ail Gread,
O'i herch alanastra a'i dybryd chwilfriwiad,
Ni thŷciai ei air, er ei hollalluowgrwydd,
I ddwyn ei hadfeilion i drefn ac addasrwydd ;

Rhaid i'r Creawdydd gael ei wneud yn greadur,
Y Duw Hollalluog yn faban o'n natur,
I Arglwydd arglwyddi, a Brenin brenhinoedd
Dd'od yn wâs aĉ yn ddeiliad distadlaf o'r bobloedd;
A chwysu a gwaedu a marw ar groesbren,
Er d'od a'r grëedigaeth newydd i ddiben.
Mor felus gan hynny a fydd eu peroriaeth
Ar ddydd-gwyl gorpheniad y fath adeiladaeth!

Os hyfryd un boreu Nadolig eu carol
Uwch meusydd Judea, ger Beth'lem urddasol,
Yn llawen groesawu eu Harglwydd Fessïah
I fyd mor anhynaws na ro'i iddo westfa,
Ac eilwaith pan welsant hwy Ef yn cyfodi
O randir marwolaeth, mewn nerth a mawrhydi,
Mewn llawn fuddugoliaeth a goruwch awdurdod,
Heb naws llygredigaeth na sawyr y beddrod.
Os bywiog a gwresog fu eilchwyl eu hoenllef
Pan ddâent i osgorddio eu Hiôr yn ol adref,
Mal tanbaid gerbydau, yn ugain o filoedd,
I'w rwysgfawr gyflym-ddwyn drwy 'r maith ëangderoedd,
Gan ddolefain O byrth, eich pennau dyrchefwch,
O ddrysau tragwyddol, yn awr ymagorwch;
Mae Brenin gogoniant yn ol yn dychwelyd,
Ac yspail ei goncwest yn rhwym wrth ei gerbyd:
Mil mwy fydd eu moliant tra heddyw 'n gosgorddi
Eu Hiôr pan yn d'od mewn brenhinol fawrhydi
I gyrchu ei chwaer a'i ddyweddi o'r beddrod,
Fel hardd brïodasferch yn gymmwys i'w Phrïod.
Yr holl ëangderau a lenwir â'u banllef,
Wrth wel'd y Brïodferch yn d'od tuag adref.

Mawr ddiwrnod fydd hwn i ysprydoedd y cyfion,
Y dydd y'u hail unir â'u hen gydymdeithion;
Yr Jubili fawr, pan adferir y gwystlon
Yn ol i lwyr feddiant eu cyn-berchenogion,
O ddygn gaethiwed hiroesol y gweryd,
A chaled wasanaeth ei unben gormeslyd.
Os peraidd a melus yn awr ydyw anthem
Y côr gwynfydedig, ar fryniau Caersalem;
Os mwyn a pher-leisiol eu destlus alawon,
Ac uchel a seingar eu ceingciau hyfrydlon;
Maent etto 'n ymddifaid o'u cyflawn ragorion,
O ddiffyg cydgyngan eu marwol gymdeithion—
Y rhai sydd yn huno ar led ac ar wasgar,
I'w holl haleliwiau yn fud ac yn fyddar—
Nid ydyw ond unllais eu hodlau hwy etto,
Nes gwelir y boreu difachlud yn gwawrio
Pan unir y ddwyblaid yn gydgôr mwyneiddlan,
Ac enaid a chorph yn cyflenwi y gyngan.—
Mae'r yspryd yngwynfa yn cofio 'r ysgariaeth
Yn neifr yr Iorddonen, a'r ymdrech a'r alaeth,
A'r gloesau wrth dorri cylymmau mor gelyd,
A gado 'i gydymmaith yn aberth i'r gweryd.
Gan hynny mor bêr fydd yr udgorn yn seinio
Drwy 'r nefol gynteddau a thywyll byrth ango',
I wysio 'r ddau gyfaill i ail ymgyfarfod,
Er mwyn eu cyssylltu mewn cwlwm annattod.
Wele yr eneidiau gogonawl yn disgyn,
Yn llu gorfoleddus, mewn atteb i'r dyfyn,
A rhandir marwolaeth sy'n fyw, drwy 'i holl gaerydd,
Gan lwchyn at lwchyn yn d'od at eu gilydd

I ffurfio 'r hen bebyll, oedd gynneu o'r priddyn,
Yn gyrph gogoneddus a chymmwys i'w derbyn.
Ond pwy a all ddirnad yr 'Henffych well weithion,'
A fydd pan gyferfydd y fath hen gymdeithion?
Mae 'r engyl yn uno yn eu prïodas-gân,
A'r Barnwr yn gwenu wrth glywed eu cyngan.

O DDWYFOL ATHRAWIAETH! mawr yw dy ddylanwad
Ar chwyl y byd moesol, drwy ystod ei brofiad,*
Fel nawdd a chefnogrwydd duwioldeb a rhinwedd,
A fflangell 'scorpionawg pob twyll ac anwiredd;
Fel colofn yn ysgar dwy blaid elyniaethol,
I'r naill yn oleuni—i'r llall yn niwl nosol.
Tydi sy'n pereiddio holl chwerwon gostrelau
Y duwiol trallodus, o dan ei holl groesau:
A thi sydd yn chwerwi melusion gwpanau
Yr anwir trachwantus, a'i hoffaf fwynderau;
Y pennaf annogydd i ddirgel rinweddau,
A'r prif wrthwynebydd i dywyll bechodau:
Yr hwn sydd yn cyfarch pob un yn bersonol
Mewn geiriau gwirionedd a sobrwydd difrifol,
'Ai da ynte drwg, yn ol dy ryglyddon,
'Fe delir i ti 'n adgyfodiad y cyfion,
'Yr amser y daw dy weithredoedd dirgelaf,
'Yngŵydd y tair teyrnas, i'r goleu amlyccaf;
'Y rhai a wnant dda a gyfodir i fywyd,
'A'r rhai a wnant ddrwg i farn a choll-ddedfryd.'
ADGYFODIAD Y MEIRW yw'r pennaf wrthbwysydd
I ochri 'r ewyllys at rinwedd a chrefydd,

* Probation.

Ynghlorian rhyddweithiol ystâd y prawf dynol,
Lle ceir gwobr a chosp yn llywio y fantol;
Efe ydyw hefyd y pennaf gefnogaeth
I bara yn sicr, dïymmod, a helaeth,
Yngwaith yr Arglwydd, a hynny bob amser,
Gan wybod am hyn nad â 'n llafur yn ofer.
Pa destun ond hwn ysprydolai ardderchog
Lu y Merthyri i barhâu yn ddïysgog
Yngwyneb dirboenau eu creulawn erlidwyr,
Rhaglawiaid pyrth uffern, a'i gwaedlyd gynghreirwyr?
Dyma eu hangor i'w cadw hwy yn ffyddlon
I'r ffydd broffesedig, mewn môr o drallodion;
Eu nefol gydymmaith pan fyddent yn crwydro
Ar hyd y mynyddoedd, heb letty yn eiddo
Ond gwyll ogofëydd a thyllau anhelaid,
Heb wisgoedd yn amgen na chrwyn anifeiliaid.
Efe a geid yno 'n cyweirio eu gwely
I'w wneud mor gyssurus ac esmwyth a'r mân-blu;
A'i falm hûn-weinyddol yn selio 'u hamrantau
Mewn cwsg mil melusach na'r teyrn, er ei foethau;
Mewn gobaith dïogel o *well Adgyfodiad*,
Hwy gadwent y ffydd yn sefydlog a diwad.
Hyn a gyfnerthodd y gwronaidd Apostol
I ymladd â llewod yn Ephesus freiniol,
A dioddef ei 'speilio o'i eiddo yn llawen,
Gan wybod fod iddo drysorau mil amgen;
Er gwaethaf fflangellau, a rhwymau, a charchar
Y llif, a'r ddirdynfa, y cleddyf, a'r gwatwar,
A'r cywrain boenydiau, rhy faith i'w dynodi,
A luniai pyrth uffern er mwyn eu hysgogi,

Hwy gollent eu heffaith drwy rym dylanwadol
Eu ffydd orfoleddus mewn bywyd dyfodol.
Er llosgi eu pabell ddaearol yn ulw,
Ac i'r pedwar chwarter wasgaru eu lludw,
Hwy gredent, er hyn, y caent etto 'u hadferyd
Ar ddelw eu Harglwydd i berffaith ddedwyddyd.
Symmudai hyn ddychryn y 'stangc a'r ffagodau,
Y dirmyg, a'r ammarch, a phoethder y fflammau.
Fel hyn yr aeth llu o'n merthyri Prydeinaidd
Drwy bair erledigaeth, yn eofn a llewaidd,
Dan rymmus ddylanwad athrawiaeth fy nhestun
Fe 'u gwnaethpwyd yn gedyrn yngwyneb pob gelyn;
Y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt,
Rhy dda i'w awyrgylch lygredig oll oeddynt.
Ein *Cranmer*, a'n *Ridley*, a'n *Latimer* enwog,
Ac eraill llai 'u nôd, ond yr un mor ddïysgog;
Y rhai a feiddiasant holl lid eu gelynion,
Gan hyderu yn Nuw—a'u Duw oedd eu digon.

Pa beth a annogodd ein henwog Genhadon
I fyn'd drwy ofidiau, yn ail i'n Merthyron;
A gadael eu gwlad enedigol a'u preswyl,
Ac oll ar y ddaear oedd iddynt yn anwyl;
Troi cefn ar eu ceraint a'u brodyr cyfeillgar
Na welent, fe allai, byth mwy ar y ddaear;
Ymwadu yn llawen â dirif gyssuron,
A maith ragoriaethau a breintiau tir Albion;
Ac heb wneuthur cyfrif o'u heinioes eu hunain;
Eu haidd at eneidiau yn llyngcu y cyfain.
Heb udgyrn o'u blaen i gyhoeddi 'u mynediad,
Chwyfiad bannerau, na chyflegrau na 'u rhuad;

Wynebent erwindeb yr eigion twyllodrus
Yn llwyr benderfynol—boed wenawl boed wgus;
A'u bryd yn sefydlog ar eraill hinsoddau,
A maes eu llafurwaith dan eraill haul-rodau.
Fe allai mai hwnt tua Gwerddon Ogleddol
Mae gogwydd eu taith a'u Cenhadaeth ryfeddol,
I draethu am Geidwad i gòriaid ei hinsawdd,
A phlannu ei fanner ymhlith ei hiâ didawdd,
A'i chwyfio mor uchel trwy 'i pharthau anhygyrch,
Nes gwrido ei heira â'i rhuddgoch adlewyrch.
Can 's yr un yn eu cyfrif hwy yw eneidiau
Paganiaid corrynnaidd y rhewllyd begynau
A meibion hywaithol Ewropia ddysgedig,
Er maint eu hurdduniant a'u moesau coethedig.
Ond pwy a'u cyfnerthodd i godi 'r fath groesau,
A threulio ac ymdreulio gyhŷd o flynyddau,
A dioddef difadrwydd, yn rhydd a gwirfoddol,
A diffyg ac eisieu cyssuron afrifol?
Pa beth a gynhesai eu tywyll oer gellau?
Pa beth a siriolai eu hirion nosweithiau?
Pa beth a felusai eu seigiau cartrefaidd?
A dröai yn foethau eu diwyg anwaraidd?
Ond beth uwch law dim a'u gwnai yn "ddïymmod,"
Ac yn ddyfalbarhâus yngwyneb eu trallod
O weled eu gwaith—dros gynnifer o flwyddi—
A lleied o lwyddiant yn cael ei goroni;
A rhai o'u cydfrodyr yn troi yn fradychlyd,
A rhif o'u disgyblion yn ol yn dychwelyd?
Athrawiaeth fy nhestun oedd colofn eu cryfder,
A'u pennaf gynhalydd yngwyneb pob pryder,

Drwy'u cyfarch, Os didal eich llafur yr awron,
Fe delir i chwi 'n Adgyfodiad y cyfion.
Neu hwyrach i Affrig a'i thywod creisionboeth,
Mae'r llong yn cyfeirio i lànio ei chyfoeth
Mwy gwerthfawr a drudfawr na pherlau yr India,
Neu euraid wythienni holl fro Califfornia :
Gwyllt Affrig ! lle y clywir brenin y goedwig
Yn rhuo drwy'r anial, lle'r rhodia 'n fawreddig;
A rhôch y dywalgi tra ar ei ysglyfaeth
Y rhuthra o'i guddfan ynghanol y diffaeth ;
Lle ceir duon feib Ham, nid llawer o raddau
Uwch law 'r pedwarcarnol mewn hywedd dymherau ;
Ac etto, er hyn, âg eneidiau anfarwol,
Fel wedi eu claddu mewn beddau symmudol.
I blith yr anwariaid—er maint y peryglon—
Yn wrol a hyf yr anturiai 'n Cenhadon,
Heb eirf i'w hymddiffyn, ond cleddyf yr Yspryd,
Heb goncwest i'w gwneuthur ond dwyn iddynt fywyd.
Dan dwymboeth belydrau unionsyth yr hinon,
Drwy faith anialdiroedd llosgedig a chrinion,
Heb unrhyw orweddfa ond gwely 'r dywarchen,
Heb len i'w gorchuddio ond gortho 'r ffurfafen,
Yr uchel gyhoeddent eu pwysig genhadaeth,
Ynghanol peryglon o ddirif amrywiaeth ;
Heb ddisgwyl ad-daliad tu yma i'r beddrod,
Ond pob ymddifadrwydd a chroesau i'w gorfod ;
Na chael ar y ddaear un gwobr o'u llafur,
Na defnyn o gyssur o ffynnon hesp natur.
Ond pell uwch terfynau a chyfyng gylch amser
Y ceir hwy yn edrych am obaith eu hyder ;

Y lle y maent eisoes trwy ffydd yn sylweddu
Eu durfing lafurwaith yn cael ei ad-dalu ;
Drwy wel'd yn cyfodi ymysg y cyfiawnion
Dduon feib Affrig, wedi 'u cannu yn wynion,
A'u gynau yngwaed yr Oen wedi eu golchi,
Yn dorf orfoleddus o'r bedd yn cyfodi ;
Fel ffrwyth gogoneddus eu llafur diddiwedd,
Mwy gwerthfawr na theyrnas, na choron, na gorsedd.
Am hyn byddwch sicr, dïymmod, helaethion,
Fe delir i chwi 'n Adgyfodiad y cyfion.

Ond hwyrach mai 'mhell tu a Môr mawr y Deau,
A'i heulawg ynysoedd, y lledant eu hwyliau,
I dirio ar lannau Barbariaid echryslon,
Na rusant loddesta ar gnawd eu cyd-ddynion,
Ac yfed gwaed dynol â gorwangc ysgethin,
Fel glŵth o aur-gawg yn mwynhâu ei felus-win ;
Heb wybod nad gwobr eu zêl yn y diwedd
A fyddai cael d'od yn ysglyfaeth i'w dannedd.
Er hyn hwy anturient i blith yr anwariaid,
Fel ŵyn dïymddiffyn at heidiau o fleiddiaid,
Gan hyderu ar Dduw am lwydd eu Cenhadaeth,
A gado 'r canlyniad i'w ddoethaf ragluniaeth.

Fel hyn drwy amgylchoedd holl gyrrau y ddaear
Yr eofn anturient yn fyddin ymroddgar,
I ymladd rhyfeloedd Immanuel Iesu,
Nes delo drwy 'r byd i heddychol deyrnasu.
O enwog wroniaid ! mwy teilwng o Farmor
A naddawg golofnau i restru 'ch anhepgor

Wasanaeth, a llafur i Iesu 'ch cyd-ddynion,
Na phrif arluyddwyr y byd a'i d'wysogion.
Pan fo'r udgorn diweddaf wedi distrywio
Holl gedyrn golofnau y rhai'n, a'u chwilfriwio,
Efe a gyfyd i chwi golofnau mwy durol,
I restru 'ch gorchestion mewn argraph anhreuliol,
Na wisgir gan amser, gan rŵd byth ni lygrir,
I oesoedd diddiwedd gan ddim nis dymchwelir :
Ffrwyth gwerthfawr eich llafur o'r Gogledd a'r Deau,
Gorllewin a Dwyrain, a fydd eich cofnodau,
Hardd berlau eich coron, â'r hon wedi 'ch gwisgo
Y byddwch fel y sêr dros byth yn disgleirio.
Mor eirian yn awr fydd enwogion ein daear,
Pan wisger eu talaith â meini mor lachar,
Sef ein *Martin*, a'n *Schwartz*, a'n *Vanderkemp* danbaid,
Ein *Marsden*, a'n *Williams*, a dewr-llu 'n *Morafiaid!*
Band da iawn y gwnaethoch, O weis da a ffyddlon,
Yn rhâd ac am ddim y bu 'ch celyd ymdrechion,
Ond etto mae i'ch aros deyrnas a choron
A delir i chwi 'n Adgyfodiad y cyfion.

Ond pa fodd, medd un, y cyfodir y meirw?
A'r corph a gyfodir—pa ryw a fydd hwnnw?
A ddichon y pethau hyn fod, medd amheuaeth ;
Ni ddichon byth fod, ni fydd, medd annuwiaeth ;
Mae'n hollol wrthwyneb i reswm a phrofiad,
Ac yn llwyr anghytûn a phob ymddanghosiad :
Mae'n bryd, medd y didduw, rhoi heibio 'r fath eudeb,
Pan bron mae pob angladd yn profi 'i ffolineb.
A allwn ni edrych i safn rŵth y gweryd,
A gwel'd ei ddinystriol effeithiau dychrynllyd,

A chanfod gresynol weddillion dynoliant
Ar led ac ar wasgar mewn pydredd a diflant,
A chredu cânt etto eu dwyn at eu gilydd,
A'u llwyr adgyweirio 'n adeilad o'r newydd?
Pa mor geuol yw 'r cawg! mor hyll ac anhygar!
Oedd gynnau yn cynnwys y peiriant meddylgar!
Mor dywyll a hagr yn awr yw y tyllau
Lle ddoe 'r oedd y llygaid siriolwych yn chwarau!
Pa le mae y genau oedd gynnau 'n llefaru,
Ac ar ei gyfeillion serchoglan yn gwenu?
Mae wedi ymollwng i'w wneud yn gydsylwedd
A'r briddell oer fud yn yr hon y mae 'n gorwedd.
Y breichiau oedd nerthol a grymmus mewn gweithred,
O mor alaethus yn awr y maent i'w gweled,
Yn esgyrn sychgrinion a hanner pydredig,
Yn noethion heb ronyn o'u cnawd-wisg gyntefig!
Pa le mae 'n bresennol y firain adeilad
Oedd gynnau mor brydferth a gwych ei hedrychiad,
Yn filmyrdd mwy cywrain ei rhyfedd saernïaeth
Nag un gwaith celfyddyd drwy'r holl grëedigaeth?
Mae wedi dadmeru i'w helfen gynhwynol,
O'r pridd y'i cymmerwyd, i'r pridd âi 'n naturiol.

Ond pwy ar y cyntaf o'r pridd ddarfu 'i ffurfio,
Ai oni all Hwnnw o'r pridd mo'i hail lunio?
A oedd yr un* gyntaf o briddyn gwahanol,
Neu haws ei chyflunio na'r adail bresennol?
A oedd ei helfennau 'n wahanol eu defnydd,
Neu ynte 'n barottach at law 'r adeiladydd?

* Adda.

A oedd rhywbeth amgen na hollalluowgrwydd
A luniai 'r un gyntaf mor lawn o gywreinrwydd?
Ac oni ddichona 'r un gallu anfeidrol
*Adferyd* yr adail o'i chyflwr adfeiliol?
Pan wnai y goleuni a'i ryfedd gyflymdra,
A'r elfen felltennol, na ŵyr oddiwrth belldra,
A roddodd hyn derfyn i'w rym crëedigol,
A lwyr ddïyspyddodd ei allu cynhyrchiol,
Fel na all ddwyn allan o'i drysor dirgelaidd
Elfennau mwy purol, teneulym, a theraidd?
Pwy all osod terfyn, a dywedyd Hyd yma
Y cyrraedd dy allu, ac yma dibenna?
Pwy byth a all dd'wedyd, Hyd yma y deui
I buro defnyddiau naturiol a'u coethi?
A elli di dd'wedyd, O athraw annuwiaeth,
O b'le ar y cyntaf y dai 'r grëedigaeth?
Pa ham a pha fodd y dai'r haul i hanfodi?
Pwy luniodd y lloer a holl sêr y goleuni?
A pha un sydd hawsaf ai *creu, o ddim defnydd,*
Ai *llunio* defnyddiau crëedig *o newydd?*
Pa un ai dwyn sylwedd i fod o ddiddymrwydd,
Ai ynte 'i wneud eilwaith yn ddrych o gywreinrwydd?
Pa un sydd fwy hynod—rhesymmol yw gofyn—
Ai *creu* y lamp dynol, ai ynte 'i *ail-ennyn?*

Ac onid oes gennym ni eisoes yn Natur
O'r prif Adgyfodiad gynlluniau tra eglur,
Yr hon sydd yn rhoddi aneirif enghreifftiau
O hafal adferiad i fywyd o angau?

Wrth wel'd galanastra y gauaf dinystriol
Drwy anian dyfadwy, a'i oerder hirnosol,
Yn fferru cylch-rediad ei hîr-nôdd i fynu,
Nes dwyn ei holl lysiau i'r ddaear i lygru.
Pa le mae yn awr y planhigion oedd gynnau
Mor uchel eu coryn, ac iachus eu gruddiau,
Yn gŵyro mor delaid o dan yr awelon
Oedd drwyddynt yn sïo eu peraidd ganeuon ?
Pa le mae y llysiau ond doe oedd i'w gweled
Drwy 'n gerddi a'n meusydd yn lluoedd afrifed,
A'u gwisg mor amryliw, a'u ffurf mor ledneisiol,
A'u hyfryd arogledd mor bêr ac adfywiol ?
Pa le mae y blodau oedd gynnau mor siriol,
Yn britho holl anian o fynydd i faenol ?
Lle cyrchai 'r wenynen i brysur gusanu
Eu bochau ireiddlawn gan fêl yn diferu ;
Lle ceid yr anianydd, o flagur i flagur,
Yn olrhain i gywrain a rhyfedd waith natur.
Pa le mae y dail mor wyrddleision oedd gynnau
I'w gwel'd ar y coedydd mor fywiog yn chwarau,
Yn heinif ddiflino, heb funud o seibiant,
Fal mintai ddifyrlon o amgylch eu rhïant ;
A'r rhai yn eu blodau fu 'n britho 'n perllennydd,
Yn llawn addewidion i 'r diwyd winllannydd ?
Ond O mor wahanol yn awr yw 'r olygfa !
Y fath gyfnewidiad a barodd y Gaua' !
Yn awr pa mor dywyll, a noethlwm, ac oerllyd,
Yw 'r deyrnas lysieuol, heb argoel o fywyd :
Y blodau a'r llysiau er's talm a syrthiasant,
I gymmysgu â'r pridd o'r hwn y tarddasant ;

Y dail a ysgarwyd oddiwrth eu hoff rïant,
Mae 'n awr yn ymddifad, heb un o'r holl hiliant;
Fe welodd eu claddu i gyd yr un tymmor,
Mewn prysur olyniaeth drwy dynged anhepgor!
Ac os ym i farnu wrth olwg y llygad,
Mae 'n rhaid i ni ddyfod i'r un penderfyniad,
Bod oes y byd tyfol mor lwyr anadferol
Ag ydyw ail einioes y grëad resymmol,
Heb obaith o'r naill mwy na'r llall yn dragwyddol.

Ond os ydyw anian, yn awr yn ei gweryd,
Yn gynllun o'r corph,—dros ei dymmor gauaflyd;
Felly y bydd etto ei rhyfedd *adfywiad*,
Pan gyfyd yngwychder ei newydd ymdrwsiad:
Fe ddettry y rhôd, a daw eilwaith â gwanwyn,
Fe welir yr haul yn yr entrych yn esgyn;
Daw etto y durtur drwy 'r bröydd i seinio,
A'r noethion goedwigoedd mewn gwyrdd i ymwisgo:
Daw 'r dolydd a'r meusydd i fwrw eu llysiau,
A'r gerddi dewisol eu dillyn rosynnau;
Ac anian, oedd gynnau mor noethlom a diffaeth,
A welir yn awr yn llawn bywyd ac afiaeth,
Fel pe wedi 'i rhoddi i fod yn rhag-gynllun
O sicrwydd a gwiredd athrawiaeth fy nhestun

I'r byd anifeilaidd os awn o'r un tyfol,
Nyni a gawn yno enghreifftiau hynodol
O allu y Duwdod a'i faith ryfeddodau,
Yn rhoddi ailfywyd rhagorach o angau.

Pwy byth a feddyliai wrth wel'd y cynrhonyn
Hyd lawr yn ymlusgo 'n afluniaidd a gwrthun,
Yn drychfil anghynnes a llwyr annymunol,
Mor wangcus ei awydd, a'i raib mor ddifäol?
A phwy wedi hyn a'i gwelai, yn enwedig
Ar ol ei ddarostwng i'r crwybryn anelwig,
Fel un yn gladdedig, ar ol ei fyroesiad,
Mewn arch ac mewn amdo o'i hunan-wneuthuriad,
Er cadw ei lŵch yn ddïogel a chryno
Rhag myned ar wasgar nes cyflawn edwino?
Pwy, meddaf, a dybiai wedi yr holl gyfan
Mai o'r arch ddirmygedig hon y daw allan
Y Glöyn disgleirwych, nid mwy i ymlusgo
Yn ffïaidd gynrhonyn a'i dreiglad afrosgo,
Ond i chwareu ei edyn telaid a gwychion,
Yn ol ei ewyllys, yn awyr iach hinon?
Neu drwy'r byd llysieuog, mewn nwyfiant a hoywder,
I gyfarch pob blodyn a phrofi 'i felusder,
Mewn dull o fodoli mor gwbl wahanol
I'r ddau yn y rhai yr hanfodai 'n flaenorol:
Ag a fydd y cyrph dynol, wedi y cyfodynt,
I'r ddwy-ffurf o'r blaen yn y rhai yr hanfodynt.
A elli di dd'wedyd, ddysgawdwr anffyddiaeth,
Pa le y ceir rheswm mor gryf ei ddirnadaeth
A allai ddarganfod holl hynt y cynrhonyn
O'r hagr-wedd ymlusgiad i'r aden-fraith löyn
Pa le mae 'r anianydd—drwy rym ei gyffredion—
A ddichon wneud allan y cyfryw ddirgelion?
Ac os na all gyrraedd, drwy rym ei synhwyrau,
Y naill mwy na 'r llall, pa 'm y dylai ef ammau

Gwirionedd athrawiaeth fawreddus fy nhestun
Gan gymmaint rhagorach y dyn na thrychfilyn?
Ond aros ychydig, ti awdwr annuwiaeth,
Yr hyn ni wnai rheswm na dynol athrawiaeth
A ddysgir i ti, drwy chwerw a drud *brofiad*,
Y dydd y cei weled y bydd Adgyfodiad.

Ond awn o lyfr natur i'r Llyfr Datguddiedig,
Lle y perffaith eglurwyd y ddysg fendigedig,
Y lle y'i hamlygir tu hwnt i amheuaeth,
Drwy rif o enghreifftiau a mynych dystiolaeth,
Y rhai ynt fath lïaws na raid eu dyrifo
I'r hwn ar ddwyfoldeb eu haddysg sy 'n pwyso;
A'u hargraph mor amlwg ar wyneb pob dalen,
Fel y dichon yr hwn a redo eu darllen.
Ond Crist a gyfododd mewn nerth a gogoniant,
Ac a wnaed yn flaenffrwyth y rhai a hunasant.
Os casglwyd yr ysgub i'r nefol ysgubor,
Fe ddaw y cynhauaf i gyd yn ei dymmor;
Os cyfododd y Pen o garchar caeth angeu,
Fe gyfyd pob aelod heb ewin yn eisieu.
O henffych well foreu y trydydd dïwrnod,
Trwy oesoedd tragwyddol y cofir y cyfnod,
Pan gyfodai 'r Meichiai, mewn rhwysg ac awdurdod,
Yn fuddugoliaethus ar angeu a'r beddrod,
A holl agoriadau eu dorau echrydus
A ddygodd fel yspail o amgylch ei wregys,
I'w cau neu eu hagor yn ol ei ewyllys.
Mor dywyll ddigyssur y "tridiau a'r teirnos"
Y bu dan lywodraeth marwolaeth yn aros!

Mor dywyll nes llenwi 'i anwylaf ddisgyblion,
Drwy ystod y cyfwng, âg ofn ac amheuon;
A llengoedd Gehenna yn ffyrnig grechwenu
Wrth feddwl eu bod wedi buddugoliaethu
Drwy gael yr ail Adda i lawr fel y cyntaf,
A rhwystro bwriadau y Drindod raslonaf.
Peth rhyfedd oedd gweled yr haul yn cyfodi.
Un wedd ag arferol, holl anian i'w llonni,
Fel disglaer brïodfab o'i 'stafell yn dyfod
I wel'd ei Greawdydd ym meddiant y beddrod!
Mae Angeu yn gwylio, heb hun i'w amrantau,
Rhag colli ei yspail o'i fferllyd grafangau;
A mawr yr ymffrostia gael dan ei lywodraeth
Yr Un oedd i'w lyngcu ef mewn buddugoliaeth.
Mae 'n sicrhâu 'r carchar â dorau cadarnach,
A bolltau chwanegol, i'w gwneud yn saith sicrach;
A dyfal y gwyliai 'r gormesdeyrn esgyrniog
Rhag dïangc o'i feddiant ei gaethglud galluog;
Fel cadarn gryf-arfog yn cadw ei neuadd,
A phob peth hyd yma yn dawel ddïwrthladd.
Er mwyn ei gyfnerthu, rhoir ceidwaid i wylio,
A maen mawr ar y drŵs, a hwn wedi 'i selio;
Pob dyfais a lunir gan ddaear ac uffern
I gadw 'r Carcharor ym meddiant y gethern.
Ond dirwyn mae 'r amser, a nesu mae 'r oriau
I brofi ai cywir yw y rhagddywediadau,
A'r mynych grybwyllion am drydydd boreuddydd,
Pan gyfodai o'r bedd yn Fuddugoliaethydd.
A mawr oedd y pryder, drwy ystod yr oediad,
Gan gyfaill a gelyn i wel'd y canlyniad;

A llawer dyfalach mae 'r gwylwyr yn gwarchod
Yn ol mae dynesiant yr adeg yn dyfod;
A diball y gwyliant derfyngylch y dwyrain
I weled arwyddion o'r wawr yn ei darwain;
Tra mae y Disgyblion mewn gobaith hyderus,
Mae gallu 'r tywyllwch mewn crynfa arswydus;
A hynod mor ddyfal y clust-ymwrandawant
I edrych, drwy eithaf y carchar, a glywant
Un argoel o sŵn, fel rhagarwydd o fywyd,
I'r caethglud galluog yn cael ei adferyd;
Ond tra maent hwy 'n edrych am wawr yn cyfodi,
Eu llygaid a ddellir gan arall oleuni;
Rhyw danllyd Genhadwr, a'i wyneb fel mellten,
A'i wisg mor goneddus, na 'r eira 'n fwy claerwen;
Mewn rhwysg awdurdodol o'r nef sydd yn disgyn
I dreiglo y maen ac i darfu pob gelyn,
Er hyrwyddo y ffordd ddisathr, anhygyrch,
O garchar caeth angeu a'i deyrnas ddigynnyrch.
A phan ddaeth yr awr, ïe 'r munud pennodol,
A ddoded i lawr yn y cyngor tragwyddol,
Mor ofer y gwylio, y gwarchod, a'r pryder,
Ac ystryw a dichell gelynion a'u cryfder,
Cadernid y carchar, a'i geidwad dychrynllyd,
Ei ddorau a'i glôiau, a'i breiffion fyllt rhydlyd;
A'r cyfan yn ddirym, nis gallant ymgynnal,
MAB DUW yw'r Carcharor, pwy ddichon ei attal?
Mae 'n dod yn fuddugol o Edom a Bosrah,
A gyddfau 'i elynion yn wasarn i'w sathrfa,
Gan ymdaith yn amlder ei rym anherfynol,
Fel Pencynnrychiolydd y deyrnas Gyfryngol;

I drefnu 'i hachosion, drwy dymp ei gweinyddiad,
A'i dwyn yn y diwedd i'w phwysig derfyniad.
Ar y meirw a'r byw mae ganddo lywodraeth,
Drwy iddo ei hunan gael gweled marwolaeth:
A'r dydd a osodwyd pan ddaw o'r uchelder
I farnu y meirw a'r byw mewn cyfiawnder;
Pan glywir ei lef gan bawb sy yn eu beddau,
A hwy a ddont allan heb un oll yn eisiau.
Ond am y dydd hwnnw nis gŵyr nac angylion
Y nefoedd, er craffed, na 'r doethaf o ddynion.
Fel lleidr y daw, heb un rhybudd na dyfyn,
I ladd a lladratta, er terfysg a dychryn;
Neu fagl ddisymmwth yn dal yr annedwydd,
Pan leiaf yn disgwyl nac anffawd na thramgwydd;
Neu'r fellten o'r cwmmwl yn saethu ei harfod,
Heb unrhyw ragamnaid ei bod hi ar ddyfod.
Yr un modd y daw 'r floedd a llef yr archangel,
A'r udgorn diweddaf ar fyd yn dïogel
Huno yn nghofleidion difrawwch a syrthni,
Neu yn nyfnder gofalon wedi ymsoddi.
Fe gyfyd yr haul yr un wedd ag arferol,
I gyfarch y byd â'i oleuni hyfrydol,
A galw 'i breswylwyr i'w prïod orchwylion,
Y rhai fydd mor lawn ag erioed o drafferthion;
Yn ffrystio ar ol eu hamrywiol wrthddrychau,
Yn dwymn eu hawyddfryd a chyflym eu camrau,
Fel plentyn yn ymlid ar ol y brith löyn,
Drwy 'r dolydd meillionog o flodyn i flodyn,
Yr hwn pan y tybia 'i fod wedi 'i gyrhaeddyd
A'i gwel, er ei alar, i'r nesaf yn symmud.

Bydd rhai y pryd hyn rhwng dau feddwl yn cloffi,
Ai Baal ai 'r Jehofah sy i gael ei addoli ;
Ai Duw ynte mammon a gaiff y flaenoriaeth ;
A mawr y chwennychent gyssylltu 'u gwasanaeth.
Bydd rhai gan gydwybod fel gwedi cael cennad
I fyned yn gyntaf i gladdu 'u hanwyldad ;
Ac eraill i ganu yn iach i'w hoff deulu,
Ac yna dychwelyd i ddilyn yr Iesu ;
A rhai 'n gyrru ymaith eu hargyhoeddiadau,
Gan ddisgwyl cael etto ryw well cyfleusderau ;
A'r lleill yn prysuro i'r farchnad i brynu
Yr olew, wrth ganfod eu lampau yn pallu ;
Ac eraill, gan rym cyhuddiadau cydwybod,
Yn addaw diwygio ryw amser i ddyfod.
Ond ar hyn o bryd ni allant ymwadu
A'r pwys ac â'r pechod sydd yn eu hamgylchu.
A'r annuw yn beiddio, Pa le mae 'i ddyfodiad ?
Mae pob peth yn awr fel yr oedd o'r dechreuad ;
Yr haul yn cyfodi, ac wedi 'n machludo,
A'r tymhorau 'n dyfod, ac eilwaith yn cilio ;
Yr eigion yn llenwi, ac wed'yn yn treio,
A pheiriant mawr anian yn gweithio mor gyfrdo
A phan y waith gyntaf y'i rhoddwyd i gerdded,
Heb argoel un anhwyl na llesgedd na lludded.
Nid ydyw y cyfan ond ofer freuddwydion,
Nid oes o'i ddyfodiad y lleiaf arwyddion.
Ceir eraill yn d'weyd fod eu Harglwydd yn oedi,
Gan guro 'i cyd-weision, a bwytta a meddwi ;
A'r lleill y dydd drwg oddiwrthynt a fwriant
I bellder anamlwg, fal prin y'i canfyddant.

Bydd rhai, dan effeithiau peryglus afiechyd,
Yn addaw diwygio os cânt eu hadferyd ;
A rhyfedd mor daer yr awr hon y gweddïant,
(Dan effaith eu hofnau) am râs a maddeuant ;
A dwys addunedant—ond bod yn arbedol—
Y byddant, ond hynny, yn ddynion gwahanol ;
A'r gweddill sy'n ddifraw a hollol ddidaro,
Mewn trymgwsg dideimlad, heb ronyn o gyffro ;
Mor gwbl ddifeddwl am fuchedd ddyfodol
A phe na bai 'n bod ond y bywyd presennol.
Yr un y waith hon a fydd agwedd dynolryw
Ag oedd yn yr amser rhagflaenol i'r diluw,
Yn llawn eu gofalon, a'u syniad yn gnawdol,
A'u hymgais yn unig am bethau amserol.

Mae rhai yn cyfarfod yn nwyrain yr Eglwys,
Yn fintai serchoglon, a'u diwyg yn geinlwys,
A siriol wynebpryd, ac ysgeifn galonnau,
A gwênau hyfrydlon i'w gwel'd ar bob genau ;
A dau o'r cymdeithion a drefnir yn addas
I gael eu prïodi a'u rhoi i brïodas.
Er mwyn eu cyssylltu mewn dynol rwymiadau,
A gaed felly eisoes mewn cyd-dueddiadau.
Mae 'r rhïaint o'r ddeutu yn ddedwydd eu calon,
Yn llawn hyd yr ymyl o ddisglaer obeithion ;
I'r oesoedd dyfodol ymhell yr edrychant,
A gwych yr adeilion yno a gynlluniant,
Tra 'n gwel'd eu hiliogaeth olynol yn codi
Uwch uwch mewn cymmeriad a pharch a mawrhydi,

I gadw eu henwau rhag myned i ango',
Pan f'ont hwy yn y gweryd distaw yn huno;
Ond ni ddywed neb, nac mewn gwir nac mewn rhagrith,
Pa le y mae Duw, yr Hwn bïau roi 'r fendith?

Ar hyn dyma chwythad yr udgorn diweddaf
Yn siglo holl anian i'w sylfaen iselaf;
A nèn y mŵd sanctaidd â thwrf yn agoryd,
A'r marmor fedd-gôrau o'r ddeutu 'n dymchwelyd,
Eu bonedd-arwyddion a'u cerfiad teleidwiw,
Eu harfau a'u lluniau 'n malurio yn chwilfriw;
A'u brawychus denantiaid oll yn cyfodi,
Heb dalaith na seren, na dim i'w hynodi;
A'r blaid brïodasol, yn lle cadw neithior,
Mewn braw a drosglwyddir tu draw i agendor
Mawr amser, i fyd i ysprydion s'yn addas,
Lle nid oes prïodi na rhoi i brïodas.

Tu allan i'r muriau mae mintai wahanol
Eu diwyg, a'u dygiad, a'u hagwedd bendrymmol,
Yn araf a mud yn nesâu at y fangre,
Gan gludo eu marw i dŷ ei hir gartre';
A'r gwr yn y wenwisg yn rhodio 'n flaenorol,
O'r holl olygfeydd yr un fwyaf difrifol.
O amgylch y beddrod yn dorf ymgynhullant,
A rhai ei briddellau â'u dagrau a wlithant;
A chalon doredig wrth feddwl dychwelyd,
A gadael prif wrthddrych eu serch yn y gweryd,
I annedd ymddifad o'i wedd a'i gyfeillach,
Y lle a'i hadwaenai—nis edwyn ef mwyach.

Yr hwn oedd, fe allai, yn dad a phen teulu,
Yn fraich a chynhorthwy'r anwyliaid o'i ddeutu;
Y rhai sydd ysywaeth yn awr wedi'u gado
Eu hunain, â'r byd a'i groesau i ymdaro.
Ond fe allai mai 'r hon na neb yn fwy anwyl
A ddygwyd o'r teulu—yw gwyrthddrych yr arwyl;
Neu hwyrach mai 'r maban a ga'dd ei gymmeryd,
Fel tyner flaguryn cyn cyflawn agoryd;
Neu 'r rïan brydweddol, prif addurn yr oror,
Tra 'r oedd fel blodeuyn hawddgaraf yn agor;
Neu ynte 'r gwr ieuangc llunieiddiol a heini,
Unig gynhalydd ei oedranus rïeni:
Ond dichon mai cyndad yr holl gymmydogaeth,
A phenllwyd groniclydd ei hanes a'i threiglaeth,
A ddygir i'r beddrod, er meithed fu 'i dymmor,
A phedair cenhedlaeth yn dilyn ei elor.

Mae'r arch erbyn hyn yn cael ei hiselu
I waelod y beddrod, a'r rhaffau eu tynnu;
A'r gwr yn y wenwisg ymlaen sydd yn dyfod
Mewn agwedd ddifrifol i ymyl y beddrod,
I bwysig gyflawni yr olaf wasanaeth,
Cyn cuddio 'r trangcedig ym mro llygredigaeth.
Mor ddwys yw y geiriau lle mae yn cyflwyno
Ei gorph ef i'r ddaear am dymmor i huno;
Sef daear i'r ddaear, a lludw i'r lludw,
A phridd i'r pridd eilwaith, nes delo'r dydd hwnnw,
O'r hwn y mae'n datgan ei obaith llwyr hollol,
Sef "o Adgyfodiad i fuchedd dragwyddol."

Ac ef yn llefaru, mae'r Arglwydd yn disgyn,
Gyda bloedd, a llef yr archangel, a dyfyn
Yr udgorn diweddaf yn brochus ddadseinio,
Nes yw holl golofnau'r gre'digaeth yn siglo.
Ar hyn wele gauad yr arch yn ymdaflu,
A'r marw amdöawl a ddychleim i fynu,
I brysur ymuno â'i gyd-anfarwolion,
Ai'r geifr, ai y defaid—ai'r anwir, ai'r cyfion.
Mae'r cerrig a'r cistiau yn neidio 'n ddisyfyd,
A'r beddau drwy'r fynwent i gyd yn agoryd;
A'r byw a adawyd, gan ofn yn llewygu,
Wrth weled y meirw 'n cyfodi o'u deutu
O'u beddau, yn döau ar döau 'n olynol,
Drwy effaith y gwysiad a'i rym anwrth'nebol;
A hwythau eu hunain ar darawiad amrant
Yn fodau ysprydol, anfarwol a ddeuant:
A bychan feddylient wrth dd'od tua'r gladdfa
Eu bod hwy yn dilyn yr angladd diwedda'.

Mae'r prynydd a'r gwerthydd, mewn ffair ac mewn
Yn brysur a diwyd yn dilyn eu galwad; [marchnad,
Mae'r naill mewn llawn hewyd yn canmawl ei nwyddau,
Gan nodi 'u campusrwydd a'u maith ragoriaethau;
A'r llall o'r tu arall mor ddoniol yn traethu
Eu gwall a'u diffygion, er mwyn eu hiselu:
Mor lawn yw'r heolydd o ddwndwr a thwrw,
Fel tonnau mygedig yn murmur eu berw;
Mor effro a diflin mae pawb yn ymddangos,
Fel pe byddai wrthddrych eu cais yn gyfagos;

Ac etto hwy fethant a'i lwyr oddiweddyd,
Yr hyn sydd yn dyblu eu hawch i'w gyrhaeddyd.
Mae llïaws yn sôn am galedi 'r amserau,
Dirywiad pob peth, a gostyngiad y prisiau;
A'r amhossiblrwydd i'r tenant unioni,
Fel mae pethau 'n bod, heb ostyngiad y rhenti.
"'Nghylch llawer o bethau" mae'u gofal yn hollol,
Gan lwyr esgeuluso'r un peth angenrheidiol;
Gan drefnu 'u hachosion mor lwyr ddïystyriaeth
A phe na bai yn bod na Duw na rhagluniaeth,
Nac enaid anfarwol i'w gadw neu'i golli,
Nac un Adgyfodiad, na diwrnod o gyfri'.
Ynghanol y ffwdan, y trafod, a'r taeru,
Ac uchel ymgecraeth y prynu a'r gwerthu,
Mae bloedd yr archangel a'r udgorn diweddaf,
Fel lleidr diddisgwyl, yn d'od ar eu gwarthaf,
I brofi 'u hynfydrwydd, i oesoedd diddarfod,
Am golli y sylwedd drwy ddilyn y cysgod.

Ar ol hir orchwyliaeth, lafurus a diwyd,
A phryder a gofal dros deir-ran o'i fywyd,
Mae'r ffodus Farsiandwr yn rhoddi i fynu
Ei yrfa lwyddiannus o ddiwyd fasnachu,
Gyda bryd cael mwynhâu ffrwyth teilwng ei lafur,
Ar ddiwedd ei oes, mewn tawelwch a chyssur,
Ymhell o sŵn dwndwr a thwrf negeseuon,
Caethiwed y *ddesg*, a'i dyryslyd gyfrifon,
Mewn rhyw loches glŷd, ei baradwys ddaearol,
Ym mynwes hyfrydlon ei fro enedigol.
Nid hir y mae 'n dyfod i lwyr benderfyniad
Pa fodd i berffeithio ei ddedwydd enciliad.

Mae 'n awr, yn ei feddwl, yn gweled ei hunan
A'i deulu o'i amgylch, yn eistedd yn ddiddan,
Heb ofal na thrafferth, mewn gwych adeiladaeth,
Fel cof-nôd o lwyddiant ei hir farsiandïaeth,
A theg etifeddiaeth, o'r hon y d'ai 'n berchen
Ac arglwydd, lle gynt y chwareuai yn fachgen.
Yr archadeiladydd a roddir yn union
Ar waith i gyflawni eu happus freuddwydion;
Yr hwn sydd yn dyfod ymlaen â'i gynlluniau,
Llïosog eu ffurf, ac amrywiol eu dulliau;
Ac yna 'r adeilad ar frys a ddechreuir,
A mawr yw y dydd pan y sylfaen osodir.
Mae 'r seiri a'r gweithwyr i'w dosparth prïodol
Yn prysur ymhwylio, yn chwyrn ac egnïol;
A'r gwr bïau 'r faenor yn dyfod yn gyfrdo
I edrych pa fodd y mae 'r gwaith yn myn'd rhagddo.
A mawr ydyw awydd a dygnedd ei bryder,—
(Mae dydd yn ymddangos fel wythnos o amser)—
Am weled sylweddu ei euraid freuddwydion,
A dedwydd gyflawni ei heulawg obeithion.

Mae eraill yn brysur yn plannu y wigfa,
I fod i'r adeilad yn brydferth gysgodfa,
Yn gymmysg o bob rhyw ddewisol blanhigion,
Er boddio 'r arogl, a difyrru 'r golygon.
Ar gyfer y corph mae 'n darparu pob cyfraid,
Heb feddwl yr unwaith am annedd i'r enaid,
Na dyfod erioed yn un math o ymholydd
Pa le y mae Duw yr hwn bïau roi 'r cynnydd?

Ond dyrcha dy olwg yn awr, O fydolddyn,
A thi a gei weled y Duw hwnnw 'n disgyn,
A gwrando o'i enau 'r daran-floedd ddychrynllyd,
Nes dryllio 'th holl natur yn chwilfriw, "O ynfyd!"
Heddyw y dinystrir dy letty amserol,
Pa le y darperaist dy letty tragwyddol?
Mae 'r saer o'i ddeheulaw yn gollwng ei forthwyl,
Heb feddwl mor fuan cael gorphen ei orchwyl:
A'r archadeiladydd yn bwrw 'i gynlluniau
Cywreinwych oddiwrtho, fel sothach dïeisiau,
A'r bydol farsiandwr a hyrddir, â dyrnod,
Drwy ddôr anfarwoldeb i arall breswylfod,
Yr hon a ddarparodd i'w enaid yn annedd,
Tra 'n mwyth-feithrin ei gorph â phob math o rysedd.

Man arall ceir tyrfa, ddifrifol ei harddull,
O ddeutu 'r bwrdd sanctaidd yn moesgar ymgynnull
I wledda ar rinwedd ei aberth, a chofio
Chwerw angeu'r Cyfryngwr, hyd oni ddelo.
Mae rhai yn nesâu at y ford gyssegredig
Yn llawn o amheuon, âg yspryd crynedig,
Dan deimlad trymlwythog o bla eu calonnau,
A llygredd tufewnol—deddf yn yr aelodau—
Yn barod i suddo i'r ddaear wrth ganfod
Eu llwyr anghymmwysder a'u mawr anheilyngdod
O gael y ragorfraint oruchel o eistedd
I lawr wrth y bwrdd, i fwynhâu 'r fath frenhinwledd,
Pan nad ydynt deilwng, gan faint eu halogrwydd,
I fwytta y briwsion o dan fwrdd eu Harglwydd.

Mae eraill mewn trallod, yn hidlo heillt ddagrau
Wrth deimlo caledwch a thwyll eu calonnau,
Mor gyfa eu hyspryd wrth gofio am angau
Yr Un a wânasant hwy drwy eu pechodau;
Galarant wrth feddwl mor oer yw eu cariad
Gogyfer a chariad angerddol y Ceidwad,
Yr Hwn sydd o'u blaen megis wedi 'i groeshoelio,
A'r Hwn hyd y diwedd a garodd yr eiddo.
Ac yna amheuant wirionedd eu crefydd,
Ac na chawsant unwaith eu crëu o newydd;
Ac etto, er hyn, at y bwrdd y dynesant,
Troi arno eu cefnau er unpeth ni feiddiant;
Yr hyn a ddymunant, uwch law pob golygfa,
Yw gweled en Harglwydd ar dòriad y bara,
I symmud eu hofnau a chwalu 'u hamheuon,
A'u gosod o'u caeth lyffetheiriau yn rhyddion.
Mae eraill yn nesu â siriol wynebpryd,
Fal perffaith fynegai o agwedd eu hyspryd,
Lle mae gwir ddedwyddwch a hedd yn cartrefu,
Na ddichon y byd chwaith ei roddi na'i dynnu.
Mae cariad ar orsedd eu serch yn ennynnu
Yn wresog, a'u ffydd yn tra nerthol weithredu.
Y byd a'i drafferthion yn llwyr a anghofiant,
I uchel ben Nebo mewn hwyl yr esgynnant,
Mewn nefol orfoledd, a gorllon hyfrydwch,
I gael gwel'd y tir pell a'r Brenin a'i degwch;
Ac yna hiraethant, mewn math o bêr-lewyg,
Am ei wel'd fel y mae, a bod iddo 'n debyg,
Heb gymmorth cyfryngau, na drychau, na dammeg,
Ond wyneb yn wyneb, heb eisieu 'n ychwaneg;

Pan wneir eu corph gwael fel ei gorph gogoneddus,
Mewn undeb â'r enaid yn berffaith ddifeius.—
Mae y boreu 'n nesâu, a'r nôs ar fyn'd heibio,
O tyred ein Harglwydd, mae'th weision yn gwylio.
A'r hyn wele 'r floedd, Mae 'r Prïodfab yn dyfod,
Cyfodwch, ymdrwsiwch, ac ewch i'w gyfarfod.
Rhwng hyder ac ofn yr edrychant i fynu.
Mae 'r yspryd yn hyf, ond y cnawd sydd yn pallu.
Hwy welant, o'r diwedd, yr Un a ddisgwyliant
Yn do'd gyda 'r cwmmwl, mewn rhwysg a gogoniant;
A disgleirdeb ei Dad yn wawl-gylch o'i ddeutu,
'N fwy tanbaid na miloedd o heuliau 'n pelydru,
A myrddiwn o saint, a mil myrdd o angylion,
O amgylch ei gerbyd, fel fflamllyd orgorddion.
Ond tra mae 'r Cymmunwyr ynghlorian amheuaeth
Ai ofn ynte hyder a g'ai 'r oruchafiaeth,
Mae 'r Barnwr yn brysio i brofi i'r fintai
Mai 'r un yw yn disgyn a phan yr esgynnai,
Drwy eu llon-gyfarch â'i hoff ymadroddion,
TANGNEFYDD i chwi, fy anwylaf ddisgyblion:
Cyfodwch eich pennau, edrychwch i fynu,
Y mae eich ymwared yn awr wedi nesu.
Serchowgrwydd ei wedd, a phereidd-dra 'i leferydd
A leinw eu natur a'r fath orllawenydd
Hyd nes y'u trosglwydda drwy iâs bêr-lesmeiriol,
Ar d'rawiad amrentyn, yn fodau anfarwol.
Ond och! wele un o'r aelodau yn crynu,
Mewn ing anhraethadwy, a'i wyneb yn glasu.
Fe allai y mwyaf ei ddoniau o'r cyfan,
A'r olaf a dybid yn fyr yn y clorian.

Gan rym y daran-llef o'r uchel orseddfa,
'Y cyfaill, pa fodd yr anturiaist di yma
'I blith fy nghyfeillion a'm teulu urddasol
'A thithau 'n ymddifad o'r wisg brïodasol?'
Mewn eithaf cyfyngder a dychryn disyfyd
Mae 'n myned yn fud, heb air i'w ddywedyd.
Wele 'r elfen briddlyd a'i sylwedd anianol,
Drwy echrys lewygfa, yn do'd yn ysprydol.

Mor bwysig yw 'r gyfraith, yn nhrefn ei gweinyddiad,
I olrhain a phrofi pob dryglawn gyhuddiad!
Mor lwyr anhepgorol ei rhaith i blant dynion,
Er cospi yr euog a chyfiawnhâu 'r gwirion.
Yr un y pryd hynny fydd agwedd cymdeithas
Ag ydyw 'n bresennol—rhai 'n dduwiol, rhai 'n ddiras—
Ac echrys weithredoedd yn cael eu cyflawni,
A'r pleidiau amheüus yn cael eu traddodi
I garchar, i aros nes delo 'u prawfholiad,
Ai gàu ynte gwir a fydd pob cyhuddiad?
Ac udgyrn y Sirydd drwy 'r ddinas yn cyhoedd
Adseinio, i ddatgan agoriad y llysoedd,
Er dwyn ger y frawdle yr holl garcharorion,
I brofi eu hachos, a'u barnu yn gyfion.
Wele! yr *Ynad* ar y faingc yn ymseddu,
A llïaws niferoedd i'r llŷs yn ymdyrru.
Fe allai i wrando rhyw achos nodedig,
O fywyd neu angeu i'r un cyhuddiedig.
Mae 'r Pleidwyr, o'r ddeutu, i'r bàr yn ymgynnull,
Ar gyfer y frawdle, â'u diwyg brïod-ddull;
A'r "hynod" garcharor o'r diwedd a wysir
I wrando 'r achwyniad i'w erbyn a ddygir;

A'r Rheithwyr, olynol, sy'n cael eu hardyngu,
I roddi iawn ddedfryd, hyd eithaf eu gallu ;
A'r tystion wrth law, ac yn barod bob ochor,
I dystio y gwir rhwng eu teyrn a'r carcharor.
Ar fyr, wedi 'chydig o rag-gyflawniadau
A dibwys ddefodau, mae 'r holiad yn dechrau:
Y tystion a elwir i roi eu tystiolaeth,
A hyn ar eu llŵ, ac hyd eitha'u gwybodaeth,
A modrwy ar fodrwy olynol a luniant,
Er ffurfio un gadwen, mor gref a digolliant,
Nes rhwymo'r gyflafan a'r truan garcharor
Ynghyd, mewn rheffynnau annattawdd a didor.
Pob modrwy o'r hirbrawf sy 'n d'od yn fwy pwysig ;
Yn ol y mae 'r gadwen yn d'od yn ffurfiedig,
A mwyfwy yw pryder yr holl bresennolion
I weled canlyniad yr hirfaith arholion.
O'r diwedd mae 'r achos yn d'od i derfyniad,
A'r barnwr o'r cyfan yn gwneud ei grynhöad,
Gan adael i'r rheithwyr, drwy bwyllus ystyriaeth,
I draethu eu dedfryd yn ol y dystiolaeth.—
Mor ddistaw yw 'r llŷs, tra y maent hwy yn rhoddi
Eu pennau ynghyd i ddwys ymgynghori :
Pob chwythad a lethir, gan faint yr awyddfryd
A'r poenus ddisgwyliad am glywed y ddedfryd.
Cyn hir mae 'r ddeuddengnyn yn ymchwel eu pennau
O'r cylch difrifol-ddwys âg athrist wynebau,
A'r blaenor yn codi, 'n grynedig ac ofnog,
I sibrwd-gyhoeddi 'r carcharor yn—EUOG.
Yn awr wele 'r Ynad, mewn agwedd ddifrifol,
Yn estyn ei law at y du-gwfl arswydol,
I bwysig gyhoeddi y ddedfryd angeuol,

Tra mae 'r llŷs fel y bedd, mewn poenus ymoediad,
Mal prin y canfyddir na chwyth nac anadliad.
  Ar hyn wele 'r udgorn diweddaf, mor ebrwydd,
A llef yr archangel yn torri 'r distawrwydd,
A nen y llŷs heibio fel peiswyn yn myned,
Ac YNAD ynadon ar gwmmwl i'w weled.
Mae beddau 'r carchardŷ i gyd yn agoryd,
A'u meirw llawruddiog* i fynu 'n dychwelyd,
A'u dwylaw 'n llychwinog â gwaed eu celanedd,
A'u gwedd yn barddüog gan bwys ei herchylledd,
A'r byw ar un ergyd sy'n cael eu newidio
Yn fodau ysprydol, â hwynt i ymuno,
I sefyll eu prawf ger bron Crist mewn mawrhydi,
Nid mwy yn edrychwyr, ond pawb i roi cyfri';
Pob un drosto 'i hun, heb ddim gronyn o ragor
Rhwng barnwr a phleidiwr a'r gwaelaf garcharor.

  Mor drymaidd yr olwg yw 'r adail gyfagos,
Rhwng carchar a thlod-dŷ sydd fel yn ymddangos.
A'i honglog adeinwaith, a'i hëang gynteddau,
Ei dir attafaelion, a'i llïosog gellau:
Y lle a ddarparodd y dduwies Elusen
I druain feib amhwyll, ar gyfer eu hangen,
Yn y rhai y mae'r llyw o'i sedd wedi 'i yrru,
A ffugion dychymmyg yn cyflawn deyrnasu.
Mae rhai yn bruddglwyfus, a sarrug, a dybryd,
Gan syllu 'n bendrymaidd, heb air i'w ddywedyd;

* Mae cyfraith y deyrnas hon yn awr yn gorchymmyn fod i lofruddion, ar ol eu dienyddio, gael eu claddu o fewn cylch-derfyn y carchar.

A'r lleill mor dafodrydd yn llawn ymadroddion,
Yn didor barablu eu heffro freuddwydion;
A'u holl feddyl-ddrychau, mal bodau anghyfrdo,
A welir drwy niwl a thywyllwch yn gwibio
Yn fintai gymmysglyd a llwyr ddireolaeth,
Yn gwau drwy eu gilydd, heb ffurf na disgyblaeth.
A'r dywyll nôs drwyddi a geir yn adseinio
Gan wyllt weithrediadau y meddwl dihuno.—
Mae rhai yn frenhinoedd, mewn rhwysg ac awdurdod,
Oddiwrth eu holl ddeiliaid yr honnant ufudd-dod:
Pob teyrn-addurniadau a wisgant yn gysson,
Yr orsedd, y rwysgfawr deyrn-wialen, a'r goron.
Mae un yn gelfyddwr nad oes ei gyffelyb,
Yn llawn o ddyfeisiau, a rhyw *brif* newydd-dyb,
Yr hon sy'n rhagori ar bob darganfyddion,
A'r hon, o'i defnyddio, wnai engyl o ddynion.
Am y dyb newydd hon mae ei holl ymddiddanion,
Yn dangos a phrofi ei dirfawr ragorion;
A'i oriau unigol a dreulir yn gyfan
I dynnu cynlluniau, i'w gosod hi allan,
Fel dyfais anhafal i lesu dynolryw;
Na fu er y crëad ddim iddi hi 'n gyfryw;
A dirfawr y cwyna oherwydd dallineb
Y byd, am na welai ei maith ragoroldeb.
Mae arall, a bywiog a gwresog serchiadau,
Yn sôn am ei Weno a'i mawr ragoriaethau;
A choron o lawryf a bletha yn ddiwyd,
I wneuthur brenhines o'i Weno angyl-bryd;
A'r clytiau brithiedig a ddeuant i'w ddwylo
A wna yn deyrn-ddiwyg i wisgo ei Weno.

Ceir yno 'r masnachwr a fu'n aflwyddiannus,
A chan dristwch y byd a ddaeth yn wallgofus;
Yr hwn sy 'n ddïorphwys—rhag ofn y swyddogion
A'r carchar—yn olrhain a thrin ei gyfrifron.
Yno mae y rïan a ddygwyd i g'wilydd
Drwy ddichell a brâd yr uffernol hudolydd;
Synhwyrau yr hon a chwilfriwiwyd yn gandryll
Dan bwys y fath warthrudd a siomiant mor erchyll.
Yno mae y symlyn a'r gwirion-anedig,
A'i fryd dan gadduglen o ddunos gyntefig;
Lle unwaith ni welir gwawr rheswm yn torri,
Na 'i ddisglaer belydrau byth yn ei sirioli.
Ceir yno 'r afradyn a redodd ei yrfa
O warthus benrhyddid, gor-rysedd, a thraha.
Ei iechyd, a'i eiddo, a'i reswm offrymmodd
Ar allor ei chwantau a'i nwydau anniffodd.
Fel hyn, holl neuaddau 'r adeilad ëangfawr
A dröwyd yn Fabel gymmysglyd a thrystfawr;
Ac uchel a didaw yr adsain ei magwyr
A dadwrdd pendronol yr effro freuddwydwyr:
Ac er pob ymdrechion a dyfais celfyddyd
I godi y deall o'i gladdfa hir-nychlyd,
Mae'r cyfan yn ofer, mor lwyr yw ei ddylaith,
Nad oes o'i adferiad un rhaien o obaith.
Ond i waelod y gladdfa hon y llym dreiddia
Dwys egni effeithiol yr udgorn diwedda',
I godi y rheswm o'i feddrod i fynu,
I'w roi ar yr orsedd dros fyth i deyrnasu.

Bu llawer o udgyrn hynodol eu seiniad,
O amser i amser, a mawr eu canlyniad.

Rhyfeddol yr udgorn uchelgroch a seiniai
O ganol y tân a'r tywyllwch ar Sinai,
I wysio hil Israel i wrando lleferydd
Eu cadarn Ddeddfroddwr o goppa y mynydd,
'N mysg mellt a tharanau a mŵg a daeargryn,
Nes llenwi 'r holl lwythau â chryndod a dychryn;
A seiniad yr udgorn mor erch yn cynhyddu,
Hyd nes yr aeth Moses i ofni a chrynu.—
Tra hynod oedd adsain yr hyrdd-gyrn modrwyog
Fu gynt yn amgylchu hen Jericho gaerog,
Nes dymchwel i'r ddaear ei muriau llwyr gadarn,
A'u gwneuthur i draed y gwarchaewyr yn wasarn.—
Tra phwysig y seinia ar hyd ein heolydd
Yr udgyrn sy 'n datgan dynesiad y barnydd.
Mor frawychus y floedd i'r holl garcharorion
Pan geir iddi 'n atteb gyd-dystiad y galon.
Rhyw udgorn hynodol ei sain ydoedd hwnnw,
Ar foreu'r dydd sanctaidd, o'u ber-hûn fu 'n galw
Dewr filwyr hen Albion i faes* yr ymladdfa,
I dynnu 'r dorch waedlyd âg enwog feib Galia;
Pan ddygid y ddwyblaid i'r gâd dan lywyddiaeth
Dau brif arlüyddwyr eu hoes a'u cenhedlaeth,
Tra 'r hongiai tynghedfen Ewropia bryderol—
Ai caeth ynte rhydd—dros wyth awr yn y fantol.
Ond o bob udganiad a glywodd meib Adda,
Udgorn pob udgorn fydd yr udgorn diwedda'.
　Pe bai y fath grynfa nes siglo 'r ddaearen
O gongl i gongl, fel deilen yr aethnen,

* Waterloo.

Nes hyrddio 'r mynyddoedd o'u hisel sylfeini
Fel adail bugeiliaid—a llyngcu 'r prif drefi
Yn draphlith garneddau i'w gwangcus agennau,
Heb garreg ar garreg o'u holl adeiladau,
A chau arnynt wed'yn eu safnau dychrynllyd,
I'w claddu yn fyw, ac heb drefn, mewn un gweryd:
Pe deuai cyfreithiau holl anian yn benrhydd,
Nes gosod pob elfen yn erbyn eu gilydd:
Pe dettid rheffynnau yr eigion ymchwyddawl
I'w ollwng o'i wâl mal anghenfil cythruddawl,
I arllwys ei ddyfroedd, yn ffrochwyllt geunentydd
Rhuadwy a thrystfawr, drwy 'r byd ben bwy gilydd,
A chlywed o'r sêr eu herch grochru rhaiadrawg,
A'u gwlychu gan luwchion eu hewyn trochionawg.
Pe gyrrai holl anian ei thân dirgeledig,
Yn ffrydiau angherddol o ufel llosgedig,
Fel tanllyd aberoedd o'i chrôth yn bwrlymmu,
A'r elfen wrth'nebol i ffyrnig ymdrechu,
Nes llenwi 'r holl wagle cynhyrfus â thyrfau
Mwy brochus eu twrf na mil myrdd o daranau;
Pe dygid pedwar-gwynt y nef o'u trysorau,
O'r dwyrain, gorllewin, y gogledd, a'r deau,
I ruthro 'n ffyrnigwyllt, drwy ganol yr entyrch,
Fel pedwar gwroniaid yn arfog i'r ymgyrch;
Pe chwyddid pob awel yn dymestl erwin,
Pob tymmestl, eilwaith, yn gorwynt ysgethrin,
Pob corwynt, drachefn, yn un rhuthr echrynfawr,
Nes rhwygo holl natur drwy 'r ornest ryferthfawr;
Er hyn, a mil mwy, o gythrwfl a dychryn,
Ni pharai i'r meirw agoryd amrentyn;

Ni fyddai 'r holl gyfan ond megis hûn-süad
A sigliad crŷd iddynt i huno 'n fwy diwad;
Ni chai yr un llwchyn i fywyd ei alw;
Fe drengai y byw, ni chyfodai y meirw.—
Ond llef yr archangel a'r udgorn diweddaf
A dreidda, ar unwaith, i'r celloedd tywyllaf,
I gasglu pob gronyn o sylwedd dynolryw
Erioed a gynhwysent i fywyd o ddistryw.
O beth am yr awr y ceir gwel'd y prif ringyll
Wrth ystlys yr orsedd oruchel yn sefyll
Ac yn rhoi wrth ei safn 'r offeryn aruthrol!
O pwy all wrthsefyll ei chwythad holl-nerthol?
Mae nefoedd a daear ac uffern yn clywed,
Trwy 'u pellaf eithafion y saetha yn hyred;
Tra gwelir y Barnwr o'i wregys yn dattod
Agoriadau arswydus angeu a'r beddrod;
Pan glywir yn agor holl ddorau Marwolaeth,
Heb un yn glöedig, drwy 'i holl ymerodraeth.
Mae'n treiddio i isaf ddyfnderoedd Gehenna,
Drwy 'i chelloedd tywyllaf yr erchyll adrüa,
I ddwyn yr ysprydion sydd yno mewn rhwymau
I farn y dydd mawr, i chwanegu eu poenau.
Daccw safn yr Anoddyn yn cael ei hagoryd,
A hwythau yn esgyn yn heidiau dychrynllyd,
Yn gymmysg ellyllon a dynol eneidiau,
A mŵg dudew 'r ffwrn, yn orwyllion wrthddrychau.
Wele 'r eneidiau tua 'r gweryd yn gogwydd
Eu hynt, i'w hail uno â'u celain annedwydd,
Fel y bo i'r cyrph yn y rhai y pechasant
Gyfranogi o'r gosp a gyd-deilyngasant.

Ac O! y pryd hyn pa gyfarfod echryslon
A welir rhwng dau oedd yn bennaf cyfeillion?
Ond yn awr wedi troi yn elynion dïeilydd,
Yn barod i ddifa a llarpio eu gilydd.
I bob cell y rhuthra y chwythad grymusol,
I adfer i fywyd bob llwchyn dyniadol.
Mae 'n cyrraedd i ddyfnaf gilfachau yr eigion,—
Lle erioed ni saethodd yr haul ei belydron,
Nac adsain crôch-ruad cyflegrau rhyfelgar,
Er rhychu ei wyneb â broch eu gor-ddyar,—
Gan ddwyn o'i waelodion anhygyrch i fynu
Yr holl ddynol ronynnau geir yno 'n llechu;
Yn gyrph anllygredig y treiddiant trwy 'r dyfroedd,
A gwedd anfarwolion, yn lluoedd ar luoedd
Uwchlaw yr holl donnau terfysglyd esgynnant,
A'u brigau berwedig, heb suddo, a sangant.
Mae rhai wedi huno ym mro yr iâ oesol,
Lle chwery y morfil, mewn dyfnder amhlŷmiol,
Mewn cell o iâ didawdd, mor glŷd y gorweddant,
Ac amdo ddisglaerwen o eira anniflant,
Fel rhai mewn pêr-arogl, rhag gwel'd llygredigaeth,
Amgenach na'r Dwyrain a'i balmaidd gyffyriaeth.
Mae effaith y dyfyn yn cyrraedd i'w celloedd,
Er gorwedd dan grugau o rewllyd fynyddoedd,
Gan saethu cynhesrwydd drwy 'u holl gyfansoddiad,
Ac ennyn ail einioes â'i ryfedd ddylanwad.
Mae Abel o'r cynfyd, sef blaenffrwyth marwolaeth,
Ar unwaith yn clywed y grôch alwedigaeth,
Ac Adda ac Efa, dau wreiddyn dynolryw,
Sy'n d'od i ymgyfarch â'r olaf o'u cyfryw.

A'r holl gynddiluwiaid i'r làn, yn aneirif,
A ddeuant o feddau gorddyfnion y dylif;
Mae 'r creigiau cadarnaf yn hollti 'n adwyau,
A'r meirw 'n cyfodi drwy 'u hanferth agennau.
Mae dwfr y Môr Marw, er trymmed yw, 'n berwi
Gan feib y Gwastadedd, sydd trwyddo 'n cyfodi,
Preswylwyr hen Sodom a'i chyd-chwaer Gomorrah,
A'r eraill ddwy ddinas, Zeboim ac Admah;
Ac er na wrandawent ar Lot a'i rybuddion,
Rhaid oedd iddynt wrando'r archangel yr awron;
Llef yr hwn sy'n adfywio'r golofn halenaidd,
Gan ddadmer holl effaith y gawod frwmstanaidd.
Mae cloion hen Ogof maes Machpelah 'n dattod,
A'i gwerthfawr drysorau i'r goleu yn dyfod:
Daccw dad y ffyddloniaid a'i landeg hoff Sarah
Yn llawen-gyfnewid eu dedwydd foreu-da;
Ac Isaac a'i anwyl Rebeccah yn serchus
Ymgyfarch; a Jacob a'i Leah ffrwythlonus:
A'r naill yn cyfannerch y llall mor gynhesol
A phe yn dadebru o gyntun adfywiol.
Mwy prydferth yw Sarah o'i gwely yn dyfod
Na chynt yn yr Aipht, pan yn wrthddrych rhyfeddod.
Mae Isaac yn awr heb ddallineb i'w flino,
Mae hwn o'i olygon, fel cèn, wedi syrthio,
A'i lygaid yn gweled, yn berffaith eglurwedd,
Ei Hâd addawedig mewn cnawd ar yr orsedd.
A Jacob a welir heb gloffni y forddwyd,
Y 'gewyn a giliodd' i'w le a adferwyd;
A llygaid ei Leah mor hynod eu cryfder
Ag i allu craffu ar Haul y cyfiawnder.—

Ger llaw Pihahiroth, heillt ddyfroedd y Rhudd-fôr,—
Lle nodai Baal-sephon a Migdol yr oror,
Lle gwelid yn chwyfio y Wialen nodedig
I'w hollti i'r gwaelod yn hwylffordd sathredig,
Ac eilchwyl i ddymchwel y muriau pentyrrol
Ar goppa 'r erlidwyr, heb un yn ddihangol.
Er gwaeddi, fel llawer a gaid wedi hynny,
Am ffoi, pan na allent yn hŵy ymgyndynnu,—
Y waith hon a holltir â llef yr archangel,
I adfer y fyddin yn ol yn ddïargel;
Heb feirch, na cherbydau, na ffrôst, na bygythion,
Na brenin, na chapten, na meistriaid, na gweision,
Ond oll yn llu unffurf, i gael eu cyd-brofi,
Ger brawdle y Barnwr, heb neb yn rhagori,

Yn awr mae bedd Moses i'r golwg yn dyfod,
A'i frawd o fryn Hor mor gu yw y cyfarfod!
A'r wyryf â'r dympan, a'i heinif langcesi,
O'u beddau amrywiol i gyd sy 'n cyfodi
I uno mewn cân o fil mwy ei llawenydd
Na chyflawn ddymchweliad y "march a'r marchogydd."
Deborah a Barac i'r làn a gyfodant,
Eu tannau melusber mor fwyn a chwareuant
I ddatgan eu moliant am uwch rhyfeddodau
Na chwympiad Sisera a'i heiyrn gerbydau.
O'r lluoedd aneirif i'w gwel'd sy'n cyfodi,
Y lle gynt y safai dinasoedd a threfi
Enwoccaf y ddaear, yn frigog a helaeth,
Y rhai 'n awr ni cheir ond ar ddalen hanesiaeth;

Hen Fabilon fawr gyda Ninefeh boblog,
A Phencaer* gwlad Nilus, na 'r ddwy yn fwy enwog.
Er cymmaint y nifer o gywrain wrthddrychau,
O blith eu hadfeilion, a ddygwyd i'r golau,
I'r udgorn diweddaf y perthyn adferyd
Adfeilion eu heidiawg breswylwyr i fywyd.
A hwythau 'r ddwy ddinas† oedd gynt mor odidog
Ym mynwes paradwys Ewropia flodeuog,
Ond etto ar gyffin cymmydog‡ amheuol,
Yr hwn, yn y diwedd, a droes mor fradychol,
Nes arllwys o'i grombil ei danllyd afonydd
I'w claddu, ar unwaith, dàn eirias domennydd
O ufel llosgedig a marwor terwynaidd,
Mewn amdo echrydus o gelffaint brwmstanaidd.
I fynu o'u ceudod y daw yr archangel
A'r dirif drigolion, gan nad pa mor isel
Yr hunant, dàn döau o gelyd ddyblygion,
Mwy cedyrn a sicr na barrau na chloion.
A'r gwrdd Adeiladau,§ sylfaen-brâff a brigfain,
Gwrthddrychau rhyfeddod y celfydd a'r cywrain
Ym mhob rhyw genhedlaeth; ni allant hwy 'r awron,
Er cryfed, wrthsefyll y chwythad echryslon;
Er talgryf wrthsefyll difäol waith amser,
A chadw eu gwystlon, heb unwaith eu hadfer,
Eu celloedd dirgelaf yn awr a ddynoethir,
A'u balmaidd anneddwyr i'r goleu a ddygir.
Mae'r ddaear mewn gwewyr yn poenus lafurio,
Gan effaith ei phlant yn ei chrôth yn ymwthio

* Thebes. † Pompeii a Herculaneum. ‡ Vesuvius. § Pyramids.

I dd'od i'r esgorfa, i gael eu dadeni
I'r fuchedd dragwyddol, i fythol ail-oesi.—
  Fel claddfa ëangfawr yw 'r byd; ym mhob cỳrion
Yn llawn o gudd-feddau, a gweddill dynolion;
Y rhai, er mawr ddychryn i'r byw, sy'n cyfodi
Mewn lleoedd heb argoel un bedd yn hanffodi.
  Mae 'r arddwr, tra 'n dilyn ei alwad, yn synnu
Wrth weled y meirw 'n cyfodi o'i ddeutu,
Yn llïaws nifeiriol o'u beddau yn dyfod,
Lle nad oedd e'n disgwyl bod celain na beddrod:
Heb wybod i'r lannerch a dry ef yn gwysau,
Ryw dro, gael ei rhychu 'n gynnifer o feddau,
I'r rhai y pentyrrid rhês faith o arfogion
Ar ol rhyw ymladdfa orwaedlyd a chreulon.
  Mae'r bugail, wrth wylio ei braidd ar y mynydd,
Ym mhell oddiwrth lwybrau pob rhyw gynniweirydd,
Yn synnu wrth ganfod un marw'n cyfodi
Ynghanol ei ddefaid, lle 'r oeddynt hwy 'n pori:
Gweddillion dïarwyl rhyw grwydryn anffodiog
A aeth ar gyfeiliorn, ar noswaith oer niwliog,
Gan grwydro mor bell oddiwrth dŷ a chyfannedd
Nes trengu drwy doster yr hin yn y diwedd.
  Y forwyn, tra 'n hymnio mor bêr yn y fuches,
Sy 'n delwi, gan syndod a dychryn dïachles,
Wrth weled un marw, o flaen ei golygon,
Yn dyrchu o'r ddaear ym mysg ei da blithion:
Rhyw adyn annedwydd a daflwyd i'r geuffos
Drwy waedlyd gyflafan cynllwynwr y gwyllnos.
  Mae 'r teulu, wrth eistedd o amgylch yr aelwyd,
Y'mron a llewygu gan ddychryn ac arswyd

Wrth deimlo y llawr dan eu traed yn ymchwyddo,
A gweled un marw 'n cyfodi o hono :
Gweddillion rhyw faban, i guddfedd a syrthiodd,
Drwy law 'r anghenfiles, Och fyth ! a'i hymddygodd.
Mae rheng y medelwyr, tra 'u gwelir mor brysur
Yn bwrw i'r crymman ffrwyth gwerthfawr eu llafur,
Drwy 'u holl gyfansoddiad yn fferru gan ddychryn
Wrth weled rhai meirw i fynu yn esgyn
Rhwng y twysennau, ac ynghanol y fedel,
A chyrph mor deneulym a chwimmwth a'r awel :
Heb wybod i'r maes fod yn lle claddedigaeth,
Ryw oesau yn ol, i fynachlog ehelaeth.
O ! yr annifeiri i'r làn sy'n dylifo
O'r ëang fynwentydd, sydd wedi 'u gorlwytho
A dynol weddillion, yn döau ar döau,
O'u trefi cyffiniol, tros faith genhedlaethau ;
Ond er bod eu llŵch wedi cyd-ymgymmysgu,
Pob llwchyn a edwyn ei lwchyn er hynny ;
Ni chollir un gronyn o'r sylwedd hanffodol
I ail-ffurfio 'r adail o'i defnydd cynhwynol.
Mae grym ac effeithiau y chwythad arswydol
Yn treiddio i gorau 'n Heglwysi Cadeiriol,
A'u celaf ganghellau, lle rhoddwyd i orwedd
Brif enwogion ein tir, mewn parch ac anrhydedd ;
A'r rhai a orlenwir â chywrain fedd-gorau,
O gerfwaith anhafal, a drudfawr golofnau.
Ac arnynt gof-restriad, mewn dyfnion argraphau,
O nodawl weithredoedd y meirwon, a'u titlau :
Pob dyfais i gadw y rhei'ny rhag suddo
Yr un modd a'u llŵch, i anhygyrch dir ango'.

Ond yn awr y fedd-adail olaf a luniwyd,
A'r golofn ddiweddaf yn ei lle a roddwyd.
Mae cŷn y cerfiwr wedi dyfod yn ddifudd,
A phin yr ysgrifiwr yn hollol ddiddefnydd.
Mae llef yr archangel yn d'od i ddymchwelyd
A chyfan ddinystrio holl waith eu celfyddyd.
O ! 'r fath olygfa a geir yno 'r pryd hynny,
Pan glywir yr udgorn diweddaf yn canu,
Pan welir o'u safle y marmor golofnau
Yn cwympo yn chwilfriw—a'r cywrain gerfluniau
Yn lluchio yn deilchion can-ddrylliog o ddeutu,
A'r meirw, drwy 'u canol, yn esgyn i fynu.
Mae 'r frôch yn gor-ruthro 'n anfoesgar i gelloedd
Y pennau coronog, a'u gwychion fedd-lysoedd.
Ni ŵyr yr archangel wahaniaeth un gronyn
Rhwng gwyddfa frenhinol a bedd y cardottyn.
Mae 'r teyrn a'r cardottyn yn awr yn gydwastad,
Heb radd o ragoriaeth mewn cyflwr na dygiad;
Y Brenin a welir yn d'od heb ei goron ;
Pa le mae teyrn-wialen y T'wysog yr awron ?
Wele 'r Dug yn cyfodi heb ei goronig,
A'r Arglwydd a'r Iarll heb eu nodwedd arbennig.
  Aneirif yw'r graddau yn awr sy'n hanfodi,
O'r adyn distadlaf i'r uchaf mewn mawrfri.
A didaw'r ymffrostia rhai yn eu huchafiaeth,
Eu hachau urddasol, a'u huchel waedoliaeth :
Ac fel y dirmygant y werin israddol !
Mal ciwed o waed a rhywogaeth wahanol ;
A dirfawr yr ofnant â hwynt ymgymmysgu,
Neu adael i'w bysedd â'u breinniau gyffyrddu.

Am nodwedd eu gradd, uwch pob dim y gofalant,
Mae 'n fwy yn eu cyfrif na nefol urdduniant,
Gan olrhain eu hachau a'u titlau boneddol
O gangen i gangen o'r pren hynafiaethol
Nes cyrraedd rhyw gyff o'r fath fri a hybarchedd,
Nad oes iddo debyg yn llinach ein bonedd.
Ond wele yr udgorn diweddaf a'i chwythad
Yn gwneud y bonheddig a'r gwreng yn gydwastad;
Dïaddurn, dinodwedd, diradd, a dihynod,
Mae'r uchaf ei urddas yn dyrchu o'r beddrod.

Mae pawb yn unffurfwyr oddiyno 'n cyfodi
Er myn'd i lawr iddo drwy lwybrau aneiri'.
Er cymmaint y pleidiau a'r sectau sy'r awron
Yn dybryd ysgaru a pharthu plant dynion,
A'r dirif gredöau a'r barnau gwahanol,
A'r poethion ddadleuon a geir yn bresennol,
Ni fydd, ar ol hyn, wrthenwadau 'n amrywio,
Ni chyfyd o'r bedd ond dwy blaid ac un credo:
Y gweddill a chwalwyd, fel sothach llwyr ofer,
Neu fan-ûs perthynol i lawr dyrnu amser;
Na thâl i'w drosglwyddo i'r fuchedd anfarwol,
Lle y gwelir pob peth yn ddirith a sylweddol,
A phawb wedi cyrraedd yr un "mesur oedran,"
A chyflawn faintioli, yn ddigoll a chyfan.
Pan welir anwiredd yn eithaf ei frynti,
Yn noeth, yn ei dduaf a'i hagraf wrthuni,
Yn wrthddrych atgasaf a mwyaf ffieiddiol,
Yn ei wir liw ei hun heb ddrychau cyfryngol:
Yr amser y gwelir yr holl rai annuwiol
Yn gyflawn a chwbl ar ddelw y diafol;

Ac elfennau anwiredd wedi 'u cyd-dyrru
Yn un corph dychrynllyd, nid mwyach i'w tarfu.
Yn awr y ceir gweled sancteiddrwydd ym mhurdeb
Ei natur a'i hanfod, mewn tanbaid ddisgleirdeb,
Yn lân heb halogrwydd, yn berffaith heb lygredd,
Heb bechod ynglŷn, ond yn llwyr ddigymmysgedd :
Pan welir y cyfiawn yn ngwisg eu perffeithrwydd,
'Gwybodaeth, cyfiawnder, a pherffaith sancteiddrwydd.'
Pob peth a grynhöwyd i'w elfen brïodol,
Fe ddarfu am anhrefn y cyflwr presennol;
Mae'r cwbl yn unffurf, ni cheir o hyn allan
Y melus a'r chwerw o fewn yr un cwppan:
Ni welir byth mwyach hyfrydwch a gofid
Ynglŷn â'r un gwrthddrych, yn oriog gyfnewid.
Na chylchol ofwyon—fal gynt ar y ddaear—
Tylodi *a* chyfoeth, llawenydd *a* galar,
Ni chlywir byth mwyach am aflwydd *a* ffyniant,
Ac ennill *a* cholled, difadrwydd *a* mwyniant,
Na thrist lef colli 'r maes a bloedd buddugoliaeth,
Griddfannau'r cystuddiol a chân y dïalaeth.
Yr holl bethau cyntaf a aeth yn awr heibio,
A phob peth yn newydd a gafodd ei ffurfio;
Ni ŵyr y 'stâd honno am unrhyw gymmysgedd,
Nac amrywiaeth, na thro, i oesoedd diddiwedd.
Byth yno ni theimlir ond naill ai llawenydd
Digymmysg, neu alar, un wedd, yn dragywydd :
Un cwppan yn chwerwder i gyd hyd y gwaddod,
A'r llall yn felustra perffeithiaf i'w waelod.
Nid cariad a châs, ac anobaith a hyder
Yn myn'd ac yn dyfod i newid y dymmer.

Ond hyder digymmysg, a chwbl anobaith,
Casineb didoliant, a chariad llwyr berffaith.
Nid boreu orfoledd a hwyrol alarnad,
Fel llanw a thrai bob yn ail eu cylchyniad,
Ond bythol orfoledd heb ronyn o dristyd,
A didrangc alarnad heb ddefnyn o wynfyd:
Sefydlog, dinewid, digymmysg, dïadfer,
Yw 'r fuchedd tu hwnt i gyhydedd fawr amser;
Yr hon o ddau ddosparth a wnaethpwyd i fynu,
I'r pellaf eithafion yn gwrthgyferbynnu.
Ar y naill mae 'r haul yn tywynnu 'n wastadol,
Ar y llall wedi machlud mewn dunos dragwyddol.
Mae un mewn uchafion mwynhâd a dedwyddyd,
A'r llall yn nyfnderoedd trueni ac adfyd.
  Yr un mor anhebyg a gwrthgyferbyniol
Yw prïod *breswylwyr* y ddwy 'stâd wàhanol:
Mae un yn cyfodi i fywyd tragwyddol,
A'r llall i warth ac i ddirmyg anhraethol,
Mae'r naill yn cyfodi ar ddelw ei Arglwydd,
A'i gorph yn disgleirio mewn purdeb sancteiddrwydd,
A'r llall mor echryslawn yn d'od o'r bedd allan
Yn gwbl a hollol un ddelw a Satan.
  Pwy fel y cyfiawn pan o'r bedd yn dihuno
Wedi rhoi 'i ddiwyg Sabbothol am dano?
Ei wisg gyssegredig nas gorfydd ei dattod
Byth mwy, na 'i llychwino â gwaith y chwe diwrnod;
Y wisg ddiwnïad a weuodd y Meichiau
O'r preseb i'r bedd, drwy 'i ufudd-dod a'i angau.
Yn lle'r corph oedd gynnau i'r pryf* yn ddyledus
Am wychder ei ddiwyg a'i wisgoedd mwy destlus,

* Silkworm.

A thrachefn i anifail y maes am ei orchudd
I fod iddo 'n glydwch a rheidiol achlesydd,
Wele ef heddyw wedi cael ei arwisgo
A pherffaith gyfiawnder ei Brynwr am dano,
Ac yn sefyll yn hyf, di gryn, a hyderus,
Ar ddydd mawr ei ddigter a'i ddïal alaethus.—
Mor werthfawr yn awr fydd cydwybod ddïeuog,
Yn cyd-dystiolaethu â'i dedwydd berchennog,
Wrth edrych yn ol i wneud manwl ymchwiliad
Pa fodd yr ymddygodd yn nhymmor ei brofiad.
Da 'n awr fydd bod un wedi dewis y bywyd,
A'r ffordd, er mor gul, oedd yn arwain i wynfyd.
I'r filfed ran pwy a all draethu 'i orfoledd,
Wrth weled ei hunan ar gael yn y diwedd?
Ac ei enaid a'i gorph dros fyth yn ddihangol,
Heb ofn bod yn ol nac ar goll yn dragwyddol:
O'r holl ryfeddodau o'i gylch sydd i'w canfod,
Efe, iddo 'i hun, yw y bennaf ryfeddod.
Doe 'r ydoedd yn teithio drwy 'r anial gwâg diffaeth,
A'i enaid yn crymmu dan gorph y farwolaeth;
O'r naill brofedigaeth i'r llall yn feunyddiol,
Rhwng hyder ac ofn yn barhâus yn y fantol.
Weithiau ar ben Pisgah, mewn llawn oruchafiaeth,
Dro arall yn isel yn nglyn anghrediniaeth,
A'i draed i'r clai tew a'r pridd tomlyd yn suddo,
Yn llawn o betrusder, mewn t'w'llwch yn rhodio:—
Ond yn awr ar y graig ei draed a osodwyd,
A melus newydd-gan i'w enau a roddwyd;
Cân Moses a'r Oen, sef llawn oruchafiaeth
A'r ofnau, amheuon, a phla anghrediniaeth.

Doe yr ydoedd y corph yn llawn o amhuredd,
A mynych wendidau, a phoenau, a llesgedd,
A chnawdol dymherau, a blŷs anifeilaidd,
A nwydau, a gwyniau anianol a ffïaidd;
Pan ydoedd pob synwyr yn hwylfa i bechod
A grym temtasiynau, o bob lle 'n ymosod,
Fel pe mewn cynghreiriad â phethau gweledig
I ddenu yr enaid i ffyrdd gwaharddedig.
Mor wael a dibarch oedd yn disgyn i'r beddrod,
Fel gwrthddrych â'r hwn yr oedd pawb yn ymwrthod;
Yn fath ysgymmunbeth, nas gellid ei oddef
Hyd yn oed gan anwyliaid serchoccaf ei artref;
Mor atgas, a ffïaidd, a llwyr annymunol,
Nad oedd ond y bedd iddo 'n drigfan brïodol,
Lle 'i bwrid, yn unig, ar encil i orwedd,
I'w gyfan ddarostwng i ddifrod a llygredd.—
Ond O mor wahanol yw heddyw yn dyfod
O holl alanastra a distryw y beddrod!
Y telpyn difywyd, dibarch, a dirmygus,
Yn awr a gyfodir yn gorph *gogoneddus;*
Can's megis y dygodd ef ddelw 'r daearol,
Efe a geiff weithian ddwyn delw y nefol.
Pa le mae 'r lluniedydd a all roi disgrifiad,
Na 'r dyb all ddych'mygu y fath gyfnewidiad?
Beth ydyw cyfodiad y d'wysen o'r gronyn,
Neu 'r glöyn disgleirwych o'r llusgawl gynrhonyn?
Mewn unrhyw gymhariaeth i'r corph a gyfodir
O'r gelain furgynaidd i'r ddaear a fwrir?
Mae wedi ymddiosg o'i wisgoedd llychwinllyd,
A'u gadael i gyd ar ei ol yn y gweryd.

Mewn perffaith lunieidd-dra, un ffaeledd ni edwyn,
Nac un aelod anhardd nid oes iddo 'n perthyn.
Effeithiau y codwm i gyd a symmudwyd,
Yr un o'i weddillion ar ol ni adawyd;
Heb hedyn o lygredd, nac elfen adfeiliol,
Mwy nag sydd yn perthyn i'r enaid anfarwol.
Byth mwy ni ddaw henaint, a'i fynych wendidau,
Fel byddin lïosog, i bylu 'r synhwyrau:
Ni sonir byth mwy am y golwg yn pallu,
Na chlywed y glust yn cael ei amharu;
Ond hynny ni nodir y gwyneb â chwysau,
Na 'r pen â gwallt-wynni fel argoel hir-ddyddiau:
Ond gwelir ef filiwn o oesau yn gyfryw
Mewn gwyrfedd ieuengctid ag ydyw ef heddyw,
Yn *nerthol* a heinif, ni ŵyr oddiwrth lesgedd,
Na blinder, na lludded i oesoedd diddiwedd.
Mae 'r traed ydoedd gynnau mor fusgrell yn llusgo,
Yr awron mor wisgi a'r meddwl yn gwibio.
Doe 'r oeddynt yn hwyrdrwm ac araf eu camrau,
Yn attal yr enaid yn ei ysgogiadau;
A dirfawr y cwynai yr yspryd o herwydd
Y fath lyffetheiriau yn ffordd ei ddyledswydd,
A'u mawr annibendod i foddio 'i awyddfryd—
Tra 'n ymdaith drwy Facca—i Salem gyrhaeddyd.
Mae yn gweled o bell ei thyrau anwyl-gu,
A'i hyfryd balasau 'n yr haul yn pelydru;
Ac er ei fod ef, â chyflymdra yr ewig,
Yn gallu ymhedfan i'r fan wynfydedig,
Ac uno â brodyr ac anwyl gyfeillion
I gydwasanaethu yr Arglwydd yn Sïon,

Etto o nerth i nerth mae 'r traed yn ymsyflyd
I ddilyn yr enaid i'r fangre orhyfryd.
Ond heddyw fe 'u gwelir hwy, wedi 'u hail ffurfio,
Mor gyflym a'r enaid, ac etto 'n ddiflino ;
Yn abl i ddilyn ei holl ysgogiadau
Heb ludded na llesgedd, er chwimmed ei gamrau ;
Ai ynte i rodio drwy euraidd heolydd,
Neu berlawg byrth cain y Jerusalem newydd :
Neu ynte ar lannau pur afon y bywyd,
I fwytta o aeron ei phrennau cynharbryd :
Neu ynte i esgyn rhyw Bisgah hyfrydlon,
I wel'd a mwynhâu golygfëydd newyddion ;
Neu hwyrach i ymwel'd â'u hen gynniweirfa
Ar y ddaear, o newydd a grëodd Jehofah :—
I ddilyn y meddwl fel hyn yr ymwibiant
Drwy oesoedd tragwyddol, heb flinder na methiant.
Y dwylaw, o'r blaen oedd mor barod i laesu
A d'od yn flinedig drwy hir wasanaethu,
Yn awr a gymhwyswyd i chwareu 'r aur-delyn
Heb duedd i laesu na llesgu 'r un gronyn ;
Neu 'n fuddugoliaethus i gario y palmwydd,
Neu fwrw y goron wrth droedfaingc eu Harglwydd.
Mor gryfion a threiddgar yn awr yw y llygaid,
Oedd gynnau mor drymaidd, a phylion, a gweiniaid ;
Yn methu hir graffu ar hoffaf wrthddrychau,
Gan ballu 'n ol mesur disgleirdeb y golau ;
Yn awr, heb serennu, hwy allant noeth edrych
Ar Haul y Cyfiawnder, ym mhurdeb ei lewych,
A llu y nefolion, er mor ogoneddus,
Fel nifer o heuliau 'n tywynnu 'n llewyrchus.

Ni raid iddynt mwyach wrth gŵsg i'w hadfywio,
Na drychau cyfryngol byth i'w cynnorthwyo.
Doe 'r oeddynt i'w gweled mal dyfrllyd ffynhonnau,
A'u ffrydiau tryloywon, yn rhychu y gruddiau,
Mal dirith arllwysiad y galon doredig,
Dan deimlad o'i llygredd a'i thuedd wrthnysig :
Dro arall yn tywallt eu dagrau 'n afonydd,
Wrth wel'd annuwioldeb yn myned ar gynnydd ;
Neu hwyrach gyfeillion ac anwyl berth'nasau
Yn rhedeg i ddistryw, yn gyflym eu camrau :
A'r lleill yn dwyn gwarth ar yr enw rhagorol
Drwy 'u herchyll godymmau i feiau anafol :—
Ond tymmor eu wylo yn awr a ddibennwyd,
Pob deigryn yn hollol oddiwrthynt a sychwyd.
Byth mwy ni ddaw'r clustiau yn drymion gan henaint,
Na 'r tafod yn floesg drwy orlesgedd rhygymmaint :—
Mewn gair, mae pob synwyr ac aelod a chyfran
O'r corph heb na gwendid na diffyg yn unman.
Er disgyn i'r ddaear yn farwol oer delpyn,
Mor hollol ddifywyd a'r briddell a'i derbyn,
Mae 'n esgyn o'r beddrod mewn diwyg *anfarwol*,
Na wisgir na threulir i oesoedd tragwyddol ;
Nas llygrir gan rŵd, nas difäir gan amser.
A'r hon ni heneiddia dros fyth yn ei gwychder.
Peth rhyfedd yn awr a fydd gwel'd y corph dynol,
Drwy 'i holl gyfansoddiad, heb un hedyn marwol,
Wedi 'i gyflunio o'r fath ddidwn ddefnyddiau
Rhy gelyd i'w gwânu gan un o eirf angau ;
A'r peiriant mor uchel wedi cael ei ddirwyn
Ag i redeg un cylch tragwyddol diderfyn.

Dros feithion flynyddau y bu y credadyn
Mewn dybryd gaethiwed gan ofn y prif elyn ;
Ac er bod ei golyn ef wedi ei dynnu,
Etto yr oedd natur o'i arswyd yn crynu,
Ac er bod ei Dduw wedi bod iddo 'n angau,
A'i 'speilio o'i gedyrn a'i erch agoriadau ;
Ac er ei fod iddo yn wir gymmwynaswr,
I'w ollwng o'i garchar a'i gyfyng gaeth gyflwr ;
Etto 'r oedd anian yn ei hol yn adlammu
Wrth feddwl â brenin pob dychryn ymdrechu.
  Mewn llawer o ffyrdd yr oedd iddo'n ymrithio,
Er mwyn ei gythryblu a'i fynych gythruddo :
Y waith hon megis "glŷn" dwfn, enbyd, a thywyll,
Lle 'r oedd bleiddiau yr hwyr yn udo yn erchyll,
A gwangcus fwystfilod yn adsain y diffaeth,
A'u didaw ruadau ar ol eu hysglyfaeth ;
A lladron yn gwylio, yn effro a diflin,
I ladd ac yspeilio y truan bererin ;
Nes gwneud iddo ofni mai darfod am dano
A wnai, wedi 'r cyfan, cyn iddo fyn'd trwyddo.
Dro arall fel " afon," ruadwyllt a thonnog,
A'i dwfr dros ei glannau yn chwyddo 'n orllifiog,
Y gorfydd ei chroesi, er dyfned ei dyfroedd,
Cyn cyrraedd o'r anial i Salem a'i llysoedd.
Pa sawl gwaith y bu 'n syllu'n drist a chrynedig,
Ar gryfder ei chenllif, a'i thonnau chwyddedig ?
A'i glannau mor dawchlyd, a'i dyfroedd mor oerion,
Nes fferru yr enaid cyn teimlo 'i gwlybyron.
Pa sawl gwaith y bu 'n meddwl am yr aneiri'
Broffeswyr talgryfion a aeth i lawr ynddi ?

Ac yn ofni mai dyna a f'ai ei ran yntau
Cyn byth y cyrhaeddai y nefol drigfannau.
Po uchaf yr 'hedai ar ffyddiog adenydd
I wel'd y wlad dda a'i rhagorion dïeilydd,
A mwyaf ei hiraeth am esgyn uwch gofid,
I fwytta o rawnwin ei gwinwydd cynhennid,
Y meddwl dd'ai eilwaith, i wneud iddo ofni,
'Mae 'r glŷn i fyn'd drwyddo, a'r afon i'w chroesi,
A'r enaid a'r corph i gael yno 'u hysgaru,
Er tynned y cwlwm, ac er mor anwylgu.'
Ond yn awr wele y ddau wedi d'od allan
O'r dyffryn a'r afon, a glanio yn Nghanaan.
Ond Oh! pa mor hyfryd y waith hon fydd edrych
I oesoedd diddarfod, heb weled un gwrthddrych
Yn dyfod, fel cwmmwl, i daflu ei gysgod
Ar berffaith ddisgleirdeb y mwyniant i ddyfod?
Nid oes yr un glyn byth mwy i fyn'd drwyddo,
Nid oes yr un afon—mae wedi 'i mordwyo—
Ni chlywir am y saeth liw dydd sy 'n ehedeg,
Na 'r haint yn y t'w'llwch sy 'n rhodio, 'n ychwaneg;
Na damwain angeuol, ddisymmwth yn digwydd
I gludo ei gwrthddrych i'r ceufedd mor ebrwydd.
Ni chlywir byth mwy yr ymadrodd dwys hwnnw
Am neb o'r preswylwyr, Y mae—wedi marw.
Ni welir ond hynny ymhlith y trigolion
Na phlant yn ymddifaid na gwragedd yn weddwon.
Byth mwy ni newidir eu gwisgoedd claerwynion
Am drymllyd alarwisg ar ol eu cyfeillion.
Ni theimlir mwy effaith na nychdod na thrymglwyf,
Yr un o'r preswylwyr ni ddywed "Claf ydwyf."

Ni ddringa i dir anfarwoldeb na 'i finior.
Gythryblus ofn angeu, na 'r un o'i osgorddion.
Mor hyfryd yw meddwl, ynghanol eu mwyniant,
Nad oes yn eu haros na diwedd na phalliant.
Yn uchder melusder eu perffaith gyfeillach,
Na ddaw yr un angeu i'w tarfu byth mwyach.
   Ond pwy, o'r tu arall, a ddichon ddarlunio
Trueni yr anwir, na 'i deilwng ddisgrifio?
Mor hagraidd a theryll mae 'u cyrph yn d'od allan,
Mal euog deyrnfradwyr a lusgir o'u cuddfan,
I'w gorchuddio â "gwarth a dirmyg tragwyddol,"
Dan bwys eu pechodau a'u beiau afrifol.
Daccw 'r pryf yn y fynwes wedi cyd-ddeffro
A'r corph annedwyddus, i'w fythol boenydio
Ag erchyll gnofëydd, mil mwy eu harteithion
Na myrdd o wiberod yn dygn-gnoi 'r galon.
Oh! pwy a all draethu trueni yr adyn?
Pan egyr ei lygaid i wel'd nad oes defnyn
I'w gaffael byth mwyach o'r gwaed holl-effeithiol
I luddio 'i gnofëydd a'i loesion tanbeidiol.
   Mae peiriant y côf yn cael ei ail-ffurfio
Yn berffaith, ddigolliant, bob cyfran o hono;
Ac ansawdd cydwybod yn dyfod yn gyfryw
Nes profi i'r dynsawd mai ef ei hun ydyw;
Mai efe ydoedd ddoe mewn cyflwr o brofiad,
Rhwng bywyd ac angeu i wneud ei ddewisiad;
A chywir mae'n darllen pob sill o'i hynt foesol,
O wawriad ei reswm i'w dymmor machludol.
Yn awr mae pechodau i'r golwg yn rhuthro,
Oeddynt er ystalm wedi 'u claddu mewn ango'.—

Mal erch ddrychiolaethau o wlad yr ellyllon,
Nes llenwi ei enaid ag ofnau echryslon,
Mae digllon ysprydion Sabbothau aneiri'
O'i flaen yn ymrithrio i'w flino 'n ddidewi,
Fel diwair wyryfon o'u beddau 'n cyfodi
I edliw eu cam am eu gwarthus halogi.*
Mor dda fyddai ganddo gael ffoi i ryw ogof,
Neu i greigiau 'r mynyddoedd ei gladdu mewn angof,
Neu fod i'r uchfryniau o'i ddeutu sy'n neidio
Ei lethu 'n dragwyddol a'i fythol orchuddio.
Yr hyn sydd yn fendith i gyrph y duwiolion
Sy'n felldith ddigymmysg i gyrph yr anghyfion.
Os ydynt yn nerthol, maent felly i ddïoddef;
Os ydynt anfarwol, maent felly i *hir*-oddef.
Os cryfion yw'r clustiau, mae felly eu nerthoedd
I glywed taranau 'r Jehofah 'n oes oesoedd,
A gwrando griddfannau ac ochain didoliant
Eu cyd-ddamnedigion, heb ronyn o seibiant.
Os treiddgar yw 'r llygaid, maent felly i syllu
Yn ddibaid ar folltau ei lid yn melltennu
Drwy ddudew dywyllwch y fagddu uffernol,
I ddangos gwrthddrychau echryslawn ac ingol.
Os ydyw y dwylaw a'r breichiau yn nerthol,
Maent felly dros fyth i barhâu yn elynol,
A hyrddio eu heirf at yr orsedd oruchel,
Y rhai ar eu pennau eu hunain sy'n ymchwel.
Y traed oedd mor chwimmwth yn rhedeg eu gyrfa
I bob rhyw ddrygioni, anwiredd, a thraha;
Y rhai ni oddefent iachusol rwymiadau
Na deddf nac efengyl i attal eu camrau;

* Yma dyger yr Adran ar ddiwedd y Ganiad i mewn.

Ond rhedeg yn brysur i bob math o rysedd,
I foddio eu chwantau ac amryw feluswedd :—
Yn awr a ddyfernir, ar ol eu hail-dantio
A newydd ewynnau, a'u cyflawn gymhwyso,
I ddïoddef llym-rygniad byth-danllyd efynnau
Ynghell damnedigaeth, er briwiau a chreithiau.
Mor echrys yw meddwl am losgi 'n dragwyddol
Mewn ffwrn o dân eirias, a bod yn anfarwol.
Nid yw eu holl gryfder ond yn eu cymhwyso
I gynnal holl sòriant Jehofah heb suddo
I fythol ddiddymdra o dan ei ddir bwysau,
Mil trymmach i'w goddef na 'r cedyrn fynyddau.
Dychrynllyd yw meddwl am nerth sy'n ddigonol
I ymladd â 'stormydd ei lid yn dragwyddol,
A didrangc ymryson â chryfder y Duwdod,
Heb gael eu dinystrio i oesoedd diddarfod.
Y fath felldith i un fydd bod yn anfarwol
Mewn cyflwr dïobaith ac ing annyhuddol !
Yr hwn oedd cyn heddyw ei elyn atgasaf,
Prif wrthddrych ei ofnau, a'i ddychryn o'r mwyaf;
Yr hwn ymhob man oedd yn difa ei gyssur,
Pan iddo 'r ymrithiai â'i biccell a'i bladur,
Yn barod i'w wânu a'i dorri i'r beddrod,
O ganol ei fwyniant, tra etto 'n amharod.
Y bwbach hwn weithion, gan aethder ei gyflwr,
A dybia 'i anwylaf a'i brif gymmwynaswr.
Mae'n chwilio am dano, mewn ing trallodedig,
Fel un a fa'i 'n cloddio am drysor cuddiedig:
Mae 'n edrych i'r bedd, gan ddych'mygu ei ganfod,
Ac yn disgwyl ei wel'd o'i grombil yn dyfod

I'w ddymchwel ef eilwaith i'w eigion i lygru,
Y lle o bob man oedd cyn hyn i'w ddychrynu:
Yna mae 'n tybied ei weled yn gwibio,
O gylch y mynyddoedd fel hyrddod sy 'n neidio
O'i ddeutu; a dwys yr eiriola 'i wasanaeth,
I'w lethu ar unwaith i lwyr drangcedigaeth:
Drachefn mae 'n dych 'mygu ei weled ar donnau
Berwedig yr eigion rhuadwy yn chwarau,
A thaer yr erfynia am gaffael ei suddo
I'r gilfach ddirgelaf a dyfnaf sydd ynddo:
Yna mae 'n tybio ei weled yn symmud,
Fel gwyllan dwyllodrus, i'r eirias ddychrynllyd
Sydd yn llosgi y byd ac oll ag sydd ynddo,
Ond etto ryw fodd yn ei adael e'n ango';
A'i ddwylaw ymhleth, ar ei liniau 'r ymbilia,
O'i ing a'i gyfyngder am gaffael dihangfa
Drwy losgi yn ulw, un wedd a'r gre'digaeth,
A darfod ar unwaith a'i boenau a'i alaeth.
O fangre i fangre mae 'r wyllan, gan wibio
O flaen ei olygon, yn dibaid ymrithio,
Ac etto 'n osgoi pob math o ymdrechiad
I'w dal a'i gorddiwes, er maint ei egnïad.
O pwy a all ddirnad i'r filfed ran artaith
Creadur anfarwol mewn bythol anobaith!

Wele 'r udgorn diweddaf wedi cyflawni
Ei waith, drwy 'r tair teyrnas, yn llwyr a digolli:
Eneidiau y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd—
Heb un oll yn eisieu—â'u cyrph a ail-unwyd:

A gyrrodd Gehenna 'i holl ddamniol eneidiau
I ail gym'ryd meddiant o'u hagron gyrph hwythau.
Pob llwchyn a fernid i'r corph yn hanfodol,
Erioed a breswylid gan enaid rhesymmol,
Yn awr a ail-ffurfiwyd i ddyfod yn annedd
I'w denant blaenorol, mewn undeb diddiwedd.
A phob enaid oll fu ar gorph yn feddiannol,
Sydd wedi gwneud hwnnw ei artref tragwyddol.
A'r rhai gaed yn fyw i gyd oll a newidiwyd,
O'r farwol i'r fuchedd anfarwol fe 'u cludwyd.

Dyma'r pryd y ceir gweled holl feibion Adda
Wedi 'u cyd-gasglu, yn un gynnulleidfa.
Afrifed, heb un o'r holl gyfan yn eisiau,
O'r cyntaf i'r olaf drwy 'r holl genedlaethau:
Pob lliw a phob llun, drwy'r amryfal hinsoddau,
O'r dwymboeth Gyhydedd i'r rhewllyd Begynau,
Pob gwlad a phob tylwyth, pob iaith a rhywogaeth,
A fu er y crëad o bob rhyw genhedlaeth.
O'r maban a dynnodd ei anadl gyntaf,
A'r hon, cyn yr eilfed, a brofodd ei olaf,
I'r cyndad Methuselah yn ei ddeg-ganfed
Flwyddyn yn gorphen ei yrfa er meithed.—
Patrieirch, Prophwydi, Apostolion, a Thadau,
O'r ddwy Oruchwyliaeth, eu prif oleuadau:—
Haneswyr, Athronwyr, a Beirdd y cynoesoedd,
O ddoniau hynodol a rhyfedd alluoedd;
Yn enwog Wroniaid fu 'n dallu 'u cyd-ddynion
A thanbaid ddisgleirdeb a lluch eu gorchestion;

Y rhai sydd yn llenwi dalennau hanesiaeth
A'u brwydrau nodedig, a hynt eu milwriaeth.
Merthyron, Diwygwyr, Cenhadon, ac Awdwyr,
Fu 'n llesu dynolryw â ffrwyth eu dwfn fyfyr,
A welir yn dorf ogoneddus a dedwydd,
Yn medi o ffrwyth eu gwastadol ddiwydrwydd.
Yno y ceir hefyd y rhai a fu hynod
Gan faint eu drygioni, a'u dirfawr erchylldod,
Meib dïal, a chreuder, a thraha, a gormes,
Y rhai mewn gwaed a 'sgrifenasant eu hanes ;
A mawredd eu drygedd yn gwneuthur i'w henwau
Arogli 'n ddrygsawrus yn ffroen yr ol-oesau,
A'r rhai a lanwasant groniclau 'r amseroedd
Ag echrys gofrestriad o'u hanfad weithredoedd.
Yn awr y ceir gweled y gwaedlyd erlidwyr,
Yn ystod eu tymmor a fuont mor brysur
I lunio pob dyfais o greulon gywreinrwydd
I attal cydwybod rhag gwneud ei dyledswydd.
Ond O mor wahanol y waith hon yw cyflwr
Y Merthyr diniweid a'r creulon erlidiwr ;
Traed a dwylaw pwy 'n awr a rwymir mewn gefyn ?
Ar gyfer pwy heddyw mae 'r tân wedi 'i ennyn ?
Pwy 'r awron sy'n wrthddrych gwaradwydd, a gwatwar,
A dirmyg, a gwarth, y'ngŵydd nefoedd a daear ?
Mor ryfedd i Pilat yn awr a fydd canfod
Yr un a draddododd ar gwmmwl yn dyfod ;
Nid mwy yn garcharor ac yntau yn llywydd,
Ond ef yn garcharor a'r Iesu yn Farnydd.
A'r Tetrach ffroen-uchel, a'i filwyr gwatwarllyd,
A dôir â chywilydd wrth esgyn o'r gweryd,

Pan welant yr Hwn fu o'u blaen, mor ddiweddar,
Heb air a attebai, yn destun eu gwatwar,
Yn awr ar yr orsedd yn Farnwr Goruchaf,
Yn barod i ddatgan eu dedfryd ddiweddaf.
Mae 'r haerllug werindorf oll wedi cyfodi
Mewn syndod a dychryn, oedd gynnau yn gwaeddi
" Ymaith ag Ef," gan ei hyrddio i Golgotha
Fel prif ddrwg-weithredwr i le 'r ddïenyddfa ;—
Ond pa mor wahanol yn awr yw eu cyflwr
Pan adchwel y ddedfryd o enau y Barnwr,
" Ewch ymaith oddiwrthyf," weithredwyr anwiredd,
I'r tân nid yw 'n diffodd, a phoenau diddiwedd !
O'i mangre mae 'n dyfod Frenhines y deau,
Fel un wedi 'i breinnio â mil o dafodau,
I danllyd gondemnio yr holl genedlaethau
Y rhai ni wrandawent ar addysg a geiriau
Prif Athraw rhagorach nâ Solomon dreiddgar,
Er maint ei ddoethineb a'i ddoniau digymmar ;
A nodawl wrandaw-wyr y bregeth daranllyd
O enau y Prophwyd ar ol ei adferyd
O waelod y môr ac o fol y pysgodyn
Lle 'i bwriwyd i wella ei dymmer anhydyn,
A uchel gondemniant y rhai fu mor ddiras
A gwrthod y Prophwyd rhagorach nâ Jonas.
Oh 'r tanllyd edliwion a glywir o ddeutu,
Gan rym eu heffeithiau mae 'r wyneb yn glasu ;
Mae rhai yn melldithio y tad a'u cenhedlodd,
Ac eraill yn rhegu y fam a'u hymddygodd ;
Y rhai sydd i'w gwel'd yn cyfodi o'u beddau
A gwaed damnedigaeth eu plant ar eu pennau !

O pwy all ddarlunio 'r fath erchyll gyfarfod
A fydd y pryd hynny ar geulan y beddrod,
Rhwng rhïaint di dduw a'u hannedwydd hiliogaeth
Wrth wel'd ddarfod selio eu collfarnedigaeth!
O pwy a all wrando eu cethrin edliwion
A'u crôch-gyhuddiadau yn ingder eu calon?
Y mab yn edliwied i'r tad o'r ffyrnicca'
Mai ef fu 'r achlysur o'i ddwyn i hyn yma.
'O rïant annuwiol! O dad didosturi!
'Pa ham na fuasit un waith yn d'weyd imi
'Fod dydd megis hwn wedi 'r cyfan i ddyfod,
'Yna gallaswn barotôi i'w gyfarfod;
'Ond yn awr wele'r adeg wedi myn'd heibio;
'Gadewaist im' huno heb ymgais i'm deffro;
'Gan it' fod yn foddion i roi im' fodolaeth,
'I ti 'r ymddiriedwyd roi imi wybodaeth
'Gyfaddas a theilwng o'm henbyd sefyllfa
'Fel deiliad cyfrifol llywodraeth Jehofah,
'Ag enaid anfarwol i'w golli neu 'i adfer,
'A hynny yn ol fy ymddygiad mewn amser.
'Tydi ga'dd y fantais uwch pawb i olygu
'Y meddwl mabanaidd yn dechreu gweithredu,
'Pan yn gweithio ei ffordd i wneud cydnabyddiaeth
'A phethau gweledig a ddenai 'i ymsyniaeth,
'Cyn iddo erioed mewn un *fold* gael ei ddodi
'Na 'i gyflunio i unrhyw ffurf i'w hynodi;
'Cyn i ddrwg ergryff nac arferion drygionus
'Gael meddiant o'r enaid, a'i ddwyn yn gaethiwus.
'Tydi oedd yr athraw i roi fy ngwers gyntaf,
'Fy fforddwr i arwain fy nghamrau boreuaf;

‘ Pa ham yn lle fforddi fy meddwl dihocced
‘ Ac iawn gyfarwyddo fy nghamrau diniwed,
‘ Y buost i'm tywys ar hyd y ffordd lydan
‘ Sy'n arwain i ddistryw tragwyddol a griddfan ?
‘ O pe buasit ti yn gwneud dy ddyledswydd,
‘ Pwy ŵyr na fuaswn i heddyw yn ddedwydd,
‘ Ar gael wedi mhuro, fy nghannu, a'm golchi,
‘ Yn lle gorfod suddo i fythol drueni !
‘ O anferth anghenfil ! yn gan-mil mwy creulon
‘ At blant d' ymysgaroedd na 'r arth at ei chywion !
‘ Gwyn fyd na fuaswn yn un o'th ysgrubliaid
‘ Yn hollol amddifad o reswm ac enaid,
‘ Yna mi a gawswn gyfaddas ymgeledd
‘ Brïodol i'm natur, a chymmwys i'm tuedd ;
‘ Byw heb un cyfrifoldeb i'w roddi, a threngu
‘ A dychwelyd i'r pridd, a dim “ wedi hynny.”
‘ Onid oedd ddigon iti ddamnio dy hunan
‘ Heb wneud dy hiliogaeth yn ebyrth i Satan ;
‘ Drwy 'th esampl y'm denwyd i'r dafarn i feddwi
‘ Yn hytrach na myned i le o addoli.
‘ Drwy ddilyn dy arfer y dysgais felldithio,
‘ Heb feddwl yr unwaith ar Dduw am weddïo ;
‘ Ond heddyw mae 'r Prynwr ar orsedd y frawdle,
‘ Ac nid ar orsedd-faingc ei râs a'i hir odde',
‘ A'r dydd cymmeradwy wedi cwbl fachludo ;
‘ Un arch nac erfyniad ni wrendy byth etto,
‘ Gan hynny, O rïant ! am iti fy nhywys
‘ Ar hyd y ffordd lydan i ddiwedd mor echrys,
‘ Ymbarotöa y pryd hyn i'm blaenori
‘ I'r dïenyddle er mwyn cael ein cyd-gospi ;

'Ni fydd tragwyddoldeb yn ormod o yspaid
'It' wrando f'edliwion yn chwerwder fy enaid.'

Mae 'r ferch yn cyfarfod â'r fam fu'n achlysur
I'w harwain i ddistryw drwy foddio ei natur,
Drwy geisio ei llwydd a'i dedwyddwch tymhorol
Ar draul iachawdwriaeth ei henaid anfarwol.
Ond O! pa mor finiog—fel llymion biccellau
Trwy y fron yn trywanu—yw 'r cyhuddiadau
A fwria yngwyneb yr hon oedd anwylaf
O bawb ymhob lle, ond yn awr yr atgasaf!
'O fam felldigedig! ai dyma fu diwedd
'Dy holl garedigrwydd, a'th ddiball ymgeledd?
'Pa ham yr anghofiaist wedi yr holl gyfan
'Dd'weyd fod gennyf enaid noeth, euog, ac aflan?
'Pa les ydoedd meithrin y corph a'i fawrygu
'A gadael yr enaid yn noeth i newynu?
'Pa les fod y naill âg arwyddion iachusrwydd
'Tra 'r llall yn dihoeni dan effaith euogrwydd?
'O fam o'r greulonaf! addurno 'r gwael blisgyn
'Ag ofer-deganau! a cholli y perlyn!!
'Oedd ganmil mwy gwerthfawr na'r byd a'i holl fawredd,
'Heb fodd ei gyfnewid i oesoedd diddiwedd.
'Pa beth i mi 'n awr ydyw glendid corphorol,
'A thŷciant a llwydd f'amgylchiadau tymhorol,
'Y rhai oeddynt i ti y pennaf wrthddrychau,
'Ac a wneid i ymddangos felly i minnau?
'Drwy rym y ffug-ddrychau a roddit yn gyfrdo
'O flaen fy ngolygon i'm dallu a'm twyllo.

'Ti wyliaist fy rheswm fel tyner blanhigyn
'Yn tarddu 'n ireiddiol o'r baban i'r plentyn,
'Ac ar y pryd hwnnw mor hawdd y gallesit
'Roi iddo 'r gogwyddiad a'r duedd a fynnit!
'Ond ow! yn lle dyrchu ei awydd ymchwilgar,
'Gwneist iddo ymdreiglo yn llusg ar y ddaear:
'Gwyn fyd na syrthiaswn i'r bedd yn foreuol
'Cyn dyfod erioed i weithredu'n gyfrifol;
'Na fuaswn yn eppil i'r estrys ddideimlad!
'Heb enaid rhesymmol, nac un Adgyfodiad!
'Oh! fy unig enaid! Tydi a'i distrywiaist,
'Un awydd i'w achub erioed ni ddanghosaist;
'Yn awr ar dy ben boed fy ngwaed yn oes oesoedd,
'I'th suddo yn uffern i'w hisaf ddyfnderoedd;
'A'r un a lofruddiaist yn erchyll ddrychiolaeth
'O'th flaen i'th boenydio â'i bythol edliwiaeth!'

Rhwng pennau teuluoedd digrefydd a bydol,
A'u cyn-weinidogion bydd cyhwrdd arswydol;
Y rhai 'r oedd eu syniad i gyd yn ddaearol,
A'u hymgais yn unig am elw tymhorol;
A meddylfryd eu calon yn nhŷnion gadwynau
Y pethau a welir—hwynt hwy oedd eu duwiau—
Am y byd ymgrafangent fel am eu bywyd,
Beth ddaw o eraill iddynt hwy nid yw 'n deiryd:
Un allor deuluaidd erioed ni chodasant,
Mor fud yw eu hannedd a'r bedd oddiwrth foliant;
Y byd yw'r peth olaf wrth fyned i gysgu,
A'r byd yw'r peth cyntaf wrth godi i fynu;

Ar ol y byd eilwaith y prysur ymlidiant
Drwy ystod yr hollddydd, heb ronyn o seïbiant;
Eu bara beunyddiol yn brydlon dderbyniant
Un wedd a'r anifail yn derbyn ei borthiant;
Heb unwaith ystyried, nac unwaith gydnabod,
Mor fawr yw haelioni a gofal y Duwdod.
Ni chlywir ei enw byth yn eu geneuau
Ond i'w halogi mewn rhegfêydd a chableddau!
Ac os daw athrawiaeth fy nhestun i weithiau
Fel cennad diwahodd ar draws eu meddyliau,
Fe 'i gyrrir yn fuan ar encil oddiyno
Drwy addo gwell amser i roi iddo roeso.
Dalennau eu Bibl unwaith ni agorant,
Dan dewder o lŵch ar y silff y gorweddant;
Mwy unol â'u harchwaeth yw 'r cylchol Gyhoeddiad
Am hynt yr amseroedd ac agwedd y farchnad.
Yn ofer mae boreu y Sabbath yn gwawrio
A'i wênau cynhesol i'w gwa'dd i roi heibio
Eu bydol orchwylion, a threulio un diwrnod
I ddarpar ar gyfer y byd sydd ar ddyfod.
Yn ofer mae 'r glôch yn eu heglur rybuddio
I ddo'd lle mae udgorn y Jubili 'n seinio;
Mae 'n rhaid eu cymmeryd hwy yn esgusodol,
Nid oes ganddynt hamdden i fyn'd yn bresennol:
Felly y treuliant eu Sabbathau bendigaid
Yn hollol un wedd gweinidogion a meistriaid;
Y cyntaf, ni allant hwy fyned pe mynnent,
Yr olaf, ni fynnant hwy fyned pe gallent.
Ond pwy welir heddyw ar geulan y beddrod
Mewn dychryn a braw yn cyffröus gyfarfod

Heb un wedi 'i adael nac yn esgusodol?
Rhaid oedd ufuddhâu gwŷs yr udgorn presennol;
Y bydol benteulu a'i dylwyth annuwiol,
A wnaeth e'n fwy felly drwy 'i fuchedd anrasol.
Yr awyr a rwygant â'u hingol grôch-lefau
Yn erbyn eu gilydd yn dwyn cyhuddiadau.
Ond p'le ceir mynyddoedd digonol i guddio
Y bugail dirâs a'r gwyliedydd aneffro
Rhag clywed melldithion eneidiau y cyfryw
Y buont achlysur o'u myned i ddistryw?
Y rhai trwy 'u hesampl, eu pregeth, a'u buchedd,
Yn hytrach na'u harwain i wynfyd diddiwedd,
A fuont yn euog o'u gadael i gysgu
Nes dyfod y cleddyf i'w marwol drywanu.

Ond Oh mor wahanol ar randir y beddrod
Y bydd y tâd duwiol a'i deulu 'n cyfarfod,
Yr hwn a fu'n ffyddlon yn gwneud ei ddyledswydd
I'w dwyn hwy i fynu 'n athrawiaeth yr Arglwydd;
Yr hwn drwy weddïau a dagrau fu 'n ddiwyd
I'w rhoi ar y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd.
A'r fam gydwybodol fu 'n gwneuthur ei hegni
I achub pob egwyl i uniawn hyfforddi
Yr impiau anfarwol a roddai Duw iddi.
Mewn mawr ddigalondid yn fynych, ac ofnau,
Mai ofer a fyddai ei holl ymdrechiadau;
Ac etto â'i hyder ar Dduw hi ymroddai
I wneud ei dyledswydd, a doed fel y delai.
Gan ddyfal weddïo ar Dduw i roi tycciant
I'w llafur anheilwng, a'i wisgo â llwyddiant.

O'r fath gyfarfod! Pwy fyth a all fynegu
Yr hoen a'r llawenydd a fydd yn meddiannu
Y rhïaint a'u teulu, wrth wel'd fod pob aelod
Ar gael yn ddiangol, heb un ar ddisperod!
Y mab yn bendithio yr Arglwydd am roddi,
I'w arwain a'i feithrin, y cyfryw rïeni,
I ffrwyno ei awydd i ddilyn oferedd,
A'i annog i rodio ffyrdd crefydd a rhinwedd.
A'r ferch, o'r tu arall, yn dwyn ei thystiolaeth,
Mai da oedd ei rhoddi o dan eu disgyblaeth,
Yn hytrach na'i gadael i redeg yn benffol
I ddilyn y llïaws i ddistryw tragwyddol.
A'r cyfan yn tywallt, o eigion eu calon,
Ar ben y ddau rïaint eu goreu fendithion.
Yr oedd rhai wedi blaenu 'u hanwyl rïeni,
Fel blaenffrwyth eu llafur, i fro y goleuni,
A'r lleill a adawyd i selio 'u golygon
Pan yr hunasant yn angeu 'n heddychlon.
Ond ow! wedi 'r cyfan, ar un o'u hiliogaeth
Hwy gau'sent eu llygaid mewn gofid ac alaeth,
Wrth feddwl ei adael yn annychweledig,
Wedi 'u holl boen, ac yn blentyn gwrthnysig,
Ar ol bod yn wrthddrych eu pryder gwastadol,
A thestun eu gweddi a'u dagrau beunyddiol.
Weithiau yn arddangos arwyddion gobeithiol,
Dro arall yn achos o alar dwfn-dreiddiol,
Drwy ddilyn meluschwant, er gwneuthur eu gorau,
Er cerydd, er cariad, er rhyddid, er rhwymau.
Mor drwm i'r hen rïaint, o dan eu penllwydni,
A'u dydd tua hirfaith nôs angeu yn edwi,

Wrth feddwl eu bwrw i'r briddell i orwedd,
A'i adael e'n elyn i Dduw yn y diwedd!—
Yr hon a'i hymddygodd, fe allai, yn gyntaf
Sy'n teimlo arwyddion y gelyn diweddaf
Yn prysur ddynesu i dynnu ei phabell
I lawr yn falurion, i'w rhoi yn y briddell.
   Yn awr, wedi arfer pob moddion drwy fywyd,
O'i lwybrau annuwiol i'w droi a'i ddychwelyd,
O aidd am ei achub—er cymmaint ei gwendid—
Un ymgais wna etto—a'r olaf—i'w newid.
Weithion fe 'i gwahoddir i wrando ei geiriau
Dyfrifol a phwysig, ynglŷn cysgod angau.
Yn fintai alarus o amgylch y gwely
Y safant; er hyn arno ef mae hi 'n syllu,
A golwg mor hawddgar, a gwênau mor dirion,
A'i geiriau mor serchog, nes toddi pob calon.
Drwy un ymdrech olaf mae'n codi ei dwylo
I'w rhoi ar ben euog ei mab i'w fendithio,
Gan dynnu ei hanadl olaf mewn gweddi
Ar i Dduw drwy ei râs ei wir argyhoeddi.
Ond ow! er gwneuthur argraphiadau amserol,
Ymadawent fel gwlith ac fel cwmmwl boreuol;
I ddilyn ei chwantau a'i ofer gyfeillion
Mor fuan y dychwel y plentyn afradlon!
Ac felly parhäodd nes eilwaith wel'd gosod
Y tâd a'i cenhedlodd un wedd yn y beddrod.
Ond pwy welir heddyw yn do'd o'r un gweryd
Heb ddychryn na braw, ond â siriol wynebpryd,
A'i gorph a'r un ddelw a'r teulu yn gymmwys,
O dan yr un garreg a roddwyd i orphwys,

A'r gael yn y diwedd, mal crinllyd bentewyn
A gipiwyd o'r eirias cyn iddo lwyr ennyn!
O pwy all ddarlunio'r fath lawen gyfarchu
Rhwng rhïaint a phlentyn, a glywir o'r ddeutu!
Da ydoedd gan Jacob â'i Joseph gyfarfod
Ar ol, yn ei feddwl, ei larpio gan lewod;
Pa faint mwy'r llawenydd gwel'd mab yn ddihangol
Tra tybid ei larpio gan lewod uffernol!
'Henffych well, ein hanwylfab,' meddai 'r rhïeni,
Gan orllwyth gorfoledd ynt bron ag ymdorri,
'Yr hwn a gollasid yr awron a gafwyd,
'A'r hwn ydoedd farw yn awr a fywhâwyd.'
Y mab, o'r tu arall, mewn hwyl bêr-lesmeiriol,
Sy'n gwresog gofleidio 'i rïeni dedwyddol,
Gan ddïolch i Dduw am y werthfawr ragorfraint
O gael bod yn blentyn i'r cyfryw ddoeth rïaint:
'Anwylaf rïeni, gan Dduw 'n fendigedig,
'Am droi un pechadur o'i ffyrdd gwaharddedig.
'Chwychwi, drwy law Duw, a fu yn offerynnol
'I'm gweled i heddyw ar gael yn ddihangol.
'Mi wnaethum fy ngoreu i ddammio fy hunan
'A myned i ddistryw, drwy gyndyn ddal allan
'I ddilyn fy chwantau, er gwaethaf pob moddion,
'Gweddïau, a dagrau, a'ch llymmaf rybuddion;
'A medrais barhâu felly er gwel'd eich gosod
'I huno yn dawel yn rhandir y beddrod.
'Ond etto, er hynny, nid oedd i mi heddwch,
'Er maint i'r byd yr ymddanghosai 'm hyfrydwch;
'Eich pwysig rybuddion a'ch agwedd ddifrifol
'A fyddent i'm cyfarfod ymhen pob heol;

‘ I’r ffair a’r gwylmabsant y deuent i’m dilyn,
‘ A ’stafell y dawns, er y bibell a’r delyn;
‘ Fel angel y prophwyd y doent i’m cyfarfod,
‘ Heb fodd i’w hosgôi heb anafu ’m cydwybod.
‘ A thybiwn y clywwn eich adlais diriona’
‘ Yn ymholi, “ Ein mab, pa beth a wnai yma ?”
‘ Ac O ! pan yn unig, y d’ai ’ch dywediadau
‘ I uchel lefaru, uwch mil o dafodau,
‘ Nes gwneud im’ hallt wylo gan loesau cydwybod,
‘ A dirfawr resynu eich bod yn y beddrod.
‘ Yr hollfyd a roeswn i’ch cael yn ol etto,
‘ I draethu ’m cwyn wrthych, er mwyn fy nghysuro ;
‘ A thaer yr ymbiliwn wrth orsedd trugaredd
‘ Am i’r Arglwydd fy nhroi, a maddeu f’ anwiredd.
‘ A Duw o’i gariad a’i anfeidrol ddaioni—
‘ Er mor anheilwng—a wrandawodd fy ngweddi.
‘ Fe ’m cipiodd o’r gynneu, ac o fod yn elyn
‘ Fe’m dygodd i’w deulu i’m gwneud iddo ’n blentyn.
‘ Ac os myfi ddoe ydoedd fwyaf fy mrynti,
‘ Myfi ’n awr a fydd uchaf fy nghân a’m fy ngolchi.’
O rïaint dedwyddaf, mae heddyw ’n ad-dalu
Am eich holl bryder a’ch llafur diballu
Yn gwneud eich dyledswydd yn achub eich teulu.
Pob gweddi a dröwyd yn destun o foliant,
Pob deigryn i felusu cwppan eich mwyniant.

Mor wresog a bywiog yw’r llawen gyfarchion
Ar ol yr ymladdfa, rhwng anwyl gyfeillion,
Wrth weled eu gilydd yn iach ac arbedol
O’r miloedd a hyrddiwyd i fedd anamserol :

Neu rai, wedi dïoddef llong-ddrylliad echryslon,
A'u lluchio ar wasgar hyd wyneb yr eigion,
Heb wybod y naill fod y llall yn ddihangol,
Sydd yn yr un gilfach yn glànio 'n ddamweiniol.
Ond canmil mwy hyfryd fydd gwel'd y wynebau
Serchoglawn a hoff a gollasom yn angau,
Ac a roddwyd i'r bedd mor druain wrthddrychau,
Mewn galar diffuant, wylofain, a dagrau;
A chael ein hadferyd yn ol i'w cyfeillach,
Heb ofn cael ein hysgar na 'n tarfu byth mwyach;
A chlywed y llais oedd mor dra adnabyddus,
Nag unrhyw beroriaeth yn llawer mwy melus;
A gweled y gwênau oedd ddoe mor gynhesol
Nes twymno ein calon gan mor dra serchiadol;
A phawb wedi cyrraedd yr un "mesur oedran,"
Heb unrhyw wahaniaeth rhwng henwr a maban:
Mae 'r olaf ar unwaith i'w oed yn cyrhaeddyd,
A'r llall, i'r gwrthwyneb, i'w oed yn dychwelyd;
Mae 'r maban a'r henwr fel hyn yn cyfarfod,
Y naill o fro 'r bru, a'r llall o fro y beddrod.
Gan hynny pa ham mae ein Rachel yn wylo
Ar ol ei hanwyl-blant, heb fynnu 'i chysuro?
A'i chalon ar dorri o hiraeth am danynt,
A bron yn dymuno cael myn'd i'r bedd attynt!
O fam dyner galon, sŷch ymaith dy ddagrau,
A chyfod d'olygon i ganfod y borau
Y cai di wel'd etto dy wenawl anwyliaid
Yn dychwel i'th fynwes yn engyl bendigaid.

Mae bod Adgyfodiad yn ffon a chynhalydd
I'r duwiol trallodus yngwyneb pob cystudd;
Fel seren ddisgleirwych o'r nen yn sirioli
Ei dywyll nosweithiau â'i diball oleuni;
Neu 'r pren a gaed gynt mor effeithiol ym Marah,
Yn hyfryd bereiddio ei ddyfroedd trychwerwa'.
Wrth weled ei geraint a'i anwyl gyfeillion
I'r briddell yn disgyn, a'i carai yn ffyddlon,
Nes gwneuthur rhwygiadau a bylchau dïadfer,
A thorri cylymmau mor dŷnion a thyner;
Nes rhannu 'i ymlyniad, o hyn hyd ei ddiwedd,
Rhwng einioes a'i mwyniant a mangre 'u distaw-fedd.
Mae 'n 'mron yn ymsuddo dan bwys ei brudd alaeth,
A'i galon ar dorri gan ddwysed ei hiraeth.
Ond, Gristion galarus, er cymmaint yr anrhaith,
A wnaed drwy law angeu, na ddôs i anobaith;
Sŷch ymaith dy ddagrau, mae boreu yn nesu
Y gwneir y rhwygiadau a'r bylchau i fynu;
Can's os wyt yn credu farw Crist a'i gyfodi,
Fel Pen y cyfammod—mewn nerth a mawrhydi,
Felly y rhai oll yn Iesu a hunasant
A ddug Duw hefyd gydag Ef mewn gogoniant.
O foreu hyfrydol! mae yn werth myn'd i'r beddrod
Am noson i huno i aros y cyfnod,
Er mwyn yr hyfrydwch o gael cydgyfarfod
Ar foreu teg tranoeth yn bur a dibechod.
Os profi ei blentyn a wna y Tad nefol
Drwy 'i ddwyn dan ddisgyblaeth rhyw anhwyl corphorol,
Nes gwneuthur ei babell ddaearol mor nychlyd,
Heb obaith ymwared dros ystod ei fywyd,

Er treulio 'i holl feddiant yn ceisio meddygon,
A maith ymdrechiadau yn arfer pob moddion;
Ond etto myn'd waethwaeth y ceir ef, er hynny,
A'i lesgedd a'i wendid bob dydd yn cynhyddu.
Fe allai, fel Job, yn orllawn o ddoluriau
Anafus a phoenus, neu Lazarus yntau,
Yn gwaeddi yr hwyr am gael gweled y borau,
A'r borau drachefn am yr hwyr a'i chysgodau.
Neu fe allai mewn llesgedd, hirfaith, a dybryd,
A'r holl gyfansoddiad yn egwan a nychlyd,
Ysgatfydd o herwydd rhyw anffawd ddamweiniol
A ddygodd y truan i 'stâd mor gystuddiol,
Neu ynte effeithiau rhyw dwymyn boeth erchyll
Fu 'n bygwth dymchwelyd y babell yn gandryll;
Neu hwyrach ryw wendid cynhwynol yn perthyn
I'r holl gyfansoddiad, o'r bru wedi disgyn:
Ac O mor ddigalon pan fyddo 'r fath ofid
Mewn cysswllt â thlodi a dwys angenoctid,
Lle mae 'n rhaid i'r truan, er maint ei anhwyldeb,
Ennill ei fara drwy ddwys chwŷs ei wyneb;
Mor drwm ydyw gweled yr adyn lluddiedig
Yn hollol anghymmwys i'w waith gosodedig;
Ond etto er pobpeth yn gorfod ei ddilyn
I'w gadw ei hunan a'i deulu rhag newyn:
Mae braidd yn dorcalon ei wel 'd yn ymlywio
A'r gwaith oedd o'r blaen yn hyfrydwch bod wrtho,
A gwrando ei drymion a'i ddyfnion och'neidiau,
A gweled ei egwan a'i lesg ymdrechiadau;
Mae bron a diffygio, ac etto 'n ymddygnu
Wrth feddwl am gyflwr a helynt ei deulu.

Ond ow! mae ei nychdod mor fawr yn cynhyddu
Nes gorfydd roi 'i lafur a'i orchwyl i fynu,
A myned, fe allai, ymhell am gynhorthwy
Dan enwog feddygon rhyw 'Spyttŷ glodadwy,
Y lle, â'i gyd-gleifion, y caiff gyfleusderau
I draethu ei gŵyn a chymharu 'i deimladau.
O gristion trallodus, ni phery 'n dragywydd
Dy fynych ddoluriau, dy nychdod a'th gystudd;
Os ydwyt ti yma yn myn'd i orphwyso
A llesgedd a blinder bron wedi d' orlwytho;
A chodi y boreu yn llawer mwy cymmwys,
Na myn'd at dy drymwaith, i fyn'd i ail orphwys.
Os gwan a dihoenllyd yr ydwyt yn teimlo
Wrth fyned i'r gwely, wrth godi o hono,
A 'th ddygn ofidiau, dy boenau, a'th drallod
O hyd yn dy ddilyn mor ddyfal a'th gysgod:
Rhag cwbl lwfrhâu, tyr'd ac ŷf yn ddiw'rafun
O ffrydiau adfywiol athrawiaeth fy nhestun,
Yr hon sydd mor amlwg a'r heulwen yn dangos
Fod boreu hyfrydol nid neppell i'th aros;
Y boreu y cyfodi yn dy gorph newydd,
Heb lesgedd na gofid na nŷch yn dragywydd;
Wedi ei ail wneud o ddefnyddiau rhagorach,
Heb deimlo un dolur na selni byth mwyach:
Heb gur yn y pen, ac heb boen mewn un aelod,
Heb ffaeledd na diffyg, nac unrhyw anafod.
Mor heini 'r pryd hynny y gwelir di 'n dyfod,
Mal cynllun o iechyd, o wely y beddrod!
Yn gyflawn o nerth, ac yn hynawf a nwyfus,
Heb ewyn yn gwynio, na man yn anhwylus.

Byth mwyach ni leithir y llygaid â dagrau;
Ni chwyddir y ddwyfron gan ddwysion och'neidiau,
Ni ffrystir yr anadl drwy ddiffyg na chaethder,
Ni lethir yr yspryd gan bruddglwyf na thrymder;
Ni theimlir y galon yn llesg ac yn glafaidd,
Y cylla 'n anhwylus, na 'r dymmer yn farwaidd:
Mor rydd fydd y corph oddiwrth bob amherffeithrwydd,
A'r enaid anfarwol oddiwrth ei halogrwydd.

Mor drwm a gofidus yw gweled ysgaru
Dau gymmar oedrannus, a fu mor anwylgu
Yn cyd-ddwyn y baich drwy yr anial helbulus
Dros feithion flynyddoedd, mor serchog a happus.
Uwch ben eu trallodau eu dagrau gymmysgant,
Yn nhymmor eu llwydd mal y cydlawenychant!
Llawenydd y naill oedd i'r llall yn llawenydd,
A chystudd y naill i'r llall fyddai yn gystudd;
O'r un cwppan yr yfant felus neu chwerw,
Un enaid sydd iddynt, nid dau ond mewn enw.
Mewn achos o bwys, mal y cydymgynghorant,
I fynwes eu gilydd nês nês yr ymwasgant.
Mor hyfryd yw gweled yr hen bererinion
Yn helpio eu gilydd drwy 'r anial i Sïon;
Mor felus a gwresog y cydymddiddanant
Am daith yr anialwch, a'r ffordd a rodiasant,
A rhyfedd ddaioni eu Duw am eu tywys
Ar hyd y ffordd uniawn, er pob troion dyrys.
Ac am y wlad dda mor anwylgu 'r ymgomiant,
A mynych o'i grawnwin y cydgyfranogant.

I dŷ Dduw ynghyd, mor garuaidd y teithiant,
Ac yn ei wasanaeth mor dduwiol yr unant:
Drachefn wrth ddychwelyd i'w bwthyn cartrefol,
Hwy gydarolygant yr oll mor brofiadol.
Fel hyn, 'nol ymlywio â'r byd a'i helbulon,
A d'od trwy 'r un pyllau yn nyffryn trallodion,
A chyd-dynnu eu cwys dros hirion flynyddau—
Mewn perffaith gyd-ieuad—yn llyfn a difylchau;
Yn awr y mae 'r ddau i lŷn oedran yn disgyn,
A chysgodau yr hwyr o'u deutu 'n ymestyn,
A henaint a'i fyddin o fynych wendidau
Ar y ddau gyd-bererin yn gwneud ei effeithiau.
Ond os yw y gwrid wedi cilio o'r gruddiau,
Maent heddyw 'n anwylach gan amledd eu rhychau,
Y rhai sydd yn traethu, 'n eglurach na geiriau,
Mai hir fu 'r ddau gymmar yn cyd-ddwyn eu beichiau.
Is îs yn y glŷn mae y ddau yn cyd-ddisgyn,
A hŵy hŵy o hyd mae 'r cysgodau 'n ymestyn;
Ond yn ol mae 'u gwendidau yn myned ar gynnydd,
Mwy fwy 'r ymgynhalia y ddau ar eu gilydd.
O! mor drwm ydyw meddwl am eu hysgaru,
Heb obaith cyfarfod byth byth wedi hynny.
Ond yma mor werthfawr athrawiaeth fy nhestun,
I ddal a diddanu y ffyddlon gredadyn
Yngwyneb amgylchiad mor hollol ddigyssur,
Nad oes ar ei gyfer un cymmorth yn natur.
Chwi dduwiol gydweddion, fe'ch dysgir i gredu
Nad yw eich cyfeillion ond huno yn Iesu
Nes gwawrio y boreu—ar ol rhyw fèr noson—
I'w hadfer hwy etto i'ch cynnes gofleidion.

Mae 'u gwely gan Grist wedi 'i berarogleiddio,
A'r lleithder i gyd wedi 'i dynnu o hono,
A rhwymau 'r cyfammod mor dŷnion am danynt
Nas torrir gan angeu, nas llygra 'r bedd mo'nynt;
Ac er dattod modrwy 'r brïodas dymhorol,
Ni thorrir byth fodrwy 'r brïodas ysprydol;
Sêl gadarn eu hundeb â'r grasol Ben-bugail,
Na ŵyr oddiwrth freuder, na llwgr, nac adfail.
A phan ddêl Ef eilwaith i gasglu ei ddefaid
I gorlan paradwys, o gyrraedd pob niwaid,
Yna eich anwylion, yn Nghrist a hunasant,
A ddwg Duw hefyd gydag Ef, mewn gogoniant;
Ac ar làn y bedd chwi a gewch eu cyfarfod
Mewn purach cyfeillach, ac undeb diddattod.

Mor hardd yw'r tlawd duwiol yn dyfod o'i wely,
Er, hwyrach, fyn'd iddo o fro 'r Elusendŷ;
I'r lle 'r ymneillduai, yn niwedd ei ddyddiau,
Am nodded rhag henaint a'i fynych wendidau.
Hir y bu yn ymladd rhag d'od yn ddibynnol
Ar eraill am gyfraid ei fara beunyddiol;
A hynod ryglyddus ei holl ymdrechiadau
Yn dyfal barhâu ac yn gwneuthur ei orau;
A'r un mor ryglyddus y rhai sydd yn darbod
Ar gyfer y cyfryw, ymgeledd mor hynod,
A thawel, o'r diwedd, mae yntau 'n boddloni
I ddiweddu ei oes ar bwys eu haelioni,
Y lle y caiff hamdden i olrhain a dilyn
Ei bwysig fordwyaeth, o'i dechreu i'w therfyn,

A gwel'd fod pob 'storm a phob gwynt gwrthwynebol
Wedi 'i weithio yn nês i'r porthladd dymunol,
Yn yr hwn—o gyrraedd y 'storm a'i pheryglon—
Mae 'n ebrwydd yn glànio dan nodded angylion,
Y rhai a ddisgynnant i'r llwyd elusendŷ
Mor siriol a rhwydd ag i'r gwychaf frenhindŷ,
I ddwyn i ogoniant y rhai a geir yno—
Er gwaeled a thlotted—yn Nuw yn gorphwyso.
Dirodres—ond gweddus—yw darpar yr arwyl,
Gyda golwg i'w roi yn nhŷ ei hir breswyl;
Garw a dïaddurn yw 'r pedair ystyllen,
O fryswaith, ac hwyrach, o goed y ffawydden;
A brâs y wisg hirnos a roddir am dano,
O rwyddaf wneuthuriad, dan enw o amdo;
Ychydig yw'r dagrau a wlychant ei elor,
A galar y rhai sydd i'r pridd yn ei hebgor;
A chul yw y bedd, lle y bwrir ef iddo,
Wrth ystlys y rheng lle mae 'i frodyr yn huno,
Heb ddim i hynodi y llannerch yn amgen—
Lle rhoed ef i orwedd—na 'r chwyddawg dywarchen.
Ond o fynwent wael ddinôd yr elusendŷ
Y cyfyd y rhai sydd yn huno yn Iesu,
Mewn dull gogoneddus, ar ddelw eu Harglwydd,
Mor ddisglaer a'r haul yn holl nerth ei danbeidrwydd;
Tra gwelir Unbennau, o'r bedd-lŷs brenhinol,
Yn cyfodi i "warth a dirmyg tragwyddol."
Yn awr yr adferir i geraint trallodus
Y cyrph a suddasant i'r eigion twyllodrus,
Y rhai, er pob ymgais i dd'od o hyd iddynt,
Ni chlywwyd byth mwyach un sillaf am danynt.

Mor ddwys ydyw gofid eu ceraint, a'u trallod,
Na chawsent eu dilyn yn barchus i'r beddrod,
A'i fynych ireiddio â'u dagrau tryloywon,
A'i gylchol addurno â blodau teleidion.
Mae meddwl eu gadael, i'w calon yn alaeth,
Heb arch, ac heb amdo, nac arwyl wasanaeth.
Ac, yn eu meddyliau, y maent yn dych'mygu
Eu gweled hwy o dòn i dòn yn ymdaflu
Hyd waelod yr eigion, heb nodded na chysgod,
I bysg annymunol yn ebyrth rhy barod.
Ond O wir gredinwyr! os ydych yn credu
I'ch anwyl berth'nasau "huno yn yr Iesu,"
Chwi gewch, er eich cyssur, eu gweled hwy etto
Yn ganmil hawddgarach, na phan yn ymado,
Er pob galanastra a difrod wnaed arnynt
Gan wangcus breswlwyr yr eigion a'i gerhynt.
Yr hyn ni wnai llafur na 'r gwobrau helaethaf,
Yn awr a gwblheir gan yr udgorn diweddaf.

Mor drwm a galarus yw 'r fun ddyweddiedig,
'R hon, cyn d'od yn brïod, a adwyd yn unig.
Ar un, drwy 'r holl ddaear, y rho'i ei serchiadau,
A'r un, drwy 'r holl ddaear, i hwnnw oedd hithau.
Eu cariad y naill at y llall oedd angerddol,
Ond etto 'n ddihalog, a diwair, a moesol.
Yr oedd eu tymherau a'u pennaf nodweddion
Mewn perffaith gydasiad, yr un wedd a'u calon;
Ynghwmni eu gilydd yr oedd eu paradwys,
Lle byth ni freuddwydient fod un sarph yn gorphwys;

A mawr y gresynent pan ddeuai yr amser
I luddio, dros dro, y gyfeillach felusber;
A dwys yr hiraethent am wel'd y boreuddydd
I'w gwneuthur yn un, a chael bod gyda 'u gilydd,
I gysson gyd-drigo a chydgyfeillachu,
Heb achos ymadael, na'u mynych ysgaru.
Ond ow! cyn i'r boreu dedwyddol hwn wawrio,
Mae 'r angeu anhostur â'i saeth yn dod heibio
I wânu 'r prïodfab, cyn dyfod yn brïod,
A gado 'r brïodferch i ry-gynnar weddwdod.
Ond pwy sydd i fyned a'r newydd trist iddi,
Rhag ofn, trwy ei effaith, ei gwel'd yn gwallgofi,
Neu'n d'od yn bensynnawl a hollol ddifatter
Am bobpeth, dan bwys ei gorlwythog orthrymder.
Mor drwm yw ei gweled, ar ddiwrnod yr arwyl,
Yn ei ddilyn i'w roi yn nhŷ ei hir breswyl,
Yn lle at yr allor i'w llawen gyssylltu
I ddedwydd gyd-fyw, yn eu darpar luest-dŷ!
Mor brysur a diwyd y mae ei hadgofion
Yn olrhain a thraethu ei ddirif ragorion,
Ei wênau cynhesol, a'i dirion edrychiad,
Ei ddiball ffyddlondeb, a'i serchog ymddygiad.
Mae bron ag ymdorri yn ddrylliau gan alar,
Wrth feddwl bod oll a fwynhâi ar y ddaear
Yn yr arch a'r amdo, yn cael eu hebryngu
I'w gadael yngwaelod y gweryd i lygru!
Pwy byth a all adrodd dyfnderoedd ei thrallod!
A phrin y'i hattelir rhag disgyn i'r beddrod
I orwedd yn ystlys ei hunig anwylyd,
I dawel gydhuno mewn hedd a dedwyddyd.

Ti athraw anffyddiaeth, pa le mae dy gyffyr
I leddfu 'r fath ing, a llinaru 'r fath ddolur?
Ond, rïan drallodus, er cymmaint dy dristwch,
Na ddos i anobaith, gwel yma 'th ddiddanwch,
Os rhoed dy anwylddyn i "huno yn Iesu,"
Fe gyfyd ryw ddydd yn fil harddach i fynu;
Cewch etto 'ch cyssylltu mewn undeb annattod,
I gydfyw yn Salem i oesoedd diddarfod,
Lle ni ddaw marwolaeth, dros fyth, i'ch ysgaru,
Nac unrhyw anffodion am unwaith i'ch tarfu.

DIWEDDGLO.

Mor brysur yn awr drwy bedwar-gwynt y nefoedd
Y mae yr angylion i'w gweled, yn llengoedd,
Yn fwy chwim na 'r goleuni yn eu hysgogiad,
O begwn i begwn y saethant ar eiliad.
I gasglu ynghyd yr holl etholedigion
O dan yr holl nefoedd drwy 'r byd a'i holl gỳrion.
Ond pwy yw y gwrthddrych, mor dra hynodedig,
Draw accw a welir mewn agwedd fawryddig?
A dyfroedd y môr yn safle ei droed dehau,
Y rhai dàn ei bwys a ostegant eu tonnau;
A'r llall ar y ddaear a welir yn gorphwys,
Yr hon, i'r fath gadarn, sy'n droedfaingc mor gymmwys.
Ei ben a addurnir â'r enfys amryliw,
A'i wedd sydd mor danbaid a'r haul, a disgleirwiw;
A'i draed fel colofnau o dân sy'n enynnu,
A chwmmwl ei wisg, saith waith wedi 'i channu.
Fel hyn tra ar y môr a'r sychdir y sanga
Ei law tua 'r nef yn ddifrif-ddwys a ddyrcha,

A thynga i'r Hwn sydd yn byw yn oes oesoedd,
"Ni bydd amser mwyach;" aeth heibio byth bythoedd.
Mae'r holl grëedigaeth yn clywed y geiriau,
Drwy 'i phellaf eithafion y traidd eu heffeithiau.
Mae 'r haul yn tywyllu, gan attal ei lewyrch,
A'r lloer yn troi 'n welw ynghanol yr entyrch;
Wele y ddaear ar ei hechel yn sefyll,
Tra y ceir un adran o honi yn dywyll,
A'r rhai y machludodd yr haul arnynt gynnau,
A ofer-ddisgwyliant am wawrddydd y borau.
Mae'r llanw, wrth weithio ei ffordd tua'r glannau,
Heb attreg yn attal ei ymchwydd a'i donnau:
A'r morwr traethedig sy'n disgwyl yn ofer
Ei weled yn dyfod, yn unol a'i amser.
Ni ddychwel ef byth i gyfodi 'i long etto,
Mae yr holl bethau cyntaf wedi myn'd heibio.
Fe ddarfu 'r tymhorau yn rhedeg eu cylchoedd,
Mor gysson a dichlyn, a dyddiau y nefoedd.
Byth mwyach ni welir y Gauaf afrywiog
Yn cael ei lon ddilyn gan Wanwyn blodeuog,
Na 'r Gwanwyn gan Hâf â'i dês i addfedu
Cynhyrchion y ddaear, na 'r Hydref i'w casglu.
Ni nodir hynt amser byth mwy gan gylch-rodau
Blynyddoedd na misoedd, wythnosau, na dyddiau.
Fel ebyr mewn môr yn ymarllwys yn hollol,
Y llyngcwyd y rhai'n yn y cefnfor trag'wyddol.

Wele 'r angylion eu gwaith ar gyflawni
O gasglu, 'n ddau ddosparth, yn dyrfa aneiri'.

Ond O! 'r fath ysgaru a welir yr awron,
Heb eiriau i'w draethu 'n nhafodiaith marwolion.
Canu 'n iach! ïe, canu 'n iach yn dragwyddol,
A hyn rhwng cyfeillion fu 'n fwyaf mynwesol!
Nid mynych, yn awr, y daw dros y gwefusau
Yr olaf Ffarwel, ond yn gymmysg â dagrau;
A hynny pan fyddys mewn gobaith dïymmod
Nad pell ydyw 'r dydd y ceir etto gyfarfod.
Ond pwy a all oddef y Ffarwel byth bythoedd,
Heb obaith cyfarfod un waith yn oes oesoedd,
Na gweled wynebau eu gilydd byth mwyach;
Rhwng nefoedd ac uffern ni bydd un gyfathrach.
O fangre y beddrod y gwr a gymmerir,
Ysgatfydd, a'r wraig yn ei hing a adewir;
Neu, fe allai, mai hi a welir yn esgyn,
Ac yntau ar ol mewn cyfyngder a dychryn;
Y rhai fu yn *cyd*-dynnu o dan yr iau gnawdol,
Ond etto 'n *gwrth*-dynnu o dan yr ysprydol.
Ond O! y cip-golwg hiraethlawn a roddant,
Y naill ar y llall, tra am byth y gwahanant.
Mor drwm a fydd gweled ysgariad diddiwedd
Rhwng y rhai a fu yn yr un bru yn gorwedd,
Y rhai oll o *un cnawd* a gawsant eu geni,
Ond oll ni ddorasant am gael eu *hail*-eni.
Rhïeni a phlant sy'n cael eu hysgaru
Na welant wynebau eu gilydd ond hynny.
Fe allai mai 'r rhïaint sy'n troi tua 'r Ddehau,
A'u hil tua 'r aswy yn drist eu crôch-lefau;
Neu hwyrach mai'r plant i'r Ddehau a arweinir,
A'r rhïaint i'r aswy yn gymhlith â'r anwir;

Pwy byth a all draethu yr ing a'r gwasgfeuon
Ar randir y beddrod a deimlir yr awron,
Pan ddelo yr adeg i'r rhai fu mor unol
I draethu 'r tro olaf y FFARWEL DRAGWYDDOL ?

Y ddwyblaid sydd weithion yn cael eu cyflëu
O flaen yr orsedd-faingc oruchel i'w barnu,
Y cyfiawn mewn Gosen o berffaith oleuni,
A'r anwir mewn Aiphtaidd dywyllwch yn delwi.

Yn awr y cyflawnir yr hyn a 'sgrifennwyd,
Angeu mewn llawn fuddugoliaeth a lyngcwyd.
Os mawr oedd gorfoledd hil Iago 'n dychwelyd
O diroedd y gogledd a Babilon aethlyd,
Ar ol torri 'r pyrth prês, a dryllio 'r byllt heïyrn,
I'w hadfer i'w gwlad fel o ddyffryn yr esgyrn;
Os mawr oedd llawenydd y rhai'n pan y gwelsant
Ar y cyntaf o bell hardd dyrau 'u hen drigiant,
Os uchel eu cân am y gwaredigaethau
A ddygai Duw iddynt, a'i faith ryfeddodau,
O beth a fydd cyd-gân yr holl rai gwaredol
Yngolwg pinaglau 'r Jerusalem nefol,
Pan wneir o bob llwyth, iaith, cenedl a phobloedd,
Un côr gorfoleddus o ddirif niferoedd;
Pan ddont yn finteioedd heb aelod yn eisiau
O'r Dwyrain, Gorllewin, y Gogledd a'r Deau,
I'r làn o gaethiwed marwolaeth a'i rhandir
O Abel, y cyntaf, i'r olaf a gedwir:
Ffyddloniaid y cynfyd, fu hwyaf yn disgwyl
"Prynedigaeth y corph" a gwawriad yr egwyl,

A'r rhai a newidir heb weled marwolaeth
A'r unwaith i feddiant o'u llawn brynedigaeth :
Pob llais fydd mewn hwyl, a phob tant fydd yn gydgor,
A phob un yn Asaph, yn berffaith ben-cerddor ;
Ond pwy all ddych'mygu, heb sôn am ddisgrifio,
Effeithiau y côr digyffelyb yn seinio
Eu cân orfoleddus mewn llawn oruchafiaeth,
* * * * ' Angeu a lyngcwyd mewn buddugoliaeth :
' O Angeu, pa le y mae heddyw dy golyn ?
' O Fedd, pa le mae 'th fuddugoliaeth a'th ddychryn ?
' I Dduw y bo 'r dïolch, yr Hwn, drwy farwolaeth
' Ei Fab, sydd yn rhoddi i ni 'r fuddugoliaeth :
' TEILWNG YW'R OEN yr Hwn a laddwyd, i dderbyn
' Anrhydedd, gogoniant, a moliant diderfyn.'

Fy Nuw, boed i minnau â'r côr gael ymuno
P'le bynnag y byddwyf o'r pridd yn dihuno.

AMEN.

YNYSWR.

[GWEL TU DALEN 73.]

**Drwy ryw anffawd neu gilydd,—yn y brys i gopïo y Cyfansoddiad fel y byddai yn llaw Ysgrifennydd yr Eisteddfod ar yr amser pennodedig—gadawyd yr Adran ganlynol allan; a chan na fu o flaen y Beirniaid, dodir hi yn y fan hon, yn hytrach nag ynghorph y gwaith, gan ddeisyfu ar y Darllenydd fod gystal a chymmeryd y llinellau i mewn yn y lle y cyfeirir atto, sef tu dalen 73, rhwng y 10ed a'r 11eg linell:**

Ond o bob rhyw edliwion gwaethaf o'r cyfan
Ynt lle mae y dynsawd yn troi arno 'i hunan,
Pan y mae yn dyfod yn hunan-edliwydd,
Ac awdwr ofnadwy ei hunan-gnofëydd.
Ar erchwyn y gweryd y gwelir e'n sefyll
A'i fynwes yn uffern frwmstanaidd a theryll;
A'i lygaid gan loesion a gwae yn hylldremmu,
A'i wyneb, gan ddygnedd ei ing, yn gor-lasu;
A'i enaid a'i gorph wedi 'u llenwi gan artaith
A gloesau 'r ail angeu a didrangc anobaith;
Tra mae 'n edrych yn ol ar dymmor ei brofiad,
I wneuthur pryderus a sobr ymholiad,
Trwy ystod y cyfnod—pa fodd yr ymddygodd,
Yn ol y talentau a'r moddion a gafodd;
A chael yn y diwedd achlysur i ochain—
A hi 'n rhy ddiweddar—a diles wylofain,
A d'wedyd, "Pa fodd y casëais i addysg,
Y dirmygodd fy nghalon gerydd yr hyddysg;
Ac na wrandewais i ar lais fy athrawon,
Na gostwng fy nghlust i'm dysgawdwyr serchoglon?
Fe 'm ganwyd yngwlad yr efengyl a'i breintiau;
Mi glywais ei hudgorn fil miloedd o weithiau.

Ac O! na chawn unwaith ei glywed ef etto
Yn lle y crôch udgorn sydd heddyw yn seinio!
Fry ar yr orsedd mae 'r Hwn fu mor ddiwad
Yn curo mor daer wrth fy nrŵs am dderbyniad,
Gan erfyn mewn geiriau toddedig a mwyngu,
O agor i mi, a dyro imi lettŷ.
Mae adlais pereiddfwyn a dengar ei eiriau
Yn awr yn adseinio fel doe yn fy nghlustiau;
Tra 'i ben bendigedig â gwlîth a ddefnynnai,
Gan mor ddyfal-barhâus a hwyr yr arhosai.
Ond medrais sicrhâu fy nôr yn ei erbyn,
A dewis llochesu 'i brif fradwr a'i elyn.
Pa ryfedd, gan hynny, fod drŵs ei drugaredd
Yn awr wedi 'i gau arnaf finnau o'r diwedd?
Fy llaw i fy hunan a yrrodd y bolltau,
Fy llaw i fy hunan a dröodd y cloiau;
Fy llaw i fy hunan a dyrrodd bob defnyn
O'r gwaed a geir heddyw 'n gorchuddio fy nghoryn;
Fy llaw i a gasglodd drysorau diddiwedd
Holl fellt a tharanau y dwyfol ddïaledd;
Fy llaw i fy hunan a hogodd y cleddau,
A fagodd y pryf, a ennynnodd y fflammau;
Fy llaw i a luniodd bob modrwy o'r gadwyn
I'm dwylaw a'm traed sydd i fod yn fyth rwymyn.
Fe roed imi amser yn amser serchowgrwydd,
Ond mi a'i gwastreffais i ddilyn ynfydrwydd
Mi gysgais dros dymmor fy haf a'm cynhauaf,
Yn hytrach na darpar ar gyfer y gauaf.
Pa ryfedd, gan hynny, i'r udgorn fy neffro
I weled y cynhauaf wedi myn'd heibio?

A'r haf wedi darfod, a'i freintiau arbennig,
A minnau, ysywaeth, heb fod yn gadwedig!
O pa fodd y bu imi ymddwyn mor ynfyd
A dewis marwolaeth, a gwrthod y bywyd?
Pa beth a'm meddiannodd i ddewis y felldith,
A bwrw oddiwrthyf a gwrthod y fendith;
A rhoddi 'r flaenoriaeth i wagder munudol,
A chwbl ddibrisio dedwyddwch anfarwol?
Pan oeddwn yn glaf, mi wrthodais y meddyg;
Ac er bod yn noeth, mi wrthodais y ddiwyg;
Er dyddfu gan syched, i'r dyfroedd ni ddeuwn;
Er marw o newyn, y wledd ni archwaethwn.
  O ddedwydd baganiaid, drwy 'r byd a'i wyll gonglau,
Gwyn fyd na 'm ganesid yn un o'ch gororau,
Lle 'r unwaith ni chlywswn am GRIST i'w ddibrisio,
Na rhâd iachawdwriaeth i'w llwyr esgeuluso!
  Un enaid a gefais i'w golli neu 'i gadw;
Myfi fum mor greulon a hunan-ladd hwnnw!
Yn iach am un awr gymmeradwy ond hynny;
Yn iach am un cyfle i ddyfod at Iesu;
Yn iach wel'd un Sabboth byth mwyach yn gwawrio;
Yn iach glywed udgorn y Jubili 'n seinio;
Yn iach am un cyfle i dderbyn y cymmod;
Yn iach am un ffynnon i olchi fy mhechod;
Yn iach am orseddfaingc y grâs i fyn'd atti,
I erfyn maddeuant o'm beiau aneiri';
Yn iach addewidion a thaer wahoddiadau,
Ysgolion Sabbothol, a phob ordinhadau;
Yn iach i lawenydd y nef yn dragwyddol,
A chroesaw fyth waeau ac angau anhrengol;

Croesaw Gehenna a'th holl boenau amryfodd !
Dy bryf nad yw 'n marw, a'th dán nad yw 'n diffodd !
Tyr'd, agor dy ddorau i dderbyn i'th eigion
Yr un truenusaf o'th holl druenusion !
  O pwy all ddych'mygu cyfyngdra 'r pechadur
Pan ddel ag e 'i hunan mewn rhyfel anhostur !

# AWDL AR YR ADGYFODIAD,

## TESTUN YN

# EISTEDDFOD RHUDDLAN,

## 1850.

---

## CYNWYSIAD.

DYFODIAD pechod i'r byd yn agor y llifddorau i afiechyd, clefydau, heintiau, ac angau—Helaethrwydd llywodraeth angau —Y bydd Adgyfodiad—Yr athrawiaeth yn anhysbys cyn cael datguddiad dwyfol—Natur yr Adgyfodiad—Engraff o hono yn y greadigaeth drychfilog, ac yn y greadigaeth lysieuol—Duw yn unig a wyr yn mha le y mae defnyddiau y corff a fydd, a pha fath ydynt, ac mai efe yn unig a all ei Adgyfodi—Y cyfnewidiad a wna angau ar y corff—Hau mewn llygredigaeth, mewn anmharch, mewn gwendid, yn gorff anianol—Y corff a fydd a'i ragoroldeb—Y dyn yr un drwy holl droion ei yrfa, yr un yn angau, ac yn yr Adgyfodiad—Crist wedi ymddangos yn y cnawd, ei ddyoddefaint, ei farwolaeth, ei gladdedigaeth a'i Adgyfodiad—Mai ei Adgyfodiad ef yw sail Adgyfodiad y corff—Yr Efengyl yn cael ei phregethu drwy yr holl fyd—Y milflwyddiant —Athrylith, dysg, a golud yn cael eu dwyn at wasanaeth crefydd—Dadfeiliad ar grefydd megis yn nyddiau Noah cyn ym-

ddangosiad y barnwr—Y byd mewn annuwiaeth yn myned yn mlaen yn ei orchwylion gyda bywiogrwydd—Arwyddion disymwth fod diwedd y byd yn nesu—Anian yn clafeiddio ac yn pruddâu—Yr orymdaith o angylion yn dyfod gyda y barnwr, eu bloeddiadau yn seinio drwy yr eangderau nes cyffroi y bydysawd—Dynion yn ffoi oddiwrth eu gwahanol orchwylion—Caniad yr Udgorn yn effeithio nes agor y beddau—Rhanau lawer o'r ddaiar yn orweddleoedd y meirwon—Y dyrfa yn ymddangos o flaen y barnwr—Yr Iuddew yn ei nabod—Y Twrc a'r Pagan yn cywilyddio—Enoch ac Elias yn y corff—Darganfyddiad bedd Moses—Y Ganges yn cywilyddio—Brahminiaid yn syrthio i warth—Adda ac Efa yn ymddangos—Noah ac Abel yn cyfodi—Ogof Maes Machpelah yn agor i Abraham a Sarah—Holl wlad Canaan yn ymgynhyrfu drwy lef yr Archangel—Paul yn gweled buddugoliaeth ei ffydd—Job yn ymlawenâu yn ei Brynwr—Newid y rhai a adewir—Cofarwyddion yn darfod eu gwaith—Yr ywen hen—Llawenydd y saint am eu gwaredigaeth—Angau yn trengu—Y ddwy dorf—Mynediad y saint adref—Y byd ar dân—Y corff a fydd o ran ei ansawdd—Defnydd cân dragywydd y gwaredigion.

# AWDL AR YR ADGYFODIAD.

---

Dygodd pechod farn a malldod,
Yn ei waelod ar ddynoliaeth;
A dygwyd llygredigaeth,—trueni,
Anmhura' weli trwm a marwolaeth.

Dwyn i henaint ein heinioes,
A gwanâu wna egin oes;
Heibio 'r aeth oes rhai 'n y bru;
Hunodd rhai newydd wenu.

Daeth darfodedigaeth dwys,
Heb gur, heb lafur, heb loes,
A dŷn â gwen, dan y gwys,
Amryw un yn more 'i oes.

Fe rychai haint y frech wen—â'i wenwyn
  Wyneb llawer Elen;
  Drwy oes byd, llu mawr dros ben,—gadd angau,
  Wedi 'r niweidiau fu draw yn Eden.

Yn mhob oes, y mae y byd,—a'i luoedd
  Dan ei law bob enyd ;
  Herlodesau, llanciau llon,
  Gwyryfon hygar hefyd.

Cardotwr, crefwr o'r cryd,
Neu d'wysog dan draed esyd.

Ef o ddirwanc fu 'n agor llifddorau
Fyrdd i wewyr i foroedd o waeau ;
Gwelaf adwyth ac ol ei glefydau,
Yn lluchiaw dinystr drwy'r lluchedenau ;
Wele 'u harwyddion a'u hol ar ruddiau
Ydoedd welwlas—'n awr gwynias yw'r genau :
Mae llu o lidiog finiog elfenau
Ar hyd yr entyrch, lle rhodia 'r heintiau ;
Y geri marwol, ysol ei loesau,
A drwy y gwledydd, yn ei dreigliadau,
I ddwyn o'r byd fyrddiynau,—yn llaw Naf,
Rhed draw i eithaf ymerodraethau.

Y miniog wyllt dwymynau—yn y pen,
  Cryd poeth a'i losgiadau,
  Ysgythrant, ysant oesau—i'r cleidir,
  Unig le noddi 'r holl gelaneddau.

Hynt niweidiol haint y nodau,—yn llym
  Fu 'n lladd cenedlaethau ;
  Newyn certh, bu hwnw 'n cau,
  Ei ddanedd am fyrddiynau.

Drwy gur annedwydd, daiargryniadau,
Yrodd ynysoedd a hardd ddinasau,
A'u holl breswylwyr a'r lle bu'r seiliau
I'w hygar neuaddoedd yn garneddau;
Rhyw filoedd wysiodd rhyfeloedd oesau
O wyr ieuengaidd, i safn yr angau;
Meusydd a gochwyd, fe drochwyd rhychau
Yd melynwawr â gwaed y miliynau;
E wnaeth i'r wendon hithau—fod yn ddig,
Rhedai goraddig ddwfn wrid i'w gruddiau.

Llofruddiaethau, hunleiddiadau,
Eu niferau sydd yn fawrion,
O ri' y ser, er y son—am Gain ddu,
Lofrudd cyntaf fu 'n nheulu dynolion,
Yr hwn aeth i dir Nod—mewn gwrthryfel,
Ie, gwaed Abel ar ei gydwybod.

Gyra i ddwfn-fol gweryd—dylwythog
  Genedlaethau 'r hollfyd;
  Hir einioes, fel ber enyd,
  Dirwynia i ben archdeyrn byd.

Hyd anial barthoedd, dynol aberthau,
Lanwai y ddaiar, gaiff eilun dduwiau;
A lliwiai araf fwg eu hallorau
Heb ri' y maesydd, a'r wybr am oesau;
Rwydded mae pob graddau—mewn dallineb,
Yn llwybro i wyneb erchyll beirianau.

Pwy a rif ddirif ddewrion—dïarfog
  Y dorf o ferthyron?
  Lludw y fawr gyn'lleidfa hon,—drwy 'r oesoedd,
  Dduai y moroedd afonydd mawrion.

Eto daw i'r saint eu dydd—hwy godant
  O geudod mynwentydd;
  A gelwir gyda 'u gilydd—ar eu hol,
  Y rhai annuwiol fyny o'r newydd.

Pwy ond ein Naf—pa un dan y nefoedd
Soniasai eisoes,—ïe, 'n oes oesoedd,
Am i rai meirwon lamu o'r moroedd,
Ac o weryd, daiarfyd, yn dorfoedd?
Rhoe athronwyr, ymholwyr* eu miloedd,
Yno i golli, yn ei ddwfn gelloedd,
Heb obaith gweled eilwaith ardaloedd
O wir fywyd ar ol eu gyrfaoedd;
Oes ar ol oes a aeth i oer lysoedd
Ei briddfan tywyll yn brudd fynteioedd;
Ni thröai yn ol o'i ddyeithr niwloedd
Neb i dd'wedyd beth yn y bedd ydoedd;
Llewyrch roes gair Duw 'r lluoedd—ar ei bryd,
Dyga ef fywyd i'w ogofäoedd.

Onid oes mewn llindysyn†—a'i feroes,
  Wrth farw 'n ei blisgyn,
  A chodi mor wych wed'yn,
  Eglurâd goleu ar hyn?

* Disputers, 1 Cor. i. 20.   † Caterpillar.

Wedi bod enyd a byw,—yn y dail
Gan fodoli 'n lledfyw,
Am ryw hyd marw ydyw;
O fewn ei arch gwyfyn yw.

Yn ei adeg, hwn, wed'yn,—ysiga
Nes agor ei blisgyn;
A daw, fel hardd flodeuyn,
Yn lliwiau 'r ardd, neu 'n llwyr wyn.

Ni ddaw eilwaith i'r ddalen—i fyw 'n ol,
E fyn wel'd y wybren;
A myn haul twymyn ei wen—i'w loni,
Uwch awyr wedi i chware 'i aden.

Yn wyneb hyn mewn anian—pwy a wad
Y pwnc drwy'r pedryfan,
Na ellir ail ddwyn allan
Ddynol hil, o'u beddau 'n lân?

Anfeidrol Ion a fedra—eu rhyddâu
Mor hawdd a chreu Adda;
Dwyn o lwch, bob dyn lecha,
Dan y wybr, ein Duw a wna.

Beth ydyw pob bath o hedyn,—neu bren,
O'r brig hyd y gwreiddyn,
Neu yr allt—neu ir welltyn,
Ddiwedd oes, ond bedd i ddyn?

Ar y dw'r, oes ryw aderyn—a nawf,
  Neu un 'hed, neu filyn,
  Neu basgedig bysgodyn
  Na ddwg ryw gyfran o ddyn?

Un fynwent yw'n hafonydd,—y moroedd,—
  Tir mawr,—awyr,—coedydd;
  Hi dŷn i'w chroth ein deunydd—i'w gadw,
  Wedi ei farw, dan law 'n hadferydd.

Ac ni ŵyr y cyniweirydd—mwyaf
  Ai mewn môr, ai mynydd,
  Neu awyr, mae'r corff newydd,
  Na pha fath yw'r corff a fydd.

Ein Ion a ŵyr yn unig—yn mha le
  Mae 'i lwch gwasgaredig;
  A'i law i drefn o le 'i drig,—yn berffaith,
  Ddaw a hwn eilwaith o'i wedd anelwig.

Er drwy farwolaeth i genedlaethau
Fyn'd yn dorfoedd, llengoedd, yn llaw angau,
I'w difa 'n hawdd, a throi 'u defnyddiau
Yn lludw mân, yn llwyd domenau,
Neu i anelwig bridd yn eu holau,
A moeth i gynal maeth i eginau:—
A phe y rhenid cyrff â pheirianau
Neu, rhwng bwystfilod, milod llym aeliau,
Neu adar awyr hynod eu rhywiau,
Geir yn wylltion mewn crog eirwon holltau,

Daw Ior, o'r holl ddyfnderau—mewn mynyd,
Wedi daw 'r enyd, o hyd i'w rhanau.

Y gronyn roir mewn grwnar,
I fyw 'n ol, o bridd dwfn âr,
Nid all gyfodi i dw',
Na byw fawr heb ei farw,
A Duw a rydd wedi i ran
Hwnw ei gorff ei hunan.

Wedi i fawr Auaf du, afrywiog
Grino y dolydd a'r coed grawn deiliog,
Rhewi croew ebyr ochrau cribog,
Ysu 'n llygradwy 'r rhosyn lliw gwridog,
Ein gerddi 'r Gwanwyn gwyrddiog,—wnant fywâu,
E gwyd y llysiau 'n gadau lluosog.

Wedi am hir dymhorau—in' aros
Yn nhir cysgod angau,
Daw o'r dyfnfedd, culfedd cau,
Yn Wanwyn arnom ninau.

Newidiwr pob rhyw nodwedd
Drwy y byd oll ydyw 'r bedd,
E faidd e—ni fydd haiach,
A gwneyd ei ol ar gnawd iach,
Yr ireiddiaf, lonaf lanc
Dry 'n wyw, mewn oedran ieuanc.
Yr hardd wrid newid a wnaeth—mae'r ddelw
Heddyw yn welw—Ow, Ow, ddynoliaeth!

Rhy wael yw ein marwolion—i aros
  Yn nhir y bywiolion ;
  Anedd y bedd yn union,—i'w hebgor,
  A geir yn agor, i'n gwir enwogion.

Ni ellir o hyn allan—ado i neb
  Fod yn ei dŷ 'i hunan ;
  Rhyhwyr cael yn y graian
  Le i roi ei farwol ran.

Hauir, a bwrir i'r bedd—y mwyaf
  Fel mewn anmharch rhyfedd ;
  Yn brudd mae, oer bridd a'i medd,—a feddai
  Heibio a fwriai mae heb ei fawredd.

Tir angof yw y lle trenga,—nid oes
  A'i dŷ fawr ymwela,
  I fyw yn hir, ni fwynha,
  Y fam ei chartref yma.

Hi welir am ei hanwyla'—'n wylaw
  Ar ael ei fedd amla' ;
  Elen ddwys o galon dda,
  O'r diwedd, lwyr adawa'.

Ei maban o liw 'r manod—na allai
  Ei ollwng o'i gwyddfod
  Edy 'n awr—onid yw 'n od ?
  Yn y duoer fân dywod.

Y glana', 'r hardda' ei wrid—fu hoewaf
  A heuir mewn gwendid;
  Ni ddeil ef dranc a'i ddulid—pan y dêl,
  A min ei awel, pob gwedd mae'n newid.

Ni fu 'r un, drwy fawr henoed,
Mor wan, mor hwyrdrwm, erioed,
Ag yn nydd trwm y gwanâu
Gan ing arfogion angau;
Yn ei dŷ symud nid all
O'i orwedd heb help arall:

A rhai ereill pan yr oero—ei gorff
  A'i gwisg ef ag amdo;
  Ac ereill fydd yn cario—hwn i'r bedd,
  O'i hen gyfanedd, i'w gau ef yno.

Huna yn gorff anianol—agored
  I guriaw 'n wastadol;
  Ond drwy nerth troa yn ol—o'r du laid,
  E ga ei enaid dŷ tra gwahanol.*

Ni welir unrhyw waeledd
Yn ei ddull a'i newydd wedd,
Neu aml gur, na moel goryn,
Neu un o'i wallt yn troi 'n wyn;
Na rhychau angau na 'i ol
Ar ei wyneb tirionol;
Anaf ar ei glyw ni fydd
Neu wywiant drwy 'r corff newydd;

* 1 Cor. xv.

Mwy ni fydd ei gam yn fyr
Na gwaew nac un gwewyr,
Neu weli mewn un aelod,
Neu yn ei ben wyn yn bod;
Deil ei gorff heb anadl gaeth,
Anmhuredd nac anmhariaeth;
Ei olwg byth ni waela
Yn ei ol, pylu ni wna;
Deil ar burdeb, heb wanhau,
I edrych heb ei wydrau;
Nid drwy syllddrych gwych y gwel
Aneirif lygyrn oriel
Nef, heddyw, ond canfyddir
Hwy 'n amlwg â golwg wir;
Fel y mae fe wel, mwyach,
Hwnw 'i hun a'i dyg yn iach;
A bydd gyffelyb iddaw
Y dydd ar gwmwl y daw.

Er ei ddwyn mor ddiana'—i'r urddas
A'r harddwch perffeithia',
Ei enaid a adwaena
Yr ail gorff anfarwol ga.

Yr oedd y gwr ar wedd gu—yn dyner
Dan law ei fam fwyngu;
Serchus, gofalus a fu—pawb o'i dras
Am gael ei addas wir ymgeleddu.

Yn mlaen o dan ymloni—efe ddaeth
Wrth fodd ei rieni,

O liw alarch neu lili,—yn febyn
Gwyn, ben fèlyn, a phawb yn ei foli

Ei felynwallt fu luniaidd
Ar ei war, modrwy i'w wraidd,
Ond y gwrid yn ei deg rudd
Roddai wawr ar ei ddwyrudd;
A deuai ef o'r diwedd
Yn fwy 'i chwim—cryfach ei wedd—
Yn well ei dw'—'n llaw ei dad—
I'w ddilyn i'r addoliad—
I feddwl am gryf addysg,
I rodio hardd lwybrau dysg;—
Yn ddyn, yn fuan, e ddaeth
I gyraedd mawr ragoriaeth;
Ond o'i rwysg, gan flinder oes,
D'oi hwn dan wendid einioes,

Ei ruddiau roent arwyddion—o lesgedd,
Ymlusgai 'n ddigalon;
Ai yn wanach yn union,—o'i aelwyd,
Ei fwrw a welwyd, at farwolion.

Er hyn, drwy'r mawr wahaniaeth
Y dyn yn *arall* nid aeth,—
Yr hwn ddechreuai 'r einioes,
Oedd yr un ddiwedd yr oes,
Heb newid, ran hunanedd,
Yma un dim ond ei wedd:

Daw yn ol y *dyn*, eilwaith,
O'i dŷn fedd, wedi hun faith,
Heb wybod i'w hên babell,
Dra gwael ond newid er gwell.

Y dyn am byth adwaena—ei hun, drwy
Holl droion ei yrfa;
Wed'yn ei hun nabod wna,
Hwn, eilwaith, y farn ola'!

I wared dyn o'i anwiredd,—a'i ddwyn
O ddinystr y dyfnfedd,
Iesu cu, Tywysog Hedd,
Roes gymod dros ei gamwedd.

Anhyfryd boenau afrif
Yr ardd un angel ni rif;
Ei ing ef ni anghofir,
Na'i ddwys gri na'i weddi wir;
Pan oedd y gwr, prynwr prid,
Yn ufudd yn ei ofid,
Ar ei wyneb eirianwawr,
A'i ddwy lin ar y gwyrdd lawr,
A dagrau brwd, o gur bron,
Yn ei liw gar olygon,
A'i waed yn treiglo wed'yn
Ar y gwellt drwy 'r barug gwyn.

Anian oedd yn llonyddu,—ednod aent
Dan y dail i lechu;

Y môr mawr a'i rochfawr ru
Gan orfod heb gynyrfu.

Awelon yn noswyliaw,—heolydd
Caersalem yn ddystaw,
Gwyr y llys, er hyn gerllaw,
A'r bradwr hy' heb wridaw.

Ond â grym yr ochenaid gre'—torid
Dystawrwydd y nwyfre,
Miniog loes Gethsemane
Alwai 'n awr, sylw y Ne!

Canys yr oedd y cyni
Mwya 'n ol er ein mwyn ni.

Y dodiad drwy frad ar frys—yn nwylaw
Annheilwng Iuddewlys,
Y fanllef—y Rhufeinllys—
Y gwadu llwyr—gwawd y llys.

Y poeredd ar y pur Dduw,
A'r dwyn at Herod annuw;
Y goron o ddrain garw
Mwya' tost a llym eu tw'.

Gosodwyd, megys adyn,—y Nef lyw
O flaen mainc Rhufeinddyn;
Drwy'r llysoedd nid oedd un dyn—i'w weled
Yno i'w arbed—pawb yn ei erbyn.

Gwel e'n myned dan ddyled, dan ddolur,
Ein llyw goreudeg, yn lle 'i greadur,
Mae fel oen dystaw, dan drwm flin dostur,
Er a ddywasga ei arw ddwysgur;
Clyw e'n gruddfan dan y dur—sy'n rhwygaw,
A'i waed yn llifaw o dan y llafur.

Er hyny llwyr goronwyd—y llafur,
   Llefai ef Gorphenwyd,
   A llais eglur,—y lle siglwyd,—gwnai'r floedd
   Gyffro 'n y Nefoedd, ac uffern anafwyd.

Llen y deml, grog len, a gaerog luniwyd,
A wnai lwyr agor, hon i lawr rwygwyd,
Y ddaiar lawr yn erfawr gynyrfwyd,
Yna 'r crog elltydd a'r creigiau holltwyd,
Dorau 'r beddau gryf gaerau agorwyd,
Ac i fyw wed'yn saint a gyfodwyd;
I galon y deml gwelwyd,—ni fyn Ior
O waed ei hallor—ei haur dywyllwyd.

Wedi ei wanu yr hoelion dynwyd
O'i rudd ddoluriau, ond prudd alarwyd,
O herwydd y creulon olion welwyd
O gur a loesau y gwr a lyswyd;
A'i ruddwawr gorff a roddwyd,—i orwedd,
Yn ei wael agwedd, mewn bedd na halogwyd.

Rhoi fynid y sel Rufeinig—ar faen
   Y cryf fedd naddedig;

A rhoddi milwyr addig—wrth hwnw,
Heb ond, i gadw y bendigedig.

Ond y trydydd dydd y daeth
Gwawr deg, a gwaredigaeth.

Angel yn awr yn ngwawl Ne'—a'i wisg wen
Ddisgynai o'i artre' ;
Ei wrid oedd a'i hardd bryd e'
Yn ail i fellten ole'.

Ac wedi iddo esgud ddisgyn—bu
Drwy y bedd ddaiargryn ;
Swydai â si ei edyn—naturiaeth,
E barai alaeth i bob rhyw elyn.

Yna symudo y maen siomedig
Wnai â'i aden fel deilen wywedig,
Er eu heirf anwar, milwyr Rhufeinig,
Rai chwerwon ydoedd yn dra chrynedig ;
E godai 'r bendigedig—heb aflwydd,
Na lliw gwaradwydd yn anllygredig.

Hon yw y sail ini sydd
Y deuir bawb o dy'r bedd :
Yr Adgyfodiad a fydd
O'n daiar yn y diwedd.

Ond cyn y dydd, dydd daw Ion,
I alw y marwolion,

Rhaid i'r son am Ion a'i waith,
A'r hwn fu farw unwaith,
Gyraedd pob gwlad a goror,
I droi myrdd, ar dir a môr
O druenus dir annuw
I gred iach i garu Duw.

Eilun dduwiau a'u holion a ddeol
Y gwir am Iesu a'i sain grymusol,
Llwyr dŷn astrus allorau dinystriol
O'u hurdd i'w hysu â gwarthrudd oesol;
E ddaw mwnai yr India ddymunol,
Gemau Senar, a China gamsyniol,
I'w rhoi ar wen allor Ior yn hollol;
Baner yr Oen fydd baner arweiniol
Y byd—tani daw braidd bob bod dynol,
Efo yr Iesu 'n dyrfa arosol,
Ac ni fydd mynydd na maenol—rhagllaw
Na fydd e o honaw yn feddianol.

Gwawria 'r dedwydd Filflwyddiant
A'r byd yn wynfyd a wnant;
Diafol lofruddiol ei frad,
Mewn cadwyn rhwyma 'n Ceidwad,
A bwrir ef, heb aros,
O'i ŵydd, i niwl y ddu nos;
Diwaelawd lyn hudolion
Dan folltau taranau 'r Ion.

O dan warth mor brudd, hyd yn hyn,—ei rudd
  Y mae 'r Iuddew barfwyn;

Wylo 'n hallt, a'i wallt yn wyn,
Mae y gwr llwm ei goryn.

Am Waredydd ddydd a ddaw,
Brudd adyn, mae 'n breuddwydiaw

Ond Iuddewon diau ddeuant—i gael
Gweled y Milflwyddiant;
A chredu 'n Iesu a wnant,—gan fawrhau
Rhinau a loesau yr hwn hoeliasant.

Y genedl oll gân awdl wych,—hed ei swn
Nes dadseinio 'r entrych,
Wedi i Ion, o'u du nych,
Wellâu eu gwawr a'u llewych.

Yna, er mawr ddywenydd,
Athrylith yn fendith fydd.

E beidia pob gwybodaeth—a rhoi help
I fawrhau annuwiaeth;
E gedwir gwir ddysgeidiaeth—heb lygredd
I faethu rhinwedd a Nef-athroniaeth.

Cymhwysderau, doniau 'r dydd,
A golud gyda 'u gilydd,
Ddaw o du Iesu a'i waith—a chywir
Wybodau renir drwy 'r byd ar unwaith.—

Wedi amser o lwydd lawer
Ar dduwiolder e ddaw eildo,

O amheuwyr, hyf watwarwyr,
A diwreiddwyr i'w diraddio.

Ein byd i anwybodaeth
Sudda 'n is, â'i wedd yn waeth;
A chyfyd i uwchafiaeth—aflendid
Hyd nes ei newid i nos annuwiaeth.

Megys yr oedd dirmygwyr
Yn nyddiau No 'n ëon wyr
Yn dal, yn mlaen y diluw
Yn blaid egr i gablu Duw,—
Hyd wawr y farn, rhyw dorf fydd,
O annuwiaid o'r newydd;
A bydd gwir grefydd y groes
A'i ther athrawiaeth eirioes,
A'r adael daiar wed'yn
A'r lliaws, o achaws hyn,
A myned i'r man y daeth
O hono i wlad annuwiaeth.

Ni leiha antur dyn a'i helyntion;
I gyrchu elw, parha gorchwylion;
Bydd yr amaethydd, hyd feusydd meithion,
Yn ceisio aru y cwysau hirion;
Y trafnidiwr a'i antur fynedion
Drydd longau a'u hwyliau i'r awelon,
A rhycha 'i agerdd y dyfngrych eigion,
Wrth ddwyn trysorau nwyddau newyddion;

A'r masnachwyr a'u moesau yn wychion,
Gynygiant o hyd i'r byd ddarbodion;
Marchnatäïr mewn mawr ychain tewion,
Meirch a milod, a chamelod moelion:
Pob mwnwr, neu gloddiwr i goluddion
Daiar a chwely i ddyfnder ei chalon;
Deil o hyd addysg adeiladyddion,
A thynant ffurfiau cynlluniau llawnion;
A bydd yr athronydd, athraw union,
Yn olrhain natur ddofn fel rhyw Newton,
Ac yn ei feddwl ryw ddarganfyddion
Na fu rai o'u heilydd gan farwolion;
Y milain gerbydwyr, gyrwyr geirwon,
I'w rhawd, mewn hylldawd, yn tramwy'n wylltion,
A brwd gynllunwyr pob brad gynllwynion
Yn eu hannuwiaeth yn para 'n ëon;
Rhai am weryd yn chwilio i'w meirwon,
A rhai 'n priodi ar yr un prydion;
Yn eu helwch bydd rhai annuwiolion
Yn gwych, yn helaethwych wledda 'n lythion;
Ac yn y llysoedd, mewn gynau llaesion,
Yn eu gorchwyliaeth ceir gwyr uchelion,
Rhwysga breninoedd, luoedd yn loewon,
Yn eu haur dorchau—chwai red eu heirchion;
Pob gorchwyl ar hwyl, yr awr hon,—a fydd,
A gwyr anufydd a geir yn hyfion.

Gyda hyn, y byd gryna,
Yn brudd oll yn ebrwydd â;

Yr haul a gwyd y tro ola'—ei liw
A'i lewyrch glafeiddia;
O'i lliw a'i dull lleuad â—dan drymlwyth
Yn y mawr adwyth hon a ymwrida.

E gilia 'r ddau o'r golwg,
A'r nefoedd a wisga wg;

A daw o'r cymylau duon—o fellt
Fil myrdd yn derwynion;
Tyrfau, taranau yr Ion,—o'r Nef lys,
A gyraedd wregys a gwraidd yr eigion.

Amaethwr fydd yn methu
A dal gan y cyffro du;
Rhaid iddo ado ei wedd
A'i arad ar ei orwedd;
A rhodda gwyr y rhuddaur
Ar frys heibio rifo 'r aur;
I frad y don ruadwy,
Llongau'r môr ollyngir mwy,
A'u dwylaw mewn du alaeth
Yn arw 'u trem ar y traeth;
Masnachwyr, a'u cludwyr clau,
Adawant fasnach deiau;
Mwngloddwyr, lowyr i'r lan,
O'u tywyllwch, dd'ont allan,
Yr aur, a gwythi 'r arian,
Gloddir, adewir i dân;
Adeiladwyr dyludant
Oddiwrth eu celfi ydd ant.

Gwyr y Newidfa wasgarant—yn llu
O'r lleoedd marchnatant,
Y dirif aur a dyrant,
Dymor oes i'r dim yr ant.

Ocrwr, gaeth rwydwr gweithredoedd—a fydd
Yn falch o'i holl filoedd,
A gyst oddiwrth ei gistoedd,—yn lân,
Ado ei arian ei aur a'i diroedd.

Athronwr a feithrina—ei awydd
Am wel'd y ser pella',
A orfydd o'i fyfyrfa—ado 'i waith
A thröa ymaith, arnynt ni thremia.

Diwedda 'r gyriedyddion, arbedir
Eu cerbydau gwylltion ;*
A delir mynedolion,
Yn eu taith, yr enyd hon.

A'r Cenadon, gweision gwir,
Yn ol, gan Dduw Ion elwir.

Rhi' o angylion fry, fry rhwng heuliau
Iach wlad araul y goruchelderau,
Geir am y dwthwn, mewn gorymdeithiau,
Yn moli yr Oen sydd aml ei rinau ;
Eu cerddi swynawl, cyraedd eu seiniau,
Ddaiarolion, dros fyrdd o orielau ;

* Agergerbydau.

A bloedd y torfoedd dreddia fel tyrfau,*
Dring hyd Orïon drwy eangderau;
Crymu 'n addas y ceir y mynyddau,
Y gwatwarwyr mewn gwewyr a gwaeau
A'r Udgorn a gân.—Rhwyga 'n lân lenau
Neu wasgawd† engur‡ tir cysgod angau.
Yn lle cur, adolur, hyd ei aeliau
Y gwr a wanwyd wisga goronau;
Ei bur wên heulog wna 'r wybr yn olau,
Gyr i ddiflaniad ser gwrdd filiynau;
Ei holl farnwyr, gwyr gau—gywilyddir,
Ei gam a welir, daw ar gymylau.

Ogofydd, amgaerydd a ymagorant,
Argelau duon i'r goleu deuant;
Pyramidiau, hiroesau heriasant,
Anwar rym melltiog yn awr ymholltant;
Ffynonau 'r ddaiar mewn bâr y berwant,
A lluaws y moroedd oll llesmeiriant;
Y tonau 'n eu graddau a gyrhaeddant
Y wybren aethus, a'u llwybrau noethant;
Heddyw mynyddau o'r golau giliant;
Ac ynys ar ol ynys diflanant;
Miliynau ar filiynau fileiniant.
O wyr o wragedd, y nwyfre rwygant,
A chriau addig, hwy chwerw waeddant;
O wg y Nefoedd, euogion yfant;
Cymysga y waedd, oer waedd a roddant,
Yn yr awyr, a'r taranau ruant;

* Thunder claps. † A covert. ‡ Awful.

Ar y gorfiniog greigiau erfyniant
I'w malurio, a'u cuddio 'n y coddiant
O ŵydd loes Iesu o'u bodd lysiasant,—
Er hyny, diau, 'r creig ni wrandawant.
Y meirwon oesau 'n y môr hunasant
Y cudd ddyfnderoedd o'u celloedd collant;
Hen deulu du y diluw adawant
Yn eu lliw gwreiddiol, y lle gorweddant;
Rhyfelwyr, druenuswyr drywanasant
Eu gilydd, am ddihefelydd foliant,
Eu meirwon gadau mawrion a godant,
Llu gyda y wys o'r lle gwaedasant.
Y gwyrdd ffrithoedd, y gerddi a ffrwythant
Cymoedd, a mynyddoedd mawr eu noddiant,
Corsydd, creigydd a'r hardd ddolydd ddeiliant;
A'r cadlasau yn feddau a fyddant.
O wraidd aelwydydd rhai a ddyludant,
Llynau, afonydd, rhoi allan fynant,
Doau o feirwon—mynwentau fwriant;
E gyrcha 'r Iesu 'r rhai garcharasant.
Teulu Ion union wenant—rhag mawr swn
A chriau annwn hwy ni ddychrynant.

Yr Iuddew gablai arwyddion—yr hwn
  Drywanwyd dan hoelion:
  Ei wawd a'i eiriau duon,
  A'i gryf rwysg, gyll ger ei fron.

Ni ameu hwn, am un mynyd,—yn awr,
  Pan wel ei wyneb-pryd,

Ai efe oedd drwy 'i fywyd—
Drwy 'i boen, i waredu 'r byd.

Cyfle gaiff y Twrc aflan—i ganfod
Gwynfa y saint weithian, [wch,
A'r g'oedd Nef luoedd, daw'n lân—mewn hacr-
Fawredd ei d'wllwch a'i freuddwyd allan.

Gwel'd teulu fawr lu'r nwyfre lân—a fydd
Ryfeddod i'r Pagan,
Heb ochel, rhyw bris bychan,
Rydd mwy ar ei dduwiau mân.

Nawf ar len y mwyfre las
Lawer—a daw Elias
Yn y corff, ac Enoch gu,
Rhai fyddant i'w rhyfeddu,
Fel dau o flodau ieuainc
Sydd fyth wrth yr orsedd fainc;
Sangent heibio gorsingoedd
Y Nef lys â llawen floedd
Heb i ing, heb i angau,
Roi 'i ddwrn ar yr un o'r ddau.

Hanes bedd Moses a ddaw mwy—i bawb
Yn beth gwybodadwy;
O'i waelodion yn weladwy—daw'r gwr
Yn llaw Gwaredwr yn anllygradwy.

Ffy awdwyr, beirdd, a phroffwydi—dorfoedd
Dirfawr o'r priddelli;

Y llu hwn pwy all enwi,
Ond yr Ion, na d'weyd eu rhi'?

Apostolion a merthyron,
Wir dduwiolion, fyrdd a welir,
Yn troi 'n union o argelion
A gwaelodion bedd a'i gleidir.

Dychymygaf y clywaf y cloion
A'u hoer rygn aethus drwy egni weithion,
Er gwae i filoedd, yn tori 'u gafaelion,
I dynu o'i waelawd annuwiolion;
Rhag dod i wyddfod yr Ion—carent fedd,
Rhyw gymau i orwedd dan greigiau mawrion.

Er tori heddwch y beddrod treiddia
Y floedd drwy 'i 'stefyll tywyll, dystawa;
Tery y wendon, cyraedd trwy India,
Y Ganges fawr yn orfawr gynyrfa,
Yn ei gwely addoer hon g'wilyddia,
Weled yr ebyrth drwy lid a reibia;
Juggernaut greulon ei olion wela
Ar yr euogion, yn awr a rwyga;
Gwaed ei offeiriaid i gyd a fera,
Syrthiant i g'wilydd y dydd diwedda';
Y Brahmin ni ddewinia—ei erchyll
Areithiau tywyll mawr warth a'u toa.

Adda ac Efa a gyfyd—a saint
Rif y ser o'r cynfyd;

Noah fab hyna 'r hên fyd—adgoda
O ganol chwalfa eigion lwch eilfyd.

Abel gwyd heb ol ei gur,
Na dialedd, na dolur ;
Anhawdd iawn fydd i Gain ddu,
Eon wibiad wynebu.

Cyrhaeddyd trwy weryd bro Etruria,*
A hir adawyd, dan leni o'r dua'
Wna bloedd yr angel nes y cwbl ddringa
Llychyn at lychyn, er 's oesau lecha ;
Tycia 'i rhybydd drwy 'r Aifft ac Arabia,
Babilon,—ac yn mysg meirwon Palmyra ;
A Chanaan yn wych una—yn y gwaith
O roi i Ion eilwaith ei rai anwyla'.

Gawr y Nef agor a wna—i eigiawn
Ogof Maes Machpela,
Ac o hon yr esgyna,—yn nerthol,
I wybr mwy siriol Abr'am a Sara.

A'u had oll ehed allan,
Holl had Jacob yn mhob man.

I Baul enwog, fel blaenawr
A fu a'i athrylith fawr.

* "Whose tombs have been opened to let out the secrets of the dead, and to tell a tale of more than two thousand years ago."

Yn dal, drwy ysbrydoliaeth—i hyddysg
Gyhoeddi 'r athrawiaeth,
Bydd gweled buddugoliaeth—ei fawr ffydd
Yn rhyw gân newydd er gwae i annuwiaeth.

Y corff a fu'n goddef cur,
A ddaliwyd dan drwm ddolur
Chwerw, llym y carchar llaith,—labyddiwyd,
A finiog wanwyd yn fwy nag unwaith,

Fu ar y môr, ddwfr mawrwyllt,
O dan wg berw 'r don wyllt,
Fu dan loesion cyffion cau,
Wedi hyn mewn cadwynau,
Ac o'r diwedd dan gledd glas,
Gorfiniog y Rhufeinwas,
Ddaw 'n gry 'i fyny o'i fedd
Heb ol un llwgr, heb waeledd.

Iob a wel ei Brynwr byw,
Fry 'n hawdd, ger ei fron, heddyw;
O gynfyd fe 'i darganfu
Tra 'n ei 'stormydd dywydd du;
Daw i'w wel'd, â llygad iach,
Yn y glaer ne 'n eglurach.

Heb un llygredd neu waeledd, na 'i olion,
Na gwae 'n un enaid, a'u gynau 'n wynion,
O naws buredig, nid yn ysbrydion,
Yn gryf i ddal, bydd gwir grefyddolion;

A rhengau o olau bur angylion
A wisga harddwch fydd y gosgorddion
A wel yr anfarwolion,—yn agos,
O'u bodd, i'w haros, o'u beddau oerion.

A'r rhai byw, na fu 'n nhy 'r bedd,
Adewir, wel y diwedd;
Duwinwr, ar adenydd,
Parod, i'r cyfarfod fydd.
E adawa 'r gwr duwiol
Ei lyfrau 'n rhestrau ar ol.

Rhai fyddant yn rhyfeddu—yr Iawn mawr
  Er ein mwyn a'r gwaedu,
  Dangosant angau Iesu—nes y del
  Yn y wybr uchel—nid i'w brawychu.

Eu newid oll mewn mynyd awr—a gant
  I ogoniant gwynwawr,
  Mor wych, mor gyflym a'r wawr—eu cipio
  A wneir i uno â'r dorf eirianwawr.

Gwel Adda, mewn goleuddydd,
Ei had oll, ar yr un dydd,
Da a drwg, a'u golwg ar
Wir Dduw holl gyrau 'r ddaiar.

Fe rodda 'r cofarwyddion
Heibio 'u swydd, mwyach, heb son
Am lwch y dorf ymlechai
Dan gryfion gloion tyn glai.

Bydd mawrion lyfnion golofnau—ymddyrchant
Ac a ymwelant a bro 'r cymylau,
Yn addurn i rinweddau—a'u haeddent,
A'u hir deilyngent er dial angau,
Wedi gwir ddarfod eu gwaith—o goffâu,
O gadw 'r enwau, i gyd ar unwaith.

Amrywiawg waith marmor gwyn,—diadfail,
Oddiar fedd adail dderfydd wedi'yn,

Yr ywen hên, drwy ei hoes,
Welai fan olaf einioes,
A rhoi i lawr ryw fawr lu
Hyd at ei gwraidd o'i deutu,
Godir, ddiwreiddir, heddyw,
Yn y fan, daw 'r meirw 'n fyw.

Amaethydd a fydd a'i fawl,
A'i floedd yn orfoleddawl,
Wrth wel'd ei addfed ffrwyth haf,
Yn niwedd ei gynauaf;—
Y morwr, ar ddwfr mawrwyn,
Fu 'n mherfedd y Gogledd gwyn,
Dro hir, yn ngwlad yr eira,
Yn rhwym yn nghyffion yr ia,
Ddyry lef pan ddaw i'r lan,—yn bybyr,
A rhwyga yr awyr ag oroian;—

Wedi i Israel gael golwg
Ar y lan, er marwol wg,

A Pharaoh 'n wyw 'n fferu 'n oer
Dan orchudd y don erchoer,
Swn y gân a synai gôr
Anfarwawl y Nef oror ;—

Wedi i'r saint ri' y ser —lwyr esgyn
  Uwchlaw rhwysg marwolder,
  Mwyhau bydd sain anthem ber—y dyrfa,
  Cryfâ 'u Haleluia fel swn dwfr lawer.

Y dydd hwn diwedda anian—ei gwaith
  I gyd drwy 'r pedryfan ;
  I benbleth pob peth â pan—gwyd y saint
  Angau o henaint a drenga 'i hunan.

Y ddwy dorf yn y dydd du,
Dan wybr fydd yn cydwynebu
Y gwr a wisga 'r goron,
Dygir hwy i frawd ger ei fron ;
Un heb wrid, heb ofn na braw,
Ar ei ddilwgr ddeaulaw,
Y llall, yn mhlith ellyllon,
Yn rhesau ar aswy hon.

Nid all Satan i d'wllwg—na Herod
  Na Pharaoh a'i gilwg,
  Na Judas gas, rhag ei wg,
  Na Philat, ffoi o'i olwg.

Heb un man i'w derbyn mwy—o afael
  Digofaint ofnadwy,
  Pob peth dry 'n eu herbyn hwy,
  Yn gyfiawn, ddydd eu gofwy.

Belsasar anwar yno—a welir
  Yn gan mil mwy gwallgo'
  Nag yr ydoedd, tra 'n gwrido,
  Yn ei wledd annuwiol o.

Nabal a Saul wynebant,—er arswyd,
  Ar yr orsedd tremiant,
  A'r dduaf dorf fawr ddeuant;—
  Yn ei gŵydd yn euog ant.

I yru y llu hyll hwn,
O'i wyneb obry i annwn,
Ni rydd Ion arwydd unwaith
O'i rym a'i gryfder ar waith:
A gwg ei olwg i wae
Fe ŷr y rhai'n i fawrwae;
Dyga 'i holl saint gydag ef,
Wedi eu hedryd i'w hadref;
Fe welir engyl filoedd
Yno o'i flaen â llawen floedd;
Seiniau eu canau esgynant
Uwch yr haul uwch, uwch, yr ant;

Gorseddle 'r frawdle ar frys—o'u golwg
  A gilia 'n anhysbys,

A Iau lân—Sadwrn a'i lys ;—trem ryfedd
Gant ar ei agwedd ei gant a'i wregys.

Yn hir hwy ni aröant—i dremio
Ar dramawr ser welant,
Yn eu hawydd egnïant
Adaw 'r nen myn'd adre' wnant.

Heibio 'r ser hwy brysurant—a heuliau
O'u hol a adawant
Fil a myrdd—yn gyflym ant,
I ganol gwlad gogoniant.

Bydd yn werth gwel'd prydferthion,
Llaw a gwaith galluog Ion,
Drwy 'r bydoedd, luoedd lawer,
Ucha' sydd goruwch y ser.

Para i 'hedeg all corff ysbrydawl
Fel y wawr lân, neu y tân melltenawl;
Daw weithiau i froydd ar daith foreuawl,
Fu o fawrwerth i'w galon fyfyriawl,
Car rodio manau 'r cyrau dymunawl
A gerddai 'n Iesu, rai gwyrddion oesawl;
Ac o ser i uwch ser yn gysurawl
A ef i edrych gwaith Duw anfeidrawl;
Gwel heuliau uwch heuliau, neu uchelwawl
Mewn nenau, uwch nenau yn enynawl,
Nes myn'd i ddinas y mawl—lle mae 'r ddor
Wedi ei hagor i'r dorf waredigawl.

Ond ar ol i'r tân dreuliaw—anmhuredd
  Y byd mawr oll drwyddaw,
  Dyna 'r adeg deg y daw
  Ar ei hyd i'w ail rodiaw.

Ni odde 'r creig daneddog—yr angerdd
  A rhwng pob til cydiog,
  A thir crwm a llethrau crog—ddymchwelir
  I ager ysir creigiau hir oesog.

Yn y dydd mawr hwn e dodda—y mwn,
  Y meini caleta;
  Y gallestr lem a golla
  Ei llawn rym yn llyn yr â.

Uchelion fynyddau chwalant—i'w sail
  A'r ser mawr a gwympant,
  Lloer a haul o'u lle yr ant,
  Gruddiau y ddau a dduant.

Wrth i'r tân anrheithio 'r tir—yn ulw
  E dry yn lludw raian a lleid-dir;
  Ffynon ac afon yfir—yn sychion,
  Anmhuraidd wlybion y moroedd leibir.

Ai cryfion wreichion o rod
Rhyw haul a syrth ar waelod
Y dw'r, nes rhoi 'r dyfnderoedd—yn ffwrn fel
Eiriasdan ufel cras hyd y nefoedd,

I'w hollol ferwi allan,
Yn fwg, yn d'wllwg, yn dán,
Ynte rhuadwyllt drydan
Ferwa 'r dŵr—rydd fôr ar dân?

Wedi 'r holl gyfnewidion
Ar fyd, byd arall all Ion
O'i fwlwg a'i adfeiliau
Ei greu 'n ol a'i ail grwnâu,
A'i adael er cof wed'yn
Am y tal dros gymod dyn.

Y corff a fydd a fydd yn rhyfeddawl
Uchlaw anmhuredd a cholyn marwawl,
E ddeil i weini oesoedd olynawl
Yn awyr deg y fan waredigawl;
Yn dra chynes yr hanes dwyreiniawl,
Y dyroddi yr addewid wreiddiawl,
Arbedu Noah o'r byd annuwiawl
A Lot o dom y Sodom arswydawl,
Y dwyn o warth y gwared yn wyrthiawl,
Rai a ormesai Pharaoh rymusawl,
Yr agor y môr, a gwawr ymwriawl,
Y dw'r a foddai 'r giwdawd arfeiddiawl,
Y sain roi arwawd Moesen arwrawl,
Am ei arweiniad drwy 'r môr ewynawl,
Ac aml rinwedd y cwmwl arweiniawl,
Yn y wybr yn nofio, 'r bara nefawl,
Y dw'r o'r graig y gallestrgraig rwygawl
A hir yfai y dyrfa afrifawl,

Y myn 'd i Ganaan y man digonawl,
Drwy lawr yr Iorddonen hên, ddirwyniawl,
A thirionwch Rhagluniaeth feithrinawl,
Hyd yr oesau a'i doniau cydweiniawl,
Adroddir yn fydryddawl—yn ngherddi
Cywrain niferi y côr anfarwawl;

Ond mwy o'u caniad a'u mawl—rydd y llu
I fawrâu 'n Iesu ar fryniau oesawl;

I ben a d'weyd ei boenau—ni ddeuant
  Yn mhen myrdd o oesau;
  Yr Iawn a'i aml rinau,—yn dragywydd,
  Fydd yn gân newydd yn eu geneuau.

CYNFELYN AB CYNFARCH.

CAERLLEON: ARGRAPHWYD GAN F. P. EVANS.

# DUCKER, MINSHULL, & EDWARDS,

## BOOKSELLERS, STATIONERS, AND BINDERS,

### EASTGATE ROW, CHESTER,

Have constantly on sale a large assortment of

**MODERN PUBLICATIONS,**

In every branch of Literature; including Children's books and School books of all kinds, and a great variety of Works suitable for Presents. Bibles, Prayer Books, and Church Services, of all sizes, and in every description of binding.

---

ACCOUNT BOOKS RULED TO ANY PATTERN, AND

**BOOK BINDING**

Executed in the most approved modern style, at moderate prices.

**MAGAZINES AND PERIODICALS,**

Regularly supplied, and all other Works procured with the greatest punctuality and despatch.

**ALMANACKS, LADIES' AND GENTLEMEN'S POCKET BOOKS, DIARIES AND EVERY OTHER ANNUAL PUBLICATION.**

A GREAT VARIETY OF INTERESTING PRINTS,

Including Illustrations for Scrap Books, &c.

Oil and Water Colours, Brushes, prepared Canvas, Drawing Paper, Boards, and every description of Drawing Materials of the best quality.

## A PORTFOLIO OF DRAWINGS FOR HIRE,

Including Coloured Heads, Figures and Landscapes, Flowers, Pencil Drawings, &c. by eminent Artists.

MATERIALS FOR MAKING WAX FLOWERS.

**A GOOD STOCK OF MODERN MUSIC**
Always on sale, and New Pieces obtained on the shortest notice.

**CARD PLATES NEATLY ENGRAVED,**

*And every description of Copper Plate and Letter Press Printing done with the utmost care.*

London Newspapers forwarded regularly by Post.

# Ducker, Minshull, & Edwards,

*EASTGATE ROW.*

---

**Depository of the British and Foreign Bible Society.**

AGENTS FOR THE ROYAL INSURANCE COMPANY.

---

THE GENERAL CIRCULATING LIBRARY

COMPRISES

AN EXTENSIVE COLLECTION OF MODERN WORKS

IN VARIOUS BRANCHES OF LITERATURE,

INCLUDING

**HISTORY, BIOGRAPHY, VOYAGES, TRAVELS, POETRY, NOVELS, ETC.**

WITH A VARIETY OF

PERIODICAL PUBLICATIONS,

TO WHICH IS ADDED

*Every Work of Interest immediately on its Publication.*

---

*Just Published, Price Three Guineas, in Three vols. cloth,*

Under the immediate Patronage of Her Most Gracious Majesty the Queen, and the Bishops and Clergy of the Principality,

**Y BIBL DARLUNIADOL,**

(WELSH ILLUSTRATED BIBLE)

Comprising the Exposition on the whole of the Old Testament.

**EDITED BY THE REV. EVAN EVANS, OF INCE.**

N.B.—It is intended to Publish the Exposition on the NEW TESTAMENT, uniform with the above, in Two Volumes.